# Rhaglen Gyflawn

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 24AIN MAI, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**


Pwynt Cyswllt

**Einir Rh Davies**

**01286 679868**

**EinirRhianDavies@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 17 Mai 2023)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Ieuan Williams | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cynghorydd Gill German | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynghorydd Mared Eastwood | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd Beca Brown | Cyngor Gwynedd |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dylan Davies | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |
| Delyth Roberts | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwr |
| Jennie Downes | Yr Eglwys yng Nghymru |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Claire Homard | Cyngor Sir y Fflint |
| Garem Jackson | Cyngor Gwynedd |
| Karen Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Geraint Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Marc Berw Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Einir Rh Davies | Awdurdod Lletyol |
| Dewi Morgan | Awdurdod Lletyol |
| Sion Huws | Awdurdod Lletyol |
| Arwyn Thomas | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Alwyn Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| Bethan Eleri Roberts | Rheolwr Rheoli Perfformiad |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

## Sylwedydd

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau o absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Chwefror, 2023 fel rhai cywir.

**5. CYFRIFON GWE 2022-2023 - ALLDRO REFENIW** 10 - 14

I ddiweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23. Mae yr adroddiad hefyd yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.

**6. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG** 15 - 40

I gyflwyno'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) diwygiedig i'r Cyd-Bwyllgor ei gymeradwyo.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23 GWE** 41 - 99

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2022-2023 i'r Cyd-Bwyllgor.

**8. CYMERADWYO CYNLLUN BUSNES GWE 2023-2026** 100 - 131

Cyflwyno Cynllun Busnes Rhanbarthol 2023-2026 i aelodau'r Cyd-bwyllgor.

**9. ADOLYGU'R GOFRESTR RISG** 132 - 135

Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**10. ADOLYGU'R TREFNIADAU GWEITHREDU A'R STRWYTHUR STAFFIO PRESENNOL** 136 - 143

I gyflwyno cylch gorchwyl drafft i aelodau’r Cyd-bwyllgor mewn perthynas â Adolygu trefniadau gweithredu GwE a'r strwythur staffio presennol.

**11. YMGYNGHORIADAU** 144 - 164

I rannu gwybodaeth ag aelodau'r Cyd-bwyllgor ynghylch ymgynghoriadau perthnasol dros ben sydd ar y gweill

**12. DIWRNOD DATHLU Y DAITH DDIWYGIO - 22/06/2023** 165 - 167

Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor am y bwriad i gynnal ‘Marchnad Cwricwlwm i Gymru’ i arweinwyr ysgolion y rhanbarth ar 22 Mehefin 2023 yn Venue Cymru, Llandudno er mwyn dathlu y daith ddiwygio hyd yma.

**CYD-BWYLLGOR GWE – 15/02/23**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Julie Fallon (Cadeirydd) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
Gill German (Is-Gadeirydd) (Cyngor Sir Ddinbych)Beca Brown (Cyngor Gwynedd), Ieuan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn) a Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Aelodau Cyfetholedig Heb Bleidlais:** Dylan Davies (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd).

**Swyddogion Heb bleidlais:** Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Marc Berw Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd) Dafydd Ifans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych).

**Swyddogion yn bresennol:**
**GwE –** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad).

**Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol -** Dewi Morgan (Pennaeth Adran Cyllid), Siôn Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd), Rhodri Jones ac Einir Davies (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint).

Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Jonathan Morgan, Pennaeth ysgol Y Gogarth, Llandudno ac aelod gweithgar o Gyd-bwyllgor GwE, yn dilyn ei farwolaeth ddiweddar. Diolchwyd iddo am flynyddoedd o ymroddiad drwy gydol ei yrfa ac fel aelod o'r Cyd-bwyllgor hwn.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd o'r cyfarfod ar y 23ain o Dachwedd, 2022 yn gywir.

**5. CYLLIDEB 2022-2023: MONITRO CHWARTER 3**

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan Bennaeth Adran Cyllid. Tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Rhagwelwyd bydd sefyllfa lled-niwtral i gyllideb GwE ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.
- Cadarnhawyd bod tanwariant o £27,400 o'r gyllideb lawn o £17,993,147 a bod GwE yn gwario yn unol â'r gyllideb.

- Nodwyd bod hyn yn sylweddol llai nag adolygiad Chwarter 2, pan oedd tanwariant o tua £90,000 yn cael ei ragweld ar gyfer y flwyddyn. Mae GwE wedi llwyddo i ostwng lefelau tanwariant drwy recriwtio staff i swyddi gwag.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad ar gyfer y Trydydd Chwarter o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23.**

**6. CYLLIDEB GwE 2023-2024 (CYLLIDEB SYLFAENOL)**

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan Bennaeth Adran Cyllid. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Nodwyd bod y gyllideb hon yn weithredol o 1af Ebrill 2023 hyd nes 31 Mawrth 2024.
- Awgrymwyd sefydlu cyllideb sylfaenol o'r un ffigwr â'r gyllideb eleni. Mae hyn yn gyfanswm o £17,993,147.
- Cadarnhawyd bod y gyllideb hon yn adlewyrchu penderfyniad y Cynghorau i beidio ychwanegu chwyddiant yn llawn. Golyga hyn bod toriad o 5.25% i'r gyllideb o'i gymharu â 2022/23 yn dilyn cynnydd mewn costau. Manylwyd bod hyn yn gyfwerth â £206,000.
- Eglurwyd bod y Gronfa Bensiwn yn cael ei hadolygu bob tair blynedd a bod canlyniadau'r adolygiad diweddaraf yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023. Oherwydd bod y gronfa mewn sefyllfa iach ar hyn o bryd, bydd gostyngiad o £103,964 yng nghyfraniad GwE fel cyflogwr. Cadarnhawyd bod hyn yn hanner y bwlch a grëwyd gan chwyddiant, gan leihau'r toriad a wynebir i 2.60%. Bydd angen sicrhau bod arbedion yn cael eu gwneud er mwyn cyfarch y bwlch o £102,112 sy'n weddill yn y gyllideb.
- Cyfeiriwyd at y cyfraniadau gan y Cynghorau ar gyfer cyllideb GwE. Datganwyd bod y cyfanswm a ddarparwyd yn £3,924,269 rhwng y chwe Cyngor. Cadarnhawyd bod hwn yr un ffigwr â'r flwyddyn ariannol bresennol. Er hyn, bydd amrywiad bychan yng nghyfraniad y cynghorau unigol oherwydd newidiadau mewn lefelau poblogaeth.

**PENDERFYNWYD**

**Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer y flwyddyn gyllidebol 2023/24 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1 o'r adroddiad.**

**7. CYNLLUN BUSNES 2022-2023: MONITRO CHWARTER 3**

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE. Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Eglurwyd bod y cyfnod perthnasol hwn (Hydref – Rhagfyr 2022) wedi bod yn gyfnod prysur iawn gyda llawer o ysgolion yn gweld ychydig o normalrwydd yn dychwelyd yn dilyn cyfnod Cofid-19.
- Nodwyd bod gweithdrefnau newydd wedi cael eu rhoi mewn grym i sicrhau bod ysgolion yn adolygu perfformiad ac yn hunanasesu atebolrwydd.
- Cyfeiriwyd at gynhadledd bwysig a gynhaliwyd ar draws y rhanbarth a oedd yn ffocysu ar ail-gyflwyno systemau i bontio'r addysg gynradd ac uwchradd.
- Cadarnhawyd mai un o'r prif risgiau yn ddiweddar yw olyniaeth arweinyddiaeth ar bob lefel yn y gyfundrefn. Nodwyd bod chwarter penaethiaid ysgolion uwchradd Gogledd Cymru wedi ymddeol o fewn y flwyddyn ddiwethaf.. Nodwyd hefyd bod athrawon llanw yn brin ar hyn o bryd ac mae ysgolion yn cael trafferth rhyddhau athrawon i fynychu hyfforddiant allweddol.
- Pwysleisiwyd bod perthynas GwE gydag ysgolion yn dda iawn er y problemau staffio hyn.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Cyd-bwyllgor i rannu sylwadau a holi cwestiynau:

- Manylwyd ar 'Strategaeth i gefnogi ymwneud rhieni a'r gymuned' o fewn Amcan 4 y cynllun: 'Ysgolion Cryf a Chynhwysol' gan ofyn pa waith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod datblygiadau o fewn y strategaeth.
    - Mewn ymateb i'r ymholiad cadarnhaodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE bod cydweithio agos yn digwydd rhwng GwE, rhieni a dysgwyr er mwyn sicrhau bod deunyddiau ar gael iddynt. Ymhelaethwyd bod gwaith yn cael ei wneud gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio gweld sut byddai'r cydweithio hyn yn digwydd yn gymdeithasol gan nad yw hynny'n glir ar hyn o bryd. Pwysleisir bod gwaith da yn cael ei wneud o fewn ysgolion ar lefel unigol i ddatblygu'r strategaeth hwn, ond bod angen cynllun clir ar gyfer y dyfodol ar sut mae ei weithredu ar lefel cymunedol a rhanbarthol.
- Cynigwyd bod trafodaeth bellach yn cael ei gynnal ar y strategaeth ym Mwrdd Rheoli GwE er mwyn rhannu arferion da a syniadauac i sicrhau bod y cynllun a'r strategaeth yn gryf ac effeithiol..
    - Mewn ymateb i'r cynnig hwn, cadarnhaodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y byddai modd trafod y mater hwn ymhellach erbyn cyfnod yr haf gan y bydd polisïau cliriach i'w gael i'w hystyried bryd hynny.
- Cytunwyd bod anghydraddoldeb a phresenoldeb yn faterion allweddol yn dilyn cyfnod Cofid.  Mae diogelwch plant yn ffactor arall
- Ymhelaethwyd mai un rhwystr o ran cynllunio'r strategaeth hon yw mai  cyllideb am gyfnodau penodol a geir gan Lywodraeth Cymru. Credir bod hyn yn achosi trafferthion recriwtio oherwydd nad oes modd cynllunio yn hirdymor.

- Nodwyd bod angen mesurau cryf i warchod arweinyddion a soniwyd bod gweithlu ifanc hefyd yn gadael eu swyddi oherwydd pwysau gwaith. Nodwyd bod camsyniadau yn cael eu rhannu am yrfaoedd yn y maes dysgu a bod angen newid y meddylfryd..

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.**
- **Trafodaeth bellach ar 'Strategaeth i gefnogi ymwneud rhieni a'r gymuned'  o fewn Amcan 4 y cynllun: 'Ysgolion Cryf a Chynhwysol', mewn cyfarfod o'r Cydbwyllgor yn y dyfodol.**

## 8. DATGANIAD YSGRIFENEDIG: GWELLA YSGOLION A'R DIRWEDD O RAN GWYBODAETH – GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE. Tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Cadarnhawyd y cyhoeddodd Y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad ysgrifenedig:   'Gwella ysgolion a'r dirwedd o ran gwybodaeth' ar 19 Ionawr 2023 a oedd yn amlinellu'r camau nesaf o ran datblygu ecosystem / tirwedd data a gwybodaeth newydd. Cyflwynwyd y diweddariad hwn er gwybodaeth i'r Aelodau.
- Eglurwyd bod y datganiad ysgrifenedig yn manylu ar system wybodaeth newydd ar gyfer ysgolion ac yn rhannu argymhellion ar lefelau atebolrwydd ysgolion.
- Atgoffwyd yr aelodau o'r cyhoeddiad annisgwyl y bydd system 'Sgôr Pwyntiau Capio 9' yn dychwelyd fel mesurydd atebolrwydd o haf 2023 ymlaen. Bydd y mesurydd hwn yn creu sgôr yn seiliedig ar ganlyniadau 9 cymhwyster TGAU neu gymhwyster cyfatebol.

- Ymhelaethwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bydd dau weithgor yn cael ei sefydlu, gydag ymarferwyr mewn ysgolion ac awdurdodau lleol i gydweithio ar weledigaeth o sut ddylai atebolrwydd ysgolion edrych yn y dyfodol.
- Cyfeiriwyd bod system 'samplo' hefyd yn cael ei weithredu. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio er mwyn i ysgolion a swyddogion rannu syniadau a chyfrannu i wella'r system drwy enghreifftiau o arfer dda.
- Nodwyd bod rhaid gweithredu'n ofalus wrth i fesurau atebolrwydd gael eu cyflwyno gan fod posibilrwydd bod ysgolion yn mynd i gystadleuaeth gyda'i gilydd yn hytrach na chydweithio, rhannu syniadau a gweithredu ar arferion da.
- Pwysleisiwyd bod datganiad wedi cael ei ryddhau gan Brif Arolygydd ESTYN, yn cadarnhau bydd arolygiadau yn gweithredu yn yr un modd a'r prosesau presennol ar hyn o bryd.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Cydbwyllgor i rannu sylwadau a holi cwestiynau:

Mynegwyd siom a rhwystredigaeth na ymgynghorwyd ag awdurdodau lleol,ysgolion na'r Consortia Rhanbarthol ar y diweddariadau yma. Nodwyd bod amseriad y cyhoeddiad yn peri gofid gan ei fod wedi cael ei gyflwyno yng nghanol blwyddyn academaidd a hynny yn fuan ar ôl canlyniadau arholiadau cynnar.

Pwysleisiwyd bod penaethiaid ac athrawon yn teimlo pwysau yn ddiweddar oherwydd materion ymddygiad a phresenoldeba gallai ail gyflwyno'r trefniant 'Sgôr Pwyntiau Capio 9' ychwanegu at hyn.

Cadarnhawyd bod rhai o aelodau'r Cyd-bwyllgor yn cyfarfod â'r Gweinidog ym mis Mawrth a bydd pryderon am y sefyllfa yn cael eu rhannu bryd hynny. Cynigwyd cynnal cyfarfod ychwanegol o'r Cyd-bwyllgor yn dilyn y cyfarfod yma er mwyn cael trafodaeth bellach am addysg yng Ngogledd Cymru gan sicrhau ystyriaethau i wella'r system a deall mesuriadau atebolrwydd, gan wahodd y Gweinidog i'r cyfarfod am sylwadau. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw bydd y Cyd-bwyllgor yn gallu rhannu datganiad ar ran ysgolion y rhanbarth os byddai'r aelodau yn credu i hynny fod yn briodol.

**PENDERFYNWYD**

**Cyflwynwyd yr eitem yma er gwybodaeth ar gyfer yr aelodau. Penderfynwyd gwahodd Gweinidog Y Gymraeg ac Addysg i gyfarfod arbennig o'r Cyd-bwyllgor i gael trafodaeth am addysg ar draws rhanbarth y gogledd.**

**9. PROSIECT EIN LLAIS NI**

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Cadarnhawyd mai bwriad y prosiect yw rhoi cymorth i ddisgyblion i ddatblygu sgiliau llafaredd yn y Gymraeg drwy gynnig syniadau a strategaethau i feithrin sgiliau siarad a darllen.
- Datganwyd bod nifer o ysgolion wedi datgan yr angen i ddatblygu sgiliau llafaredd Cymraeg eu disgyblion. Mae hyn yn enwedig yn wir yn dilyn cyfnod Cofid ac yn benodol mewn teuluoedd di-gymraeg gan nad oedd disgyblion wedi cael cyfle i ymarfer eu sgiliau.
- Atgoffwyd bod gwaith cychwynnol y prosiect wedi cael ei wneud mewn ymgynghoriaeth ag ysgolion Cymraeg a dwyieithog a gyda'r Athro Enlli Thomas sy'n arbenigydd rhyngwladol ar addysg ddwyieithog.
- Manylwyd bod y prosiect wedi cael cefnogaeth Llywodraeth Cymru drwy grant ym mis Hydref 2021. Nodwyd hefyd bod bwrdd llywio wedi ei sefydlu ar gyfer y prosiect sy'n

cynnwys yr aelodau a ganlyn - penaethiaid ysgolion, cynrychiolydd o'r Bwrdd Rheoli , Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, Cynghorydd Ian Roberts ar ran Cyd-bwyllgor GwE a'r Athro Enlli Thomas.

- Rhannwyd balchder bod ysgolion wedi rhannu llwyddiannau'r prosiect mewn gweithdai y tymor diwethaf. Roedd hyn yn dangos bod y strategaethau a gyflwynwyd fel rhan o'r prosiect yn llwyddiannus i ddatblygu sgiliau'r plant.
- Nodwyd yn dilyn llwyddiannau'r prosiect, mae cais wedi cael ei wneud i ymestyn y prosiect i fwy o ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn ogystal ag ysgolion cyfrwng Saesneg. Derbyniwyd dyraniad ychwanegol o hyd at £272,000 gan Llywodraeth Cymru i ddatblygu ac ehangu'r gwaith ymhellach.

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r cynlluniau i ddatblygu'r prosiect yn unol â'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.**

**10. CALENDR CYFARFODYDD 2023-2024**

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE fel eitem er gwybodaeth yn unig.

Ystyriwyd cynnal y cyfarfod nesaf o'r Cyd-bwyllgor yn aml-leoliad ar Fai 24ain 2023.

**PENDERFYNWYD**

**Cytunwyd ar galendr cyfarfodydd y Cydbwyllgor am y flwyddyn 2023-24.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30y.b a daeth i ben am 12.00y.b.

________________________________________

**CADEIRYDD**

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 24 Mai 2023 |
| **TEITL** | **Cyfrifon Terfynol GwE 2022/23 – Alldro Refeniw** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23.<br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **AWDUR** | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. PENDERFYNIAD

**Gofynnir i'r Cydbwyllgor:**

1.1 **Nodi a derbyn Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Cydbwyllgor GwE am 2022/23**.

1.2 Gymeradwyo trosglwyddiad ariannol o gronfa wrth gefn GwE i ariannu gorwariant o £138,871 yn 2022/23, ar ôl ystyried y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant.

1.3 Gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2022/23 fydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol GwE am y flwyddyn sydd i'w cynhyrchu, eu hardystio a'u cyhoeddi gan Adran Gyllid yr awdurdod lletya cyn y dyddiad statudol o 31 Mai.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Cydbwyllgor GwE am 2022/23 yn ymddangos yn Atodiad 1.

2.2 Adroddir ar sefyllfa derfynol o orwariant net o £138,871 yn erbyn y gyllideb, sydd bennaf yn sgil blaenoriaethu cynlluniau angenrheidiol penodol.

2.3 Ar ddiwedd chwarter 3, amcangyfrifwyd byddai tanwariant o (£27,423). Mae hyn yn golygu fod symudiad o £166,294 wedi ei weld i'r hyn a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 3.

2.4 Mae Rhan 3 isod yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

## 3. AMRYWIADAU ARIANNOL

3.1 **Gweithwyr:**

**Sefyllfa Terfynol: Tanwariant (£23,430)** *Chwarter 3: Gorwariant £12,711*

Adroddir ar sefyllfa o danwariant bychan yn bennaf oherwydd trosiant staff, gan gynnwys staff ar secondiad i gynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy grantiau. O ystyried fod y gyllideb werth £3.4m net, mae'r tanwariant felly yn agos iawn i'r gyllideb.

3.2 **Adeilad:**

**Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £46,252** *Chwarter 3: Gorwariant £23,787*

Mae gan GwE gyllideb ar gyfer incwm rhent gan ysgolion, awdurdodau lleol a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy grantiau, am ddefnydd o adeiladau GwE. Bu i'r digwyddiadau ail-gychwyn ym mis Medi 2022, ac felly fe ragwelwyd y byddai'r ffrwd incwm yma yn gwella yn ystod y flwyddyn. Er hynny, adroddwyd yn Chwarter 3 y byddai diffyg incwm ar gyfer y cyfnod Ebrill i Awst yn arwain at orwariant. Yn anffodus, roedd y defnydd ac felly'r incwm a ddenwyd yn llai na'r disgwyl. Erbyn diwedd y flwyddyn mi fydd y pennawd yma felly yn cael ei adolygu i asesu ei briodoldeb bellach yn y byd gwaith newydd ers yr argyfwng Covid.

3.3 **Cludiant:**

**Sefyllfa Terfynol: Tanwariant (£49,202)** *Chwarter 3: Tanwariant (£54,046)*

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 3. Ar ôl eu hatal yn ystod yr argyfwng Covid, fe wnaeth ymweliadau ag ysgolion ailgychwyn yn ystod y flwyddyn. Fe ragwelir blwyddyn lawn o deithio ac ymweliadau ag ysgolion heb eu tarfu yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24. Er hynny, mae ffyrdd newydd o weithio yn gyffredinol wedi arwain at fwy o gyfarfodydd rhithiol, ac felly llai o

deithio. Nid oes disgwyl y bydd y tanwariant yn parhau i'r un lefel yn 2023/24, a bydd y sefyllfa yn agosau at sefyllfa gytbwys.

3.4 **Prosiectau Penodol:**
**Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £206,122** *Chwarter 3: Gorwariant £540*
Mae'r gwasanaeth yn fwriadol wedi blaenoriaethu cynlluniau angenrheidiol yn ystod y flwyddyn er mwyn rhoi cefnogaeth i ysgolion. Mae'r gorwariant yn y pennawd yma yn cael ei ariannu drwy danwariant ar benawdau eraill fel nodir uchod, yn ogystal â'r defnydd o'r gronfa wrth gefn.

## 4. CRONFA TANWARIANT

4.1 Cyfanswm y gronfa ('balansau cyffredinol' GwE) ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2022/23 oedd (£437,503).

4.2 Mae'r gorwariant net o £138,871 i'w ariannu o gronfa wrth gefn, felly balans terfynol y gronfa ar ddiwedd 2022/23 yw (£298,632).

**ATODIADAU**
Atodiad 1: Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2022/23.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad

# CYD-BWYLLGOR GwE
## CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2022/23

| | Cyllideb | Gwariant | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | £ | £ | £ |
| Gweithwyr | | | |
| Cyflogau | | | |
| - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth | 970,062 | 830,424 | (139,638) |
| - Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant | 4,168,491 | 4,292,395 | 123,904 |
| - Staff ar Secondiad | 229,922 | 229,922 | 0 |
| - Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol' | (2,011,481) | (2,021,711) | (10,230) |
| Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill | 44,070 | 46,604 | 2,534 |
| | | | |
| Adeilad | | | |
| Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 179,274 | 186,267 | 6,993 |
| Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd | (60,880) | (21,621) | 39,259 |
| | | | |
| Cludiant | | | |
| Costau Teithio | 144,540 | 95,338 | (49,202) |
| | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn a.y.y.b | 76,010 | 73,715 | (2,295) |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa) | 17,070 | 0 | (17,070) |
| Ffioedd archwilio | 11,853 | 13,609 | 1,756 |
| | | | |
| Broceru | 299,367 | 299,466 | 99 |
| | | | |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | |
| Cyfreithiol | 5,925 | 5,925 | 0 |
| Adnoddau Dynol | 10,160 | 10,160 | 0 |
| Cyllid | 43,933 | 43,933 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 48,591 | 48,591 | 0 |
| | | | |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | 469,948 | 0 |
| | | | |
| Prosiectau Penodol | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 10,713,476 | 10,918,417 | 204,941 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 1,125,850 | 1,125,913 | 63 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 100,000 | 101,118 | 1,118 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 257,118 | 257,118 | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 621,742 | 621,742 | 0 |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg | 207,353 | 207,353 | 0 |
| Ein Llais Ni | 113,627 | 113,627 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **17,786,021** | **17,948,253** | **162,232** |

| | Cyllideb | Incwm | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Incwm** | | | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | |
| - Cyngor Ynys Môn (21/22: 10.16% - 22/23: 10.14%) | (445,643) | (445,643) | 0 |
| - Cyngor Gwynedd (21/22: 17.63% - 22/23: 17.59%) | (772,960) | (772,960) | 0 |
| - Cyngor Conwy (21/22: 15.28% - 22/23: 15.26%) | (670,688) | (670,688) | 0 |
| - Cyngor Dinbych (21/22: 15.36% - 22/23: 15.48%) | (680,010) | (680,010) | 0 |
| - Cyngor Fflint (21/22: 22.72% - 22/23: 22.67%) | (996,049) | (996,049) | 0 |
| - Cyngor Wrecsam (21/22: 18.86% - 22/23: 18.86%) | (828,867) | (828,867) | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | (10,672,628) | (10,672,628) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | (1,125,850) | (1,125,850) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | (100,000) | (100,000) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | (257,118) | (257,118) | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (621,742) | (621,742) | 0 |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg | (207,353) | (207,353) | 0 |
| Ein Llais Ni | (113,627) | (113,627) | 0 |
| Incwm Secondiadau | (229,922) | (229,922) | 0 |
| Incwm Arall | (63,564) | (63,564) | 0 |
| Llog ar falansau | 0 | (23,361) | (23,361) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(17,786,021)** | **(17,809,382)** | **(23,361)** |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **138,871** | **138,871** |

**Memorandwm -**
**Y Gronfa Tanwariant**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2022** | **(437,503)** |
| **Ychwaneger** - Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa) | 0 |
| **Ychwaneger/Llai** - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2022/23 | 138,871 |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 0 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2023** | **(298,632)** |

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 MAI 2023**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 – 2026/27 |

1.0 **Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 I gyflwyno'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) diwygiedig i'r Cyd-Bwyllgor ei gymeradwyo.

**2.0 Cefndir ac Ystyriaethau**

2.1 Mae'r CATC yn ddogfen drosolwg sy'n adnabod y prif faterion ariannol gaiff effaith ar GwE yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'n amlinellu dull strategol GwE o reoli ei gyllid ac yn amlinellu'r materion ariannol fydd yn wynebu GwE yn y pedair blynedd nesaf. Mae cyflawni'r strategaeth yn ddibynnol ar yr adnoddau fydd ar gael trwy gyfrwng setliadau Llywodraeth Cymru (LlC) ac ar lwyddiant GwE yn alinio adnoddau â blaenoriaethau ei wasanaeth.

2.2 Mae'r CATC yn amlinellu siâp cyffredinol cyllideb GwE ac yn amlinellu model o'r gofynion ariannol ar gyfer cyflawni lefelau gwasanaeth yn y tymor canolig. Mae hyn yn cynnig fframwaith fel y gall y Cyd-bwyllgor a swyddogion ddatblygu dyraniadau cyllideb blynyddol manwl.

2.3 Bydd y CATC yn adnodd allweddol ar gyfer rheoli cyllid yn rhagweithiol. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel sail i osod cyllideb flynyddol ac i sicrhau bod anghenion adnoddau GwE am y flwyddyn sydd i ddod yn ddigonol ac wedi'u halinio â'r blaenoriaethau cywir. Mae hefyd yn caniatáu adnabod gofynion cyllido rhagamcanol y dyfodol yn ddigon buan fel y gellir cynllunio gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r lefelau cyllid disgwyliedig.

2.4 Adolygwyd y CATC yn dilyn cytundeb ar y gyllideb graidd ar gyfer 2023/24.

**3.0 Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo'r adroddiad a'r gweithredu a nodwyd.

**4.0 Goblygiadau Ariannol / Risgiau**

4.1 Mae'r CATC yn adnabod y prif faterion ariannol gaiff effaith ar GwE yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r cynllun yn ddibynnol ar ffactorau sydd y tu allan i reolaeth GwE ac yn gofyn am fonitro manwl ac ystyriaeth er mwyn cyfyngu ar yr effaith.

**5.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Goblygiadau Personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

7.1 Paratowyd yr adroddiad hwn drwy ymgynghori â Swyddog Cyllid Adran 151 yr awdurdod lletyol, yn dilyn cyfarwyddyd gan y Prif Weithredwyr, sy'n cefnogi'r argymhelliad.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf wedi cydweithio gyda Rheolwr Gyfarwyddwr GwE er mwyn paratoi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 – 2026/27, a cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol a gynhwysir yn amcangyfrifon teg.

# CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

## 2023/24 – 2026/27

**GwE**

**CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG: 2023/24 – 2026/27**

## 1. CEFNDIR

1.1. Mae'r ddogfen drosolwg hon yn adnabod y prif faterion ariannol gaiff effaith ar GwE yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae swyddog Adran 151 Gwynedd yn cefnogi ac yn arwain y ddogfen hon.

1.2. Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o'r sefyllfa a bydd, yn benodol, yn galluogi'r Cyd-bwyllgor a staff GwE i gael dealltwriaeth bellach mewn perthynas â:

- Modelu senarios
- Egwyddorion a fabwysiadwyd wrth ddyrannu adnoddau
- Adnabod hyd a lled heriau/cyfleoedd ariannol
- Egwyddorion i fynd i'r afael â gwasgfa ariannol

## 2. YR ANGEN AM GYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG (CATC)

2.1. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn (CATC) yn amlinellu dull strategol GwE o reoli ei gyllid ac yn amlinellu'r materion ariannol fydd yn wynebu GwE yn y pedair blynedd nesaf. Mae cyflwyno'r strategaeth yn dibynnu ar yr adnoddau fydd ar gael trwy gyfrwng setliadau Llywodraeth Cymru (LlC) ac ar lwyddiant GwE yn alinio adnoddau â blaenoriaethau'r gwasanaeth.

2.2. Mae’r CATC yn amlinellu siâp cyffredinol cyllideb GwE ac yn amlinellu model o'r gofynion ariannol ar gyfer cyflwyno lefelau gwasanaeth yn y tymor canolig. Mae hyn yn cynnig fframwaith fel y gall y Cydbwyllgor a swyddogion ddatblygu dyraniadau cyllideb blynyddol manwl.

2.3. Bydd y CATC yn adnodd allweddol ar gyfer rheoli cyllid yn rhagweithiol. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel sail i osod cyllideb flynyddol ac i sicrhau bod anghenion adnoddau GwE am y flwyddyn sydd i ddod yn ddigonol ac wedi'u halinio â'r blaenoriaethau cywir. Mae hefyd yn caniatáu adnabod gofynion cyllido rhagamcanol y dyfodol yn ddigon buan fel y gellir cynllunio gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r lefelau cyllid disgwyliedig.

2.4. Mae'n ofynnol paratoi cyllideb flynyddol bob blwyddyn. Bydd y CATC yn cael ei ddiweddaru bob blwyddyn fel rhan o gylch blynyddol cynllunio'r gyllideb. Bydd y Cyd-bwyllgor yn cael gwybod am ddatblygiadau i'r CATC yng nghyfarfod blynyddol GwE a bydd gwasanaethau yn ystyried costau ac arbedion a/neu opsiynau sy'n cynhyrchu incwm fel rhan o gylch blynyddol cynllunio'r gyllideb.

## 3. BLAENORIAETHAU AC AMCANION TYMOR CANOLIG GwE:

3.1. Bydd y CATC yn cefnogi gweledigaeth a gwerthoedd GwE ac yn cefnogi blaenoriaethau ac amcanion strategol tymor canolig a hir dymor GwE.

3.2. Mae'r dogfennau a ganlyn yn allweddol o ran pennu cyfeiriad GwE yn ystod y cyfnod hwn:

- Ein Gweledigaeth, Gwerthoedd ac Ymddygiad
- Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2023-2026
- Cynlluniau Busnes GwE
- Cynlluniau Cymorth Ysgolion
- Canllawiau Gwella Ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd
- Cofrestr Risg

3.3. Yn ogystal, mae amcanion allweddol Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Llywodraeth Cymru - 'Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb' yn yrrwr polisi sydd yn dylanwadu ar amcanion a blaenoriaethau GwE, ynghyd â'r 8 ffactor cyfrannol sydd wedi'u hadnabod er mwyn gwireddu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus. Elfen arall yw blaenoriaethau strategol yr Awdurdodau Lleol sydd o fewn cylch gorchwyl gwaith GwE ac mae'r rhain i gyd wedi'u plethu i'n hamcanion strategol a'n blaenoriaethau fel yr amlinellir yn y Cynllun Busnes Rhanbarthol 2023-2026.

## 4. YR HER ARIANNOL

4.1. Mae GwE wedi bod yn weithredol ers mis Ebrill 2013 ac, ar y cychwyn, fe wnaed arbedion effeithlonrwydd o £883,000 neu 20% ar draws chwe awdurdod lleol gogledd Cymru o'i gymharu â chostau cyflwyno'r gwasanaeth cyfatebol blaenorol.

4.2. Er mis Ebrill 2013 mae'r gwasanaeth wedi llwyddo yn raddol i gynyddu adnoddau staffio trwy ail-linio adnoddau cyllideb presennol a defnyddio cyllid grant penodol.

4.3. Gwnaeth GwE arbedion effeithlonrwydd pellach o £131,000 (mewn termau real) neu 3.48% yn 2016/17 trwy ymgorffori adnoddau sy'n bodoli eisoes a rheoli a gweinyddu mentrau gwella ysgol ychwanegol a niferus Llywodraeth Cymru, a ariennir gan grant penodol.

4.4. Ychwanegwyd targed arbedion effeithlonrwydd o £36,880 ar gyfer 2018/19, yn hafal i 1%.

4.5. Ychwanegwyd targed arbedion effeithlonrwydd pellach o £116,468 ar gyfer 2019/20, yn hafal i doriad arian o 1% (3.19% mewn termau real). Gweithredwyd toriad 2018/19 a 2019/20 drwy leihau nifer staff parhaol a secondiadau i GwE a thrwy secondio uwch swyddi i sefydliadau eraill. Mae targed arbedion effeithlonrwydd pellach o £102,112 wedi cael ei ychwanegu ar gyfer 2023/24, sy'n gyfatebol i 2.6% mewn termau real.

4.6. **Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru**

Bydd cyllid ar gyfer GwE yn gymharol â'r setliad ar gyfer chwe awdurdod lleol gogledd Cymru. Ar adeg llunio'r ddogfen hon, mae'r Llywodraeth Cymru wedi darparu ffigyrau ar gyfer setliad llywodraeth leol yn 2023/24 o 7.9% a ffigyrau dangosol ar gyfer setliad llywodraeth leol 2024/25 o oddeutu 3%.

4.7. **Cyllideb sylfaenol GwE:**

4.7.1 Yn dilyn, ceir crynodeb o safle cychwynnol cyllideb GwE am y pum mlynedd ddiwethaf:

| **Blwyddyn** | **2022/23 £'000** | **2021/22 £'000** | **2020/21 £'000** | **2019/20 £'000** | **2018/19 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Refeniw Gros | 17,477 | 13,776 | 14,115 | 14,379 | 13,135 |
| Refeniw Incwm | 13,083 | 9,552 | 9,952 | 10,294 | 9,021 |
| **Cyfanswm Cyllideb Net Wreiddiol** | **4,394** | **4,224** | **4,163** | **4,085** | **4,114** |
| Cronfeydd wrth gefn a ddygir ymlaen | 438 | 651 | 552 | 346 | 312 |

4.8. **Pwysau Ariannol Blynyddol ar GwE:**

Mae pwysau ariannol ar GwE bob blwyddyn. Mae'r pwysau hwn yn effaith cronnol:

- chwyddiant
- ymrwymiadau anochel
- ffrydiau Effeithlonrwydd/Incwm a gynlluniwyd
- cyfraniadau Awdurdodau Lleol i gyllidebau craidd;
- ailstrwythuro i gyflwyno Blaenoriaethau Cenedlaethol;
- grantiau Llywodraeth Cymru

4.9. **Pwysau anochel:**

Mae'r rhain wedi'u hamcangyfrif fel pwysau anochel ar GwE:

- 2017/18 - Ailstrwythuro staff
- 2018/19 - dim
- 2019/20 - dim
- 2020/21 – toriad
- 2021/22 – dim

- 2022/23 – Ailstrwythuro tîm busnes
- 2023/24 – toriad ac angen ailstrwythuro

4.10 **Cronfeydd wrth gefn:**

Caiff GwE adroddiadau blynyddol i adolygu'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r adolygiad ar gyfer eleni wedi'i gynnwys yng Nghyllideb Refeniw Sylfaenol 2022/23. Gyda chyllid GwE yn ddibynnol ar grantiau LlC, mae hyn yn arbennig yn gwneud sefyllfa GwE yn fwy ansefydlog o ran cynllunio ariannol. Felly, mae angen cronfeydd digonol wrth gefn i helpu GwE i ymdopi ag unrhyw grant diwygiedig, rhagdybiau chwyddiannol ac ansefydlogrwydd o ran cynhyrchu incwm. Mae GwE yn adolygu yn ffurfiol y cronfeydd wrth gefn bob mis Mawrth er sicrhau bod adnoddau priodol ar gael.

4.11 **Effeithiau Cronnol**

Mae'r tabl a ganlyn yn adnabod effaith cronnol pwysau chwyddiannol ac ymrwymiadau anochel yn erbyn gwahanol gyfnodau o ddiffyg ariannol:

| | **2022/23** | | | **2023/24** | | | **2024/25** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Senario Gorau | Achos Canolog | Senario Gwaethaf | Senario Gorau | Achos Canolog | Senario Gwaethaf | Senario Gorau | Achos Canolog | Senario Gwaethaf |
| *Cyllideb tâl blwyddyn blaenorol* | *£2,964,749* | *£2,964,749* | *£2,964,749* | *£3,132,747* | *£3,161,726* | *£3,190,705* | *£3,148,694* | *£3,209,438* | *£3,270,761* |
| chwyddiant tâl (%) | 5.7% | 6.6% | 7.6% | *0.5% | *1.5% | *2.5% | 4.0% | 5.0% | 6.0% |
| chwyddiant tâl (£) | £167,998 | £196,977 | £225,956 | £15,947 | £47,712 | £80,056 | £125,948 | £160,472 | £196,246 |
| chwyddiant eraill (%) | 6.0% | 6.0% | 6.0% | 5.0% | 7.5% | 10.0% | 1.5% | 1.8% | 3.0% |
| chwyddiant eraill (£) | £47,043 | £47,043 | £47,043 | £41,795 | £62,692 | £83,589 | £13,165 | £16,175 | £27,584 |
| Cyfanswm Chwyddiant | £215,041 | £244,020 | £272,999 | £57,742 | £110,404 | £163,645 | £139,113 | £176,646 | £223,830 |
| ariannu gan awdurdodau (%) | 4.5% | 4.5% | 4.5% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 3.5% | 0.0% | -4.0% |
| ariannu gan awdurdodau (£) | £170,671 | £170,671 | £170,671 | £0 | £0 | £0 | £139,113 | £0 | -£167,610 |
| ardrawiad ar GwE (£) | -£44,370 | -£73,349 | -£102,328 | -£57,742 | -£110,404 | -£163,645 | £0 | -£176,646 | -£391,440 |
| ardrawiad cynyddol (£) | -£44,370 | -£73,349 | -£102,328 | -£102,112 | -£183,753 | -£265,973 | -£102,112 | -£360,399 | -£657,413 |

* Chwyddiant tâl 2023/24 yn cynnwys lleihad Yswiriant Gwladol 1.25%, a lleihad cyfraniad pensiwn cyflogwr o 23.0% i 18.7% (cyfwerth â oddeutu 4% ar gyllideb cyflogau)

## 5. GWELEDIGAETH, GWERTHOEDD AC YMDDYGIAD GwE

### 5.1. Gweledigaeth GwE:

*Craidd ein gwaith yw uchelgais gwirioneddol i weld yr ysgolion a'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn cyflawni eu dyheadau a gweld pob dysgwr yn llwyddo.*

*Yn Gymry balch ac â gwybodaeth ryngwladol, byddwn yn cefnogi ein hysgolion i ddod yn sefydliadau dysgu llwyddiannus a hyderus. Cydweithiwn i sicrhau'r hinsawdd a'r addysg y mae pob dysgwr yn ei haeddu er mwyn bod yn unigolion galluog a gwydn sy'n gwireddu eu llawn botensial.*

### 5.2. Gwerthoedd GwE

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'n hamcanion, rydym wedi gosod isafswm disgwyliadau i'n hunain.

Dyma'r disgwyliadau:

- Arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn ein hysgolion;
- Addysgu da ar draws ysgolion y rhanbarth;
- Gwaredu amrywiaeth o fewn ysgol;
- Dim un o ysgolion GwE i fod yng nghategorïau statudol Estyn;
- Dysgu a lles disgyblion yn dda, o leiaf, ym mhob ysgol;
- Cwricwlwm i Gymru yn ei le ym mhob ysgol.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, rydym wedi gosod gwerthoedd personol, ac ar gyfer y gwasanaeth:

- Parch
- Ymddiriedaeth
- Lles
- Arloesi ac ysbrydoli
- Cefnogi a chydweithio
- Cymru a'r Gymraeg

## 6. AMCANION STRATEGOL A BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL:

Mae GwE wedi gosod cyfres o amcanion strategol a blaenoriaethau i alinio â'r CATC. Mae'r amcanion hyn yn troi cynlluniau busnes yn dargedau tymor canolig a thymor hir. Mae hyn hefyd yn caniatáu i'n cynllunio ariannol fynd i'r afael â'r amcanion hyn fel blaenoriaethau.

Mae amcanion allweddol Llywodraeth Cymru a amlinellir yn 'Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb' ynghyd â 8 ffactor cyfrannol tuag at wireddu'r cwricwlwm gan Lywodraeth Cymru wedi'u plethu i'n hamcanion strategol a'n blaenoriaethau.

### 6.1 Ein Hamcanion Strategol

| EIN HAMCANION STRATEGOL<br>Beth ydym ni'n ceisio'i gyflawni? | |
|---|---|
| 1 | **Gwella Ysgolion -** gwreiddio trefniadau gwella ysgol effeithiol wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau cysylltiedig. |
| 2 | **Cwricwlwm ac Asesu -** cefnogi 4 diben y cwricwlwm, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd ar ei lwybr dysgu ei hun gan fagu ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau, gyda thegwch a rhagoriaeth yn ganolog i hyn oll. |
| 3 | **Datblygu dysgu ac addysgu o safon uchel -** gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion trwy gefnogi a datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sgiliau addysgeg i hybu llwyddiant pob dysgwr, a hynny trwy ddysgu proffesiynol uchelgeisiol. |
| 4 | **Arweinyddiaeth -** datblygu arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i gefnogi llwyddiant pob dysgwr ar ei lwybr dysgu ei hun, a hynny trwy hunanwerthuso manwl gywir a chynllunio a chyflawni gwelliant cadarn.<br><br>Parhau i ddatblygu system sy'n hunan wella, ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y cynhwysedd a'r gallu i fod yn dysgu a gwella arferion yn gyson, gan weithio tuag at fod yn sefydliadau sy'n dysgu. |
| 5 | **Profiad addysg cadarnhaol i bawb -** wedi ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant, gyda chefnogaeth ar gyfer llesiant a gwytnwch dysgwyr a staff, sy'n hanfodol er mwyn gwella deilliannau addysg a chyfleoedd bywyd.<br><br>Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio. |

| | |
|---|---|
| | Grymuso dysgwyr a chymunedau i gael perthynas gadarn gyda darparwyr addysg, fel y gallwn fynd i'r afael â difreintedd a darparu addysg o'r radd flaenaf yn lleol ac yn genedlaethol. |
| **6** | **Mae Cymraeg yn perthyn i bawb -** rhoi mynediad cyfartal at yr iaith i bob dysgwr, a chyfle i bawb gyflawni ei botensial.<br><br>Annog defnyddio'r Gymraeg ar draws y system addysg fel rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru a'n dyheadau ar gyfer Cymraeg 2050, ac ymestyn darpariaeth ôl-16 i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfleoedd i ddysgu'r iaith fel dinasyddion gweithredol a brwdfrydig. |
| **7** | **Busnes -** sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a strwythurau busnes a gwella ysgol priodol ac effeithiol, sy'n sicrhau effaith gadarnhaol a gwerth am arian. |

**6.2 Ein Blaenoriaethau 2023-2024**

| **AMCAN 1: GWELLA YSGOLION**<br><br>**Gwreiddio trefniadau gwella ysgol effeithiol wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau cysylltiedig.** | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |
| **1.1** | **Sicrhau bod pob ysgol wedi'i chefnogi i werthuso'n gywir ac i gyflwyno cynlluniau gwelliant cadarn yn effeithiol.** |
| **1.2** | **Cefnogi arweinwyr sy'n cydweithio i hyrwyddo safonau a dyheadau uchel i bawb [i gynnwys safonau addysgu a'r ddarpariaeth gwricwlaidd].** |
| **1.3** | **Cefnogi arweinwyr mewn ysgolion i ymgyfarwyddo â'r canllawiau gwella ysgol newydd ac i fod yn hyderus wrth eu rhoi ar waith.** |
| **1.4** | **Cryfhau'r dull gweithio amlasiantaethol a 'thîm o amgylch yr ysgol' gydag ysgolion sy'n destun pryder.** |
| **1.5** | **Cryfhau gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol.** |

| AMCAN 2: CWRICWLWM AC ASESU<br><br>Cefnogi 4 diben y cwricwlwm, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd ar ei lwybr dysgu ei hun gan fagu ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau, gyda thegwch a rhagoriaeth yn ganolog i hyn oll. | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |
| **2.1** | **Gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru.** |
| **2.2** | **Asesu, cynnydd ac atebolrwydd.** |

| AMCAN 3: DATBLYGU DYSGU AC ADDYSGU O SAFON UCHEL<br><br>Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion trwy gefnogi a datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sgiliau addysgeg i hybu llwyddiant pob dysgwr, a hynny trwy ddysgu proffesiynol uchelgeisiol. | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |
| **3.1** | **Gwella Addysgu.** |

| AMCAN 4: ARWEINYDDIAETH<br><br>Datblygu arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i gefnogi llwyddiant pob dysgwr ar ei lwybr dysgu ei hun, a hynny trwy hunanwerthuso manwl gywir a chynllunio a chyflwyno gwelliant cadarn.<br><br>Parhau i ddatblygu system sy'n hunan wella, ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y cynhwysedd a'r gallu i fod yn dysgu a gwella arferion yn gyson, gan weithio tuag at fod yn sefydliadau sy'n dysgu. | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |
| **4.1** | **Gweithredu Rhaglenni Arweinyddiaeth Rhanbarthol a Chenedlaethol.** |

| AMCAN 5: PROFIAD ADDYSG CADARNHAOL I BAWB<br><br>Wedi ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant, gyda chefnogaeth ar gyfer llesiant a gwytnwch dysgwyr a staff, sy’n hanfodol ar gyfer gwella deilliannau addysg a chyfleoedd bywyd.<br><br>Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, a hynny o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio.<br><br>Grymuso dysgwyr a chymunedau i gael perthynas gadarn gyda darparwyr addysg, fel y gallwn fynd i’r afael â difreintedd a darparu addysg o’r radd flaenaf yn lleol ac yn genedlaethol. | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |
| **5.1** | **Cefnogi lles a gwytnwch staff.** |
| **5.2** | **Cefnogi ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio.** |
| **5.3** | **Cefnogi ysgolion i ddarparu tegwch i bawb trwy fynd i’r afael â difreintedd, a meithrin perthynas gadarn gyda rhieni/gofalwyr a’u cymunedau.** |

| AMCAN 6: MAE CYMRAEG YN PERTHYN I BAWB<br><br>Rhoi mynediad cyfartal at yr iaith i bob dysgwr, a chyfle i bob dysgwr gyflawni ei botensial.<br><br>Annog defnyddio'r Gymraeg ar draws y system addysg fel rhan annatod o’r Cwricwlwm i Gymru a’n dyheadau ar gyfer Cymraeg 2050, ac ymestyn darpariaeth ôl-16 i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a chael cyfleoedd i ddysgu’r iaith fel dinasyddion gweithredol sydd yn teimlo’n rhan o bethau. | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |
| **6.1** | **Cynorthwyo ysgolion i gynllunio’n fwriadus er mwyn cefnogi a datblygu’r medrau a llythrennedd yn y Gymraeg yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru.** |
| **6.2** | **Hyrwyddo dysgu Cymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol y gweithlu.** |
| **6.3** | **Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg drwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus’.** |

| AMCAN 7: BUSNES<br><br>Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a strwythurau busnes a gwella ysgol priodol ac effeithiol, sy'n sicrhau effaith gadarnhaol a gwerth am arian. | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |
| **7.1** | **Adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol er mwyn sicrhau bod gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol strwythur addas i gyflawni blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.** |

**6.3 Risgiau Gwasanaeth**

Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson gan yr Uwch Dîm Arwain a'r Bwrdd Rheoli. Fe'i cyflwynir i'r Cydbwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cydbwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

Mae pob Cynllun Busnes o fewn y Fframwaith Cynllunio Busnes yn adnabod risgiau posib. Drwy'r drefn adrodd monitro chwarterol hysbysir deilydd yr Amcan Strategol am unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Adnabuwyd amryw o risgiau all fod yn rhwystrau i weithredu blaenoriaethau'r Cynllun Busnes yn llwyddiannus. Dyma nhw:

- Toriadau yng Nghyllideb Graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir.
- Mae ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllid grant gan LlC yn rhwystro cynllunio strategol tymor hir. Mae oedi sylweddol wrth gadarnhau lefelau cyllid yn effeithio ar weithredu'r Cynllun Busnes Strategol.
- Anawsterau recriwtio a chynllunio olyniaeth uwch arweinwyr ar draws y rhanbarth, yn enwedig rhai cyfrwng Cymraeg.
- Cyflymder datrys materion sylfaenol mewn ysgolion uwchradd a roddir mewn categori statudol Estyn.
- Mae effaith pandemig Covid-19 wedi golygu ei bod yn anos i ysgolion weithio ar fwrw ymlaen efo'u paratoadau gwreiddiol at y Cwricwlwm i Gymru.
- Ansicrwydd ynglŷn ag atebolrwydd a mesurau perfformiad sy'n llesteirio cyflymder y Daith Ddiwygio, yn enwedig yn y sector uwchradd.
- Mae ansicrwydd ynglŷn â sut y bydd cymwysterau 2027 yn edrych yn ffactor cyfyngol mewn ysgolion uwchradd.
- Cydlynedd ac ystod y Daith Ddiwygio a'i heffaith ar arweinyddiaeth systemig rhwng LlC, yr haen ganol ac ysgolion gyda lefel gynyddol o gyllid yn mynd yn uniongyrchol o LlC i ysgolion.
- Trefniadau gweithredu GwE a'r strwythur staffio presennol.
- Nid yw trefniadau gweithredu GwE a'r strwythur staffio presennol yn cyfarch y cyfeiriad rhanbarthol na Llywodraeth Cymru wrth symud ymlaen.
- Anawsterau recriwtio a chynllunio olyniaeth o fewn y gwasanaeth gan nad yw cyflogau'n gystadleuol gyda sefydliad tebyg neu gyda chyflogau Prifathrawon ac uwch arweinwyr.
- Gweithredu'r Canllawiau Gwella Ysgolion newydd.
- Yr hinsawdd bresennol o ran Undebau.

### 6.4 Strategaeth Ariannol

Bydd y Strategaeth Ariannol yn adnabod cynlluniau manwl i alluogi GwE i osod cyllideb gytbwys am y cyfnod a nodir.

I gryfhau'r broses gynllunio ariannol tymor canolig, mae angen cyllidebau dangosol y tu hwnt i un flwyddyn.

## 7. GWERTH AM ARIAN, ARFARNU A DAL EFFAITH

### 7.1 Gwerth am Arian

Mae GwE wedi ymrwymo i arfarnu, dal effaith a rhoi gwerth am arian fel rhan annatod o'i raglen weithredol a'i waith strategol. Mae ganddo gyfrifoldeb penodol i gyflawni Gwerth am Arian o'i ddefnydd o gyllid craidd a chyllid grant. Yn yr un modd, mae anelu at Werth am Arian yn gyfrifoldeb yr holl staff, nid yn unig y rheini sydd â dyletswyddau ariannol.

Er mwyn bodloni ei ymrwymiad i gyflawni Gwerth am Arian, mae GwE wedi gosod yr amcanion a ganlyn:

- Gwreiddio egwyddorion Gwerth am Arian yn y prosesau rheoli, arfarnu, cynllunio ac adolygu presennol.
- Gweithredu strategaeth glir ar gyfer arfarnu a dal effaith.
- Mabwysiadu arfer dda gydnabyddedig lle bo hyn yn gwneud synnwyr.
- Cynnal astudiaethau Gwerth am Arian mewn meysydd gweithgarwch y nodwyd yn deilwng o adolygiad.
- Meincnodi ein gweithgareddau yn erbyn gweithgareddau a sefydliadau cyffelyb eraill, lle'r ystyrir hyn yn ddefnyddiol.
- Ymateb i gyfleoedd i gyfoethogi economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau.
- Hybu diwylliant o welliant parhaus.
- Sicrhau bod yr holl staff yn cydnabod eu rhwymedigaeth barhaus i geisio Gwerth am Arian fel rhan o'u gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae GwE yn cydnabod ei ddyletswydd i gyflawni Gwerth am Arian o'i holl weithgareddau, waeth sut y'u hariennir. Fel y Consortia eraill, mae GwE wedi ymrwymo i geisio economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd fel rhan o'i raglen weithredol a'i waith strategol. Bydd GwE yn ceisio sicrhau arfer dda a gwreiddio egwyddorion Gwerth am Arian yn ei holl weithgareddau, a chynnal adolygiadau mor aml ag y bo'n briodol er sicrhau bod Gwerth am Arian yn amlwg.

Mae Gwerth am Arian yn derm a ddefnyddir i asesu p'un a yw sefydliad wedi cael y budd gorau neu beidio o'r gwasanaethau y mae’n eu sicrhau a'u darparu, a hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Gall rhai elfennau fod yn oddrychol, yn anodd eu mesur, yn haniaethol a chael eu camddehongli. Mae angen crebwyll felly wrth ystyried p'un a gyflawnwyd Gwerth am Arian yn foddhaol neu beidio. Nid yn unig y gwasanaethau sy'n rheoli costau a fesurir, ond ystyrir hefyd ansawdd, cost, defnyddio adnoddau,

addasrwydd i bwrpas, amserlenni a bernir p'un a ydynt, gyda'i gilydd, yn cynnig gwerth am arian neu beidio. Mae cyflawni Gwerth am Arian yn cael ei ddisgrifio yn aml yn nhermau'r 'tair E' - economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd:

(i) economi - lleihau cost yr adnoddau ar gyfer gweithgaredd ('gwneud pethau am bris is');
(ii) effeithlonrwydd - perfformio tasgau gydag ymdrech rhesymol ('gwneud pethau y ffordd gywir'); ac
(iii) effeithiolrwydd - i ba raddau y bodlonir amcanion ('gwneud y pethau iawn').

**7.2 Egwyddorion Arfarnu A Dal Effaith**

Mae angen i GwE allu arfarnu a chofnodi'n glir effaith ei waith yn unol â'i swyddogaeth gwella ysgolion graidd, ac fel y gall fodloni'n llawn y disgwyliadau a amlinellir yn y Canllawiau Gwella Ysgolion ac arddangos gwerth am arian.

Mae GwE yn cymryd rhan mewn prosesau arfarnu parhaus yn unol â'i ymrwymiad i ddatblygu diwylliant o welliant parhaus fel sefydliad sy'n dysgu. Mae’r prosesau hunan arfarnu hyn yn tynnu ar amrywiaeth o ffynonellau ansoddol a meintiol sy'n cefnogi ysgolion i weithio tuag at y blaenoriaethau cenedlaethol.

Ar draws Gogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol wedi datblygu partneriaethau cadarn ac effeithiol i wella ysgolion. Gyda chydlyned y dull gweithredu hwn, gall GwE a'r Awdurdod Lleol gofnodi effaith y ddarpariaeth a'r cymorth a roddir i wella ysgolion. Rhoddir ystyriaeth hefyd i sut y cofnodir effaith ar lefel ysgol unigol a system ar draws y rhanbarth, a hynny yn y tymor byr, canolig a hir.

Yn unol â'r argymhelliad yn Dyfodol Llwyddiannus, bydd GwE yn defnyddio methodoleg samplu yn rhan o'r strategaeth hon. Cynllunnir ac ystyrir yn ofalus i sicrhau bod y dulliau samplu yn briodol a phwrpasol i gynnwys lleoliadau, dysgwyr ac ymarferwyr i ffurfio sampl gynrychioladol o'r rhanbarth.

Rhennir gwybodaeth yn amserol drwy gydol y flwyddyn ag ystod eang o randdeiliaid, gan roi hyder ac eglurder ynghylch ansawdd ac effaith yr ystod eang o waith a wneir. Rhydd y strategaeth hon dryloywder i'r rhanddeiliaid a'r cyhoedd a dengys werth am arian.

Mae’r egwyddorion allweddol canlynol yn tanategu’r prosesau ar gyfer arfarnu a dal effaith. Fel gwasanaeth, mae GwE:


- yn galw ar ystod eang o dystiolaeth, gan ddefnyddio data yn gymesur ochr yn ochr â thystiolaeth o lygad y ffynnon, i arfarnu cryfderau’r gwasanaeth a meysydd i’w gwella;
- yn fyfyriol, yn onest ac yn gynhwysol, gan ddefnyddio dulliau trylwyr sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau gan nifer o randdeiliaid;
- yn defnyddio arferion seiliedig ar dystiolaeth i arloesi a gwella, gan rymuso ysgolion i rannu arferion effeithiol o fewn ysgolion a rhyngddynt;
- yn llunio adroddiadau rheolaidd am gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella gwasanaeth, gan weithio’n gyson i arfarnu effaith camau gweithredu a gynllunnir;
- yn defnyddio’r wybodaeth gyfoethog o gynlluniau datblygu ysgolion ledled y rhanbarth i roi sail i gynllunio eu gwelliannau eu hunain ac i adolygu eu cynnig cymorth a dysgu proffesiynol i ysgolion;

- yn datblygu ac yn annog diwylliant o welliant parhaus ym mhob ysgol, yn seiliedig ar ddisgwyliadau cenedlaethol clir ynghylch beth sy’n dda ac yn corffori 4 thema sy’n rhedeg drwy gydol y gwaith hwn sef: ymddiriedaeth, amser, meddwl ar y cyd a thechnoleg;
- yn defnyddio gwybodaeth yn unol â dibenion gwella, atebolrwydd, tryloywder ac i ategu prosesau ysgolion eu hunain ar gyfer arfarnu a dal effaith â gwybodaeth a ddefnyddir ac a rennir ar lefel ysgolion unigol;
- yn cynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu prosesau arfarnu eu hunain a all gynnwys hwyluso a brocera amrywiaeth o gyfleoedd hyrwyddo a dysgu proffesiynol i ysgolion gydweithio fel cymheiriaid i hunan arfarnu.

.


### 7.3 Cylch Arfarnu a Phrosesau Dal Effaith

Mae arfarnu a chynllunio gwelliant yn ganolog i waith y gwasanaeth. Mae GwE yn defnyddio cylch gwerthuso clir sy’n cael ei grynhoi yn y diagram canlynol:




O fewn y cylch gwerthuso hwn, mae GwE yn ymgymryd â chyfres o brosesau hunanarfarnu cadarn. Defnyddir yr ystod ehangaf a chyfoethocaf posibl o wybodaeth a data, yn ansoddol ac yn feintiol, i lywio'r broses hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.

I gydnabod yr ystod eang o waith y mae'r gwasanaeth yn ei wneud, ac yn unol â’r trefniadau llywodraethiant, mae amrywiaeth o ddulliau arfarnu wedi'u datblygu. Mae’r diagram canlynol yn dangos y dull sydd gan GwE yn ei le.




Mae **cyffredinol** yn cynnwys yr agweddau arfarnu hynny y bydd pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yn ymwneud â hwy ac sy'n cael eu dal o fewn cynlluniau cefnogi ar lefel ysgol a chlwstwr/cynghrair a hefyd drwy gyfrwng cynlluniau busnes ar lefel ranbarthol a lleol. Mae hyn hefyd yn cynnwys arfarnu'r dysgu proffesiynol a gynigir i ysgolion.


Mae prosesau arfarnu **wedi'u targedu** yn cael eu cynllunio a'u cynnal yn rheolaidd ac mae ganddynt ffocws neu thema benodol. Gellir targedu'r arfarnu hefyd yn unol â ffrydiau gwaith mawr yn unol â blaenoriaethau er mwyn canfod effaith ac ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid fel rhan o hyn. O fewn prosesau arfarnu wedi'u targedu, yn aml defnyddir dull cydweithredol gyda GwE a phartneriaid.

Arfarnu **wedi'i deilwra** yw trydydd haen y dull gweithredu, sy'n defnyddio adolygiadau allanol fel rhan o'r cylch arfarnu. Bydd yr arfarniadau hyn yn comisiynu partïon allanol i ganolbwyntio ar agweddau penodol ar y gwasanaeth yn unol â'r trefniadau llywodraethu.

Wrth lunio canlyniadau ar y cyd ar gyfer camau gweithredu a dysgu proffesiynol o fewn cynlluniau cefnogi a busnes, bydd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn ystyried yr allbynnau tymor byr disgwyliedig a'r effaith fwy hirdymor. Dylai'r canlyniadau hyn ystyried yr effaith ddisgwyliedig yng nghyd-destun darpariaeth ysgolion, addysgu, dysgu mewn ysgolion a chanlyniadau bwriadedig y gwasanaeth.

### 7.4 Fframwaith Dal Effaith GwE

I gasglu tystiolaeth ar gyfer y broses o arfarnu a chynllunio gwelliannau, bydd GwE yn manteisio ar amrywiaeth o ddulliau arfarnu a ddefnyddir o fewn y dulliau gweithredu haenog a ddisgrifir uchod. Defnyddir yr offer hyn ar y lefelau cyffredinol, wedi'i dargedu ac wedi'i deilwra fel y bo'n briodol ac yn berthnasol i ffocws yr arfarniad. Mae'r ffeithlun isod yn dangos yr offer a ddefnyddir gyda disgrifiad cryno o bob un.




*YSD - Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu*
*OHI - Mynegai Iechyd Sefydliadol*
*NR:EI Adnodd Cenedlaethol: Arfarnu ac Effaith*

***Cynlluniau Busnes***

Mae fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn GwE. Mae'r Fframwaith Cynllunio Busnes sydd ar waith yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlynedd strategol wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rhydd strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol.

Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn rhoi sylw i bob agwedd o waith GwE, ac yn nodi'n glir cyfraniad y gwasanaeth i'r agenda trawsnewid. Mae'r cynlluniau wedi'u costio'n llawn, gyda meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion.

Trwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu. Adroddir ar gynnydd yn chwarterol gan ddarparu adroddiad cynnydd ar flaenoriaethau rhanbarthol ynghyd â throsolwg awdurdod lleol penodol.

***Cynlluniau Cymorth***

Fel rhan o'r disgwyliadau o fewn y Fframwaith Gwella Ysgolion newydd, mae cynllun cymorth ar waith ym mhob ysgol a lleoliad ledled y rhanbarth. Drwy gynnal deialog broffesiynol reolaidd ag arweinwyr ysgolion, mae'r cynlluniau cymorth wedi'u llunio ar y cyd i ganiatáu cydberchnogaeth. Mae pob cynllun yn rhoi manylion ynghylch y gefnogaeth a gynigir gan naill ai GwE neu'r Awdurdod Lleol ac yn cydnabod y canlyniadau a'r effaith sy'n ddisgwyliedig. Nodir amserlenni a phrosesau monitro'r gefnogaeth hefyd.

Mae cynlluniau cymorth hefyd yn nodi'r gwaith cydweithredol sy'n digwydd ar draws clystyrau a chynghreiriau ac eto'n nodi effaith a chanlyniadau disgwyliedig y gefnogaeth a roddir gan GwE a'r Awdurdod Lleol.

***Model Kirkpatrick***

Mae Model Arfarnu Pedair Lefel Donald Kirkpatrick yn rhan o'r cynllun busnes a'r cynllun cymorth. Defnyddir y model hwn i helpu i ddal effaith cefnogaeth dros amser. Mae'r 4 lefel wedi'u nodi isod gan gydnabod y gellir gweld yr effaith ar wahanol lefelau dros amser wrth i ddysg ac ymddygiadau gael eu hymgorffori.

| **Beth** | | | **Pryd** |
|---|---|---|---|
| Lefel 4 | CANLYNIADAU | Effaith ar ganlyniadau | Effaith hirdymor |
| Lefel 3 | YMDDYGIAD | Effaith ar ddarpariaeth | Effaith hirdymor |
| Lefel 2 | DYSGU | Effaith ar athrawon | Allbwn tymor byr |
| Lefel 1 | YMATEB | Ymateb i Ddysgu Proffesiynol | Allbwn tymor byr |

Mae defnyddio dull model Kirkpatrick ar lefel gwasanaethau yn caniatáu i GwE ganfod a dal effaith yn y tymor byr gydag ymateb a dysgu yn erbyn y gefnogaeth a'r dysgu proffesiynol a roddir i ysgolion a lleoliadau. Wrth i newidiadau mwy hirdymor i ymddygiad a darpariaethau gael eu nodi, delir yr effaith ar lefel ymarferwyr. Drwy ddefnyddio model Kirkpatrick fel gwasanaeth, bydd GwE yn cefnogi ysgolion i ganfod ble gellir dal effaith y tu hwnt i ddarpariaeth ac ar ganlyniadau dysgwyr.

***Adnodd Cenedlaethol: Arfarnu ac Effaith***

Mae GwE yn cefnogi ysgolion i ymgysylltu â'r adnodd cenedlaethol arfarnu ac effaith fel rhan o ddatblygu prosesau effeithiol a chadarn ar gyfer hunan arfarnu a gwella. Mae'r anogwyr arfarnu, yr adnoddau rhyngweithiol a'r astudiaethau achos yn offer ymarferol i ysgolion eu defnyddio fel rhan o hunan arfarnu.

***Ymgysylltu â Rhanddeiliaid***

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn agwedd bwysig ar y broses arfarnu ar draws pob agwedd ar waith GwE. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau ar draws sianeli adborth ffurfiol ac anffurfiol.

***Adborth Ffurfiol***

Cynllunnir holiaduron rhanddeiliaid, arolygon a grwpiau ffocws i sicrhau y gall gwybodaeth gyfrannu at y broses cynllunio gwelliannau; er enghraifft, gwahoddir pob arweinydd ysgol i gymryd rhan mewn fforwm Prifathrawon yn ystod tymor y Gwanwyn 2023 i ganfod cryfderau ym mhob rhan o'r gwasanaeth yn ogystal â meysydd i'w datblygu ymhellach a blaenoriaethau i'r dyfodol. Yn unol â model Kirkpatrick, bydd ffurflenni arfarnu i ddilyn gweithgareddau dysgu proffesiynol hefyd yn dal effaith, gan ystyried ymateb a dysgu yn gyntaf.

***Arfarniad manwl â ffocws penodol***

Mae cynnal arfarniadau manwl â ffocws penodol yn agwedd bwysig ar y broses hunan arfarnu ym mhob rhan o GwE. Yn unol â chynlluniau busnes a phrojectau a ffrydiau gwaith ar raddfa fawr, gofynnir am y rhain yn amserol gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau a themâu allweddol. Cynhelir yr arfarniadau hyn gan gydweithwyr GwE, mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a lle bo'n briodol, comisiynir partneriaid allanol gan gynnwys sefydliadau addysg uwch.

***Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI)***

Mae CIEREI yn gydweithrediad strategol ffurfiol rhwng GwE, Prifysgol Bangor, ysgolion, a chyrff a sefydliadau eraill â diddordeb mewn canlyniadau addysg. Prif nod CIEREI yw cefnogi gwella canlyniadau i blant drwy ysgolion. Sefydlu CIEREI yw trydydd cam datblygu sefydliad cydweithredol rhanbarthol ar gyfer ymchwil ac arfarnu yng Ngogledd Cymru.

Drwy waith CIEREI, mae GwE wedi ymrwymo i nifer o arfarniadau ffurfiol sydd ar y gweill ac sy'n cyfrannu at gynyddu gallu ymchwil ledled y rhanbarth a Chymru fel system. Mae canfyddiadau'r arfarniadau hyn yn chwarae rhan bwysig o fwydo i mewn i brosesau hunan arfarnu GwE, a hefyd yn dal effaith ar lefel ysgolion yn yr ysgolion hynny sy'n cymryd rhan.

***Adolygiadau Allanol***

Mae GwE yn ymgysylltu â'r comisiwn o bartïon allanol ac yn eu defnyddio i ganolbwyntio ar agweddau penodol ar y gwasanaeth yn unol â'r trefniadau llywodraethu.

***Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu / Mynegai Iechyd Sefydliadol***

Mae GwE hefyd yn cynnig cyfleoedd i ymgysylltu ag offer arfarnu sy'n cynnwys Sefydliadau sy'n Dysgu (OECD a Llywodraeth Cymru) a'r Mynegai Iechyd Sefydliadol (McKinsey a'r Cwmni). Mae'r arolygon hyn yn cynnig cyfle i'r holl staff gyfrannu, a bydd canfyddiadau'r arolygon yn cyfrannu at gynllunio gwelliannau ac yn caniatáu i GwE ddysgu o arfer rhyngwladol.

**7.5 Adroddiadau Arfarnu**

Mae'r prosesau a'r dulliau arfarnu a fanylir uchod i gyd yn helpu i roi sail i waith y gwasanaeth ac i ganiatáu i ni ganfod a dal effaith y gefnogaeth a roddir i ysgolion a lleoliadau. Hyn sy'n darparu'r sail dystiolaeth i lunio adroddiadau am werth am arian. Ceir amrywiaeth o fformatau adrodd i fodloni'r diben a'r gynulleidfa gan sicrhau tryloywder i bob rhanddeiliad. Mae'r fformatau'n cynnwys:

- Adroddiadau monitro ac effaith ar gyfer strwythurau llywodraethu, e.e. cyfarfodydd Bwrdd Rheoli, Cydbwyllgor, Craffu Awdurdod Lleol
- Yn unol â disgwyliadau, ysgrifennir a rhennir adroddiadau tymhorol ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n adolygu'r cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn blaenoriaethau ac yn unol ag amodau grantiau.
- Hefyd, mae GwE yn ymgysylltu ag Estyn i ddarparu gwybodaeth ar gyfer adroddiadau thematig yn unol â'r amserlen a bennir gan Lywodraeth Cymru.
- Rhannu ymarfer gan ddefnyddio astudiaethau achos:
    - sianeli cyfathrebu rheolaidd, e.e. bwletin GwE, gwefan, cyfryngau cymdeithasol
    - cyfarfodydd rhwydwaith a fforymau
    - gweithdai a/neu gynadleddau

**7.6 Integreiddio Gwerth am Arian, Arfarnu A Dal Effaith**

- Mae rhaid i Werth am Arian arfarnu a dal effaith fod yn rhan naturiol o'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel ar draws GwE. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gynllunio neu adolygu gweithgareddau sydd â goblygiadau ariannol ac adnoddau sylweddol.

- Fel rhan o wreiddio Gwerth am Arian arfarnu a dal effaith yn y broses gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd, gofynnir i ddeiliaid Cynllun Busnes gyflwyno adroddiad byr neu astudiaeth achos ar gymhwyso'r Strategaeth Arfarnu a dal effaith yn eu cynlluniau busnes, gan fanylu ar fesurau i wella a meintioli unrhyw werth ychwanegol.

- Dylai adroddiadau/astudiaethau achos dynnu sylw at weithgareddau presennol sy'n dangos Gwerth am Arian ac effaith parhaus yn ogystal â gweithgareddau newydd i wella effaith a Gwerth am Arian.

- Mae deiliaid cynllun busnes mewn lle da i adnabod cyfleodd i gyflawni gwell arfarnu a dal effaith yn eu meysydd cyfrifoldeb. Byddant yn gwybod pa fesurau sy'n debygol o fod yn effeithiol, gyda golwg ar amgylchiadau ac anghenion penodol, a sut i sicrhau cefnogaeth a chydweithrediad staff.

- Lle bo goblygiadau Gwerth am Arian, byddwn yn hybu rhannu arfer dda ar draws y sefydliad. Mae mabwysiadu arfer dda yn un ffordd o ddangos bod Gwerth am Arian wedi'i geisio a'i gyflawni. Lle bo hyn wedi'i nodi, a'i fod efallai yn berthnasol i ddeiliaid cynllun eraill, cyfathrebir hyn yn briodol.

### 7.7 Manteision Gwerth Am Arian, Arfarnu A Dal Effaith

- Mae egwyddorion cadarn yn caniatáu cyfleoedd i swyddogion gynnal asesiad cywir o amcanion gweithgaredd yn hytrach na gweithredu ar ragdybiaethau am yr hyn sy'n digwydd ac a gynhyrchir ar hyn o bryd. Bydd hyn yn datblygu i'r eithaf eu cyfle i gyflawni'r amcanion a ddymunir heb wariant ac ymdrech diangen. Dylai asesiad hefyd ddangos bod y gweithgaredd arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion a pholisïau GwE. Lle nad yw hyn yn digwydd, nid yw gweithgaredd yn cyflawni'r amcanion a osodwyd gan GwE.

- Trwy gyfrwng cynllunio sydd wedi'i gofnodi yn briodol a monitro mabwysiadu prosesau agored sydd a wnelo â'r rhai dan sylw, gall staff ddangos, yn gyhoeddus, ymrwymiad i gyflawni priodoldeb yn ogystal ag effaith gadarn ei gwaith. Mae hyn yn fwyfwy pwysig mewn byd o atebolrwydd a chyfrifoldeb cynyddol, ac yn hanfodol i GwE tra derbynnir cyllid craidd a grantiau. Mae gan GwE gyfrifoldeb i ddangos ei fod yn gweithredu yn onest, yn deg a heb unrhyw ragfarn.

- Mae angen i GwE gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rhai cysylltiedig eraill. Trwy fabwysiadu arfer dda a gallu arddangos hyn, lleiheir yn sylweddol y risg o fethu ag adnabod gofynion o'r fath a chydymffurfio â hwy.

- Mae risgiau ynghlwm wrth bob gweithgaredd. Gall ymgorffori egwyddorion rheoli risgiau, sef adnabod, arfarnu a rhoi lliniaru priodol ar waith, gyfrannu at Werth am Arian. Yn aml, nid oes rhaid cynnal asesiad risg llawn ar gyfer pob gweithgaredd, ond gall asesiad risg annigonol, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau arwyddocaol, arwain at Werth am Arian gwael.

### 7.8 Dulliau

Gellir cyflawni asesiad Gwerth am Arian mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft:

(i) meincnodi gweithgaredd yn erbyn gweithgareddau cyffelyb mewn mudiadau neu sefydliadau eraill;

(ii) defnyddio dangosyddion perfformiad;

(iii) cynnal astudiaethau gwerth am arian, arfarnu a dal effaith ar y cyd â Chonsortia eraill o bosib);

(iv) ceisio arfer dda gydnabyddedig a'i mabwysiadu, lle y gellir addasu hyn i amgylchiadau GwE;

(v) cynnal archwiliadau mewnol; er mai prif bwrpas archwilio mewnol yw asesu'r system reoli fewnol, mae'r archwilwyr mewnol mewn lle da yn aml i asesu ansawdd ac effaith a chynnig sylwadau yn y meysydd a adolygir;

(vi) cadw dogfennau sy'n dangos sut y cynlluniwyd gweithgaredd i feithrin dangos effaith a Gwerth am Arian ynghyd â thystiolaeth o'r arferion da a fabwysiadwyd; ac

(vii) archwilio canlyniadau neu ddeilliannau gweithgaredd.

### 7.9 Fframwaith Dadansoddol ar gyfer asesu Gwerth am Arian

**Diffiniad: Gwerth da am arian da yw'r defnydd gwerth da o adnoddau i gyflawni'r deilliannau arfaethedig**

| 1 Sefydlu beth yw 'gwerth da' | 2 Cyfleu graddau'r adnoddau | 3 Adnabod deilliannau disgwyliedig a gwir ddeilliannau |
|---|---|---|
| Sefydlu'r meini prawf ar gyfer asesu perfformiad trwy gytuno ar drefniadau gwerth da ar gyfer craffu'r flaenoriaeth. **Diffinnir 'gwerth da' fel "y canlyniad gorau posib o wybod beth yw'r cyfyngiadau a fynegir neu a awgrymir."** Mae angen i staff bwyso a mesur pa gyfyngiadau rhesymol sydd angen eu hystyried.<br>**Cynllunio gwerth da:** *Bod yn glir am yr hyn a ddeisyfir.* Er enghraifft:<br>• Menter seiliedig ar dystiolaeth gydag amcanion clir, ac yn seiliedig ar arfer orau/meincnodau priodol, targedau cytunedig ac ati<br>• Cynlluniau realistig sy'n ystyried cyfyngiadau ac a ddatblygwyd gyda golwg ar ddealltwriaeth o risgiau<br>• Cefnogaeth gan randdeiliaid i'r cynlluniau<br>• Adnoddau angenrheidiol mewn lle i gyflwyno yn ôl y bwriad<br>• Dealltwriaeth glir o'r hyn ddylai'r costau perthnasol fod<br>**Gweithredu gwerth da:** . Er enghraifft:<br>• Meddu ar yr arbenigedd a'r sgiliau rheolaethol priodol<br>• Dewis y dull gorau o gyflwyno<br>• Osgoi gwneud arbedion camarweiniol<br>• Sicrhau arbedion maint trwy waith wedi'i dargedu;<br>• Isafswm effaith gynaliadwy'r gweithredu<br>• Sefydlu trosglwyddiad risg da a chlir<br>**Monitro gwerth da:** *Gallu asesu perfformiad.* Er enghraifft:<br>• Mesuriadau perfformiad clir wedi'u gosod a threfniadau monitro ar waith<br>• Systemau rheoli perfformiad cadarn<br>• Prosesau arfarnu polisi cadarn ar waith gydag adborth amserol<br>• Gallu gwneud newidiadau gweithredol yn sgil adborth<br>• Profi gwerth parhaus<br>• Methodoleg asesu Gwerth am Arian ar waith | Adnabod yr adnoddau dan sylw - yn y cynlluniau i ddechrau ac, yn ddiweddarach, fel buddiant - gan gynnwys (lle bo'n briodol):<br>• costau staff<br>• ffrydiau cyllid<br>• adeiladau<br>• arbedion | Adnabod yr amcanion tymor byr, tymor canolig a thymor hir a'r deilliannau (lle bo'n bosib). Mae angen gwneud hyn, i ddechrau, wrth ystyried y cyflawniad arfaethedig ac yna, yn ddiweddarach, wrth ystyried gwir gyflawniad, gan gynnwys (lle bo'n briodol):<br>• perfformiad yn erbyn targedau<br>• cofnod o gyflwyno (maint ac amseroldeb)<br>• costau unedol<br>• mesuriadau economi ac effeithlonrwydd<br>• ansawdd y gwasanaeth (gan gynnwys cofnod o fodlonrwydd cwsmeriaid)<br>• ôl-effeithiau anffafriol, gwrthnysig neu anfwriadol |

**4 Sefydlu goblygiadau Gwerth am Arian y lefel perfformiad a nodwyd (cymhariaeth fewnol)**

Sefydlu goblygiadau gwerth am arian y perfformiad a nodwyd.

Er enghraifft:

- a yw'r trefniadau sydd mewn lle yn cyd-fynd â threfniadau'r meincnod dewisedig a sefydlwyd yng Ngham 1?
- a oedd y deilliannau a gyflawnwyd yn werth y drafferth, o wybod:
  - graddfa'r gwariant
  - yr ymdrech (a'r cost cyfle)
  - eu cynaliadwyedd, neu fel arall, dros y tymor canolig i'r tymor hir (e.e. a ellir cynnal y perfformiad neu a yw'n agored i ddirywiad?)
  - amseriad buddiannau (tymor byr, canolig neu hir)
  - a yw perfformiad yn awgrymu bod problem parthed Gwerth mewn Arian?

a oedd perfformiad yn well neu'n waeth na'r disgwyl o wybod pa adnoddau a ddefnyddiwyd?

**5 Dod i gasgliad cyffredinol am y gwerth am arian a gyflawnwyd gyda'r adnoddau hyn (cymhariaeth allanol**

- a ddefnyddiwyd mwy/llai o adnoddau na'r disgwyl?

Ar ôl adnabod y perfformiad a gyflawnwyd (1-3) a sefydlu sut y mae'n cymharu â'r disgwyl, neu â'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl (4), mae angen cwblhau'r casgliad Gwerth am Arian trwy gymharu perfformiad yn yr achos hwn â meincnodau allanol lle bo'n briodol, megis:

- gweithredu arall (a fyddai gwell Gwerth am Arian wedi'i gyflawni trwy wneud pethau yn wahanol)
- yn erbyn arfer dda safonol a meincnodau mewnol/allanol
- cymharu â blynyddoedd a fu - dadansoddi tuedd
- yn erbyn disgwyliadau rhanddeiliaid

**6 Gwneud argymhellion i sicrhau gwelliant mewn deilliannau**


- a oedd perfformiad o ran cynhyrchion/deilliannau yn well neu'n waeth na'r disgwyl?

Ar ôl nodi lle mae'r gwendidau mewn perfformiad, mae angen gwneud argymhellion wedi'u costio a'u hamseru ar gyfer y sefydliad neu ar gyfer y system lywodraeth yn fwy eang, a fydd yn gwella'r system gweithredu polisi ac yn arwain at well Gwerth am Arian trwy:

- gywiro gwendidau
- gwella prosesau ac arferion
- lleihau costau
- gwella perfformiad
- sicrhau arbedion
- codi ymwybyddiaeth o fanteision y polisi
- gwella rheoli gwybodaeth
- dod â gweithgareddau neu bolisi i ben lle bo angen
- aildrefnu prosesau ac arferion

# Gwerth da am arian yw Defnydd Gwerth Da o Adnoddau i gyflawni'r Deilliannau arfaethedig

# Fframwaith cwestiynau ar gyfer asesu Gwerth am Arian




Tud. 39

## 8 GWEITHREDU A NODWYD:

- Datblygu Strategaeth Ariannol ar gyfer 2023/24 i 2024/25 gan gynnwys strategaeth ariannol ar gyfer y senario canolig. Pe byddai'r senario waethaf yn digwydd, byddai hyn yn golygu ailymweld ag egwyddorion sylfaenol

- Cael mynediad i'r holl weithgarwch yn erbyn Blaenoriaethau Gwasanaeth ac Egwyddorion Gweithredu GwE

- Asesu'r angen am gronfeydd wrth gefn i alluogi GwE i gyflawni yn erbyn ei flaenoriaethau gwasanaeth

- Datblygu gweledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau yn 2023/24

- Adolygu'r CATC fel y daw gwybodaeth berthnasol ar gael i GwE

- Adolygu’r model gweithredu presennol i sicrhau bod pwyslais clir ar wella ansawdd ar draws y gwasanaeth

- Gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymrwymiad i ddangosydd y dyfodol

- Datblygu eglurder rhwng blaenoriaethau Cenedlaethol a Lleol fel eu bod yn ategu ei gilydd, yn hytrach na chystadlu

- Adolygu strwythur GwE ac ail strwythuro

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 MAI 2023**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol GwE 2022-23** |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2022-2023 i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

**2.1** Fel y nodir yng Nghytundeb Rhyng-Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol ar berfformiad y gwasanaeth o safbwynt cyflawni swyddogaethau a nodau allweddol y gwasanaeth.

**2.2** Mae cynnwys yr adroddiad blynyddol yn dal cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol rhanbarthol, fel y cytunwyd yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022-2023, gan werthuso'r effaith yn erbyn camau gweithredu a deilliannau am y flwyddyn gyfan.

**3.0 Ystyriaethau**

**3.1** Amgaeir yr Adroddiad Blynyddol Rhanbarthol sydd yn dal cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol rhanbarthol ar gyfer 2022-2023:

- Cwricwlwm ac Asesu - Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.
- Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion.

- Arweinyddiaeth - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Mae hyn yn cynnwys arweinyddiaeth i'r dyfodol a rhwydweithiau proffesiynol.
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymroi i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a llesiant.
- Cefnogi system sy'n hunan wella - cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson.
- Busnes - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

**3.2** Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r meysydd a adnabuwyd fel blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygiad a gwelliant pellach, sydd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2023-2024.

**3.3** Yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol Rhanbarthol, caiff pob Awdurdod Lleol adroddiad manwl sydd yn rhoi trosolwg lleol penodol, yn dal cynnydd yn erbyn pum maes allweddol, ac yn adnabod y camau nesaf ar y llwybr tuag at welliant:

- Maes Allweddol 1 - Gwella Arweinyddiaeth
- Maes Allweddol 2 - Gwella'r Dysgu a'r Addysgu
- Maes Allweddol 3 - Cwricwlwm a Darpariaeth
- Maes Allweddol 4 - Cynnydd a Safonau Dysgwyr
- Maes Allweddol 5 - Cymorth a Her i Ysgolion sy'n Destun Pryder

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-2023.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau ar yr adroddiad y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

## 6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â'r Fforymau Strategol Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Adroddiad Blynyddol GwE 2022-23

Data Rhanbarthol

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn fodlon fod y diweddariad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.

GwE Gogledd Cymru



# ADRODDIAD BLYNYDDOL



## GwE

## 2022-2023

GwE yw gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol gogledd Cymru sydd yn gweithio ochr yn ochr â ac ar ran awdurdodau lleol gogledd Cymru – Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn.



Craidd ein gwaith yw uchelgais gwirioneddol i weld yr ysgolion a'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn cyflawni eu dyheadau a gweld pob dysgwr yn llwyddo.

# CYNNWYS

1. Crynodeb Gweithredol
2. Cyflwyniad a Chyd-destun
3. Cwricwlwm ac Asesu
4. Datblygu Proffesiwn Addysg o Safon Uchel
5. Arweinyddiaeth
6. Ysgolion Cryf a Chynhwysol sy'n Ymroi i Ragoriaeth, Tegwch a Llesiant
7. Cefnogi System sy'n Hunan Wella
8. Busnes
9. Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Datblygiad a Gwelliant Pellach

## DOGFENNAU ATEGOL:

**ATODIAD:** Data Rhanbarthol

**ATODIAD:** Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2023-2026



# 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae GwE a’r chwe Awdurdod Lleol gogledd Cymru yn adnabod eu hysgolion a'u lleoliadau yn dda, ac yn darparu her gadarn a phriodol yn ogystal â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer. Mae strategaethau, polisïau a phrosesau eglur iawn ar waith ar gyfer gwella ysgolion ac a ddeallir gan yr holl randdeiliaid. Mae perthynas gref rhwng yr Awdurdodau Lleol a GwE. Mae gweithdrefnau grymus ar waith i osod cyfeiriad a dwyn y gwasanaeth rhanbarthol i gyfrif. Mae'r Fframwaith Cynllunio Busnes sydd ar waith yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlynedd strategol wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rhydd strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol. Trwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu. Adroddir am y cynnydd yn erbyn y cynllun busnes rhanbarthol bob chwarter, i'r Cyd-bwyllgor.

Mae rôl benodol yr Awdurdodau Lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol mewn gwella ysgolion yn amlwg ac yn glir i'r holl randdeiliaid, ac maent yn cael eu dwyn i gyfrif yn effeithiol gan weithdrefnau craffu lleol.

Mae bron pob ysgol ar drac i gyflawni'r camau a osodir allan yn 'Y Daith i 2022' (Cwricwlwm i Gymru). Mae cymorth penodol mewn lle i'r ychydig iawn o ysgolion nad ydynt ar drac. Mae bron pob ysgol uwchradd ar drac i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Flynyddoedd 7 ac 8 o fis Medi 2023.

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni bod newid, er gwell, yn bosibl hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yn ystod COVID-19, mae ysgolion ar draws y rhanbarth wedi bod yn darparu profiadau dysgu ac addysgu ystyrlon trwy ddull dysgu cyfunol creadigol. Yn ddi-os mae'r pandemig wedi arwain at fwy o ffocws ar lesiant a buddsoddi sylweddol mewn dysgu ac addysgu. Mae ansawdd yr addysgu’n gyffredinol gadarn ar draws y rhan fwyaf o ysgolion ym mhob sector, ac mae gweithredu pwrpasol yn digwydd i fynd i'r afael â meysydd sy'n achosi pryder a lleihau amrywiad mewn ysgol. Mae'r Awdurdodau Lleol, mewn partneriaeth efo GwE, wedi bod yn gweithredu'n gadarnhaol i gefnogi arweinwyr ac athrawon i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu cyn, yn ystod ac yn dilyn cyfnod Covid-19.

Mae sicrhau dilyniant i swydd Pennaeth, ac yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, wedi bod ac yn parhau i fod yn her. Mae GwE yn darparu arlwy gyfoethog o ddysgu proffesiynol i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel, ynghyd â chymorth pwrpasol ac wedi'i dargedu i ysgolion yn ôl yr angen, yn enwedig yr ysgolion hynny sy'n destun pryder.Ar ben hynny, mae trefniadau cadarn ar waith ar draws y rhanbarth ble mae arweinwyr ysgolion yn cydweithio i gefnogi'r naill a'r llall mewn clystyrau cynradd a chynghreiriau uwchradd ac yn cymryd perchenogaeth a chyfrifoldeb cynyddol am daith welliant ei gilydd.

Mae mwy o ffocws ar helpu ysgolion i wella ansawdd a chysondeb arweinyddiaeth ac addysgeg wedi arwain at well safonau ar draws y rhan fwyaf o ysgolion. Mae angen cyflymu’r gwelliant ymhellach mewn rhai ysgolion, ac eir i’r afael â hyn trwy gynllun cymorth ysgolion unigol. Yn gyffredinol, mae'r ysgolion yn gwneud defnydd mwy deallus o ddata, ynghyd â gwybodaeth am ddysgu, dysgu ac asesu, i werthuso safonau ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant pellach, ond cydnabyddir bod angen cryfhau'r prosesau hyn ymhellach er mwyn sicrhau mwy o ffocws ar gynnydd dysgwyr mewn rhai ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cyflwyno'n effeithiol rhaglenni tracio ac ymyrraeth i fynd i'r afael â thanberfformio ac amrywiad. Mewn ychydig o ysgolion, mae angen cryfhau a mireinio'r dulliau hyn ymhellach.

Mae gan GwE a'r Awdurdodau Lleol brotocolau clir yn eu lle i adnabod Ysgolion sy'n peri pryder.Mae hyn eu galluogi i ymateb yn brydlon a chadarn i ysgolion sy'n destun pryder. Ceir enghreifftiau penodol ble mae dwysau'r her a'r cymorth ochr yn ochr â gweithredu cadarn ac amserol wedi arwain yn uniongyrchol at

newidiadau mewn uwch arweinyddiaeth. Ceir tystiolaeth gref bod prosesau a gweithredu GwE a'r Awdurdodau Lleol i gefnogi ysgolion sy'n destun pryder yn cael effaith ar ansawdd arweinyddiaeth ac addysgeg, ac yn arwain at well safonau yn yr ysgolion hynny. Mewn rhai o ysgolion, mae angen cyflymu'r gwelliant ymhellach.

Mae cynnwys yr adroddiad blynyddol yn dal cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau a’n hamcanion strategol ar gyfer 2022-2023, gan werthuso effaith yn erbyn camau gweithredu a’r deilliannau ar gyfer y flwyddyn gyfan:

1. Cwricwlwm ac Asesu - Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac yn gosod safonau uchel i bob dysgwr
2. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion
3. Arweinyddiaeth - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Mae hyn yn cynnwys arweinyddiaeth i'r dyfodol a rhwydweithiau proffesiynol
4. Ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant
5. Cefnogi system sy'n hunan wella - cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson
6. Busnes - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

Nodwyd y meysydd a ganlyn fel blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygiad a gwelliant pellach, ac maent wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2023-2024:

- parhau i gryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel gyda ffocws penodol ar wella hunan arfarnu  a phrosesau cynllunio gwelliant ymhellach.
- datblygu ymhellach gapasiti uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i arwain dysgu ac addysgu yn effeithiol
- cryfhau ymhellach brosesau atebolrwydd ar draws ysgolion er mwyn sicrhau ymyraethau grymus ac amserol i fynd i'r afael â thanberfformio
- gofalu bod arweinwyr uwchradd yn cymryd rhan weithredol mewn cydweithio cymheiriol ac adolygu gan gymheiriaid
- cryfhau systemau ar gyfer gwerthuso effaith strategaethau gwelliant ar safonau a chynnydd dysgwyr
- cryfhau ymhellach ansawdd addysgu ac asesu i leihau amrywiad o fewn ac ar draws ysgolion
- cryfhau ymhellach ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau dysgwyr
- gofalu bod ysgolion yn gweithredu dulliau grymus i gefnogi dysgwyr sy'n fregus i ddysgu
- datblygu ymhellach raglenni tracio ac ymyrraeth i fynd i'r afael â thanberfformio ac amrywiad mewn ysgolion, ac yn enwedig yng nghyd-destun dysgwyr bregus.
- gofalu bod pob ysgol uwchradd yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus i Flynyddoedd 7 ac 8 o fis Medi 2023
- gofalu bod ysgolion yn darparu tegwch i bob dysgwr, a bod ganddynt amgylchedd dysgu cynhwysol i gefnogi'r rheiny sy'n fregus i ddysgu
- datblygu ymhellach y ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd i sicrhau cynnig ystyrlon a phwrpasol i'r ystod gallu yng nghyfnod allweddol 4
- sicrhau bod pob clwstwr cynradd/uwchradd yn gweithredu cynlluniau pontio effeithiol.
- gofalu bod yr ysgolion sydd yn dal mewn categori statudol yn dangos fwy o gyflymder mewn gwelliannau, a gwelliannau clir yn ansawdd y dysgu a'r addysgu ac yn ansawdd yr arweinyddiaeth ar draws yr ysgol.

Yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol Rhanbarthol, bydd pob Awdurdod Lleol yn derbyn adroddiad manwl yn rhoi trosolwg lleol penodol, gan nodi'r cynnydd yn erbyn pum maes allweddol yn ogystal â nodi'r camau nesaf ar y llwybr gwella:

- Maes Allweddol 1 – Gwella Arweinyddiaeth
- Maes Allweddol 2 – Gwella Addysgu a Dysgu
- Maes Allweddol 3 – Cwricwlwm a Darpariaeth
- Maes Allweddol 4 – Cynnydd a Safonau Dysgwyr
- Maes Allweddol 5 – Cefnogaeth a Her i Ysgolion sy'n Peri Pryder

## 2. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

Mae'r chwe awdurdod lleol a GwE wedi cydymdrechu a gweithredu ar y cyd i gefnogi ysgolion trwy gydol pandemig Covid-19. Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws gogledd Cymru fu'r negeseuon clir a chyson gan y chwe awdurdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion gogledd Cymru. Nid arweinwyr a staff ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau.

Mae Awdurdodau Lleol a staff GwE wedi addasu eu gwaith yn briodol at ddibenion gwahanol dros y blynyddoedd diwethaf i barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol a chymorth i'w holl gymunedau o ysgolion yn ystod pandemig Covid-19. Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi ailgyfeirio egni ac adnoddau sawl tro yn ystod y cyfnod hwn er mwyn ceisio bodloni anghenion ysgolion, Awdurdod Lleol a rhanddeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg, addasu, a chydweithio'n effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny ar draws sectorau yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad y sefydliad. Wrth wraidd yr ailgyfeirio oedd yr angen i sicrhau lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr. Wrth wneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod hwn, roedd llais rhanddeiliaid o'r pwys mwyaf, gan sicrhau felly y gallai'r gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth i ble'r oedd ei hangen fwyaf.

Mae GwE a'r Awdurdodau Lleol yn adnabod eu hysgolion a'u lleoliadau yn dda, ac yn darparu her gadarn a phriodol yn ogystal â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer . Mae strategaethau, polisïau a phrosesau eglur iawn ar waith ar gyfer gwella ysgolion ac a ddeallir gan yr holl randdeiliaid. Mae perthynas weithio gref rhwng yr Awdurdodau Lleol a GwE.Mae gweithdrefnau grymus ar waith i osod cyfeiriad a dwyn y gwasanaeth rhanbarthol i gyfrif. Mae rolau penodol yr Awdurdodau Lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol mewn gwella ysgolion yn amlwg ac yn glir i'r holl randdeiliaid, ac maent yn cael eu dwyn i gyfrif yn effeithiol trwy weithdrefnau craffu lleol.

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn gwerthuso ei waith yn rheolaidd ac yn defnyddio data a gwybodaeth ansoddol yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn cael eu hadnabod yn gyflym, ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl. Mae proses glir ac effeithiol i sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol yn cyrraedd blaenoriaethau a thargedau corfforaethol yr Awdurdodau Lleol.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhaglen ddiwygio sylweddol, gyda dysgu ac addysgu effeithiol a chyflawni'r Pedwar Diben yn ganolog i'w llwyddiant. Mae GwE wedi gofalu bod pob cymorth cwricwlwm yn cyd-fynd â disgwyliadau ac egwyddorion Y Daith i 2022, Llywodraeth Cymru. Yn unol â gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru ym mis Medi 2022, darparwyd cymorth i ysgolion a lleoliadau cynradd fodloni'r gofynion statudol

newydd o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Mae cymorth i leoliadau uwchradd ac ysgolion arbennig baratoi at weithredu'r cwricwlwm newydd gyda Blynyddoedd 7 ac 8 ym mis Medi 2023 yn parhau. Mae'n hanfodol bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi efo cyfnod pontio dysgwyr. I hwyluso'r ddeialog broffesiynol hon mae GwE yn parhau i ddarparu rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru lleol a rhanbarthol. Mae ysgolion yn datblygu ac yn rhannu arfer effeithiol wrth ddadbacio potensial y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) a dyluniad cwricwlwm ysgol gyfan ac asesu, a hynny dan arweiniad ac adborth rheolaidd gan yr Athro Graham Donaldson.

Mae cynnwys yr adroddiad blynyddol yn dal cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol ar gyfer 2022-2023, gan werthuso effaith yn erbyn camau gweithredu a'r deilliannau ar gyfer y flwyddyn gyfan:

1. Cwricwlwm ac Asesu - Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac yn gosod safonau uchel i bob dysgwr
2. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion
3. Arweinyddiaeth - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Mae hyn yn cynnwys arweinyddiaeth i'r dyfodol a rhwydweithiau proffesiynol
4. Ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant
5. Cefnogi system sy'n hunan wella - cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson
6. Busnes - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r meysydd a adnabuwyd fel blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygiad a gwelliant pellach, sydd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2023-2024.

## 3. CWRICWLWM AC ASESU

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, yr ymgysylltu a'r effaith**
O ganlyniad i gydweithio ac ymwneud effeithiol rhwng yr AauLl, GwE ac ysgolion:

- mae pob ysgol yn gweithredu cynlluniau i gyflawni pedwar diben y cwricwlwm newydd.
- mae pob ysgol yn datblygu cwricwlwm cytbwys i fodloni anghenion eu dysgwyr, gan gynnwys y rhai mwy abl.
- mae pob clwstwr yn gweithredu cynlluniau pontio.
- mae pob ysgol yn rhan o gydweithio cymheiriol o fewn ac ar draws sectorau.
- bydd pob ysgol uwchradd ar drac i fodloni'r gofynion statudol pan fyddant yn cyflwyno eu Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2023.

| AMCAN 1: CWRICWLWM AC ASESU<br>Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr. |
| --- |
| **CONTINWWM ADDYSG 3 I 16** |
| **Cymorth i ysgolion wrth iddynt ddechrau gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gyda phwyslais cryf ar y 12 egwyddor addysgegol, arferion yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil weithredu.**<br>**Datblygu asesu ffurfiannol ymhellach.** |

Mae prosiect Ymchwil Weithredu Asesu Ffurfiannol GwE [dan arweiniad Shirley Clarke] wedi bod yn un o gonglfeini'r rhaglen dysgu proffesiynol er mis Tachwedd 2017 gydag ysgolion ynghlwm wrth y prosiect fel rhan o garfan haen 3. Mae gwerthusiad effaith wedi canfod:

- effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu mewn dosbarthiadau, ar safonau cyrhaeddiad, ar les disgyblion, eu hagweddau at ddysgu a'u datblygiad fel dysgwyr annibynnol.
- athrawon wedi dyfnhau dealltwriaeth o addysgeg effeithiol, a hynny ar sail ymchwil lleol a rhyngwladol eang a chyfredol. Maent hefyd wedi datblygu'n arweinwyr addysgu yn eu hysgolion a'r tu hwnt.
- athrawon wedi ymgymryd ag ymchwil weithredu yn eu hysgolion, ac wedi cydweithio'n broffesiynol ac arloesi'n hyderus. O ganlyniad, mae'r ysgolion sy'n rhan o'r prosiect yn datblygu'n dda fel sefydliadau sy'n dysgu.
- ffocws cryfach ar addysgeg effeithiol mewn cydweithio clwstwr.
- cyfraniad pendant at wella parodrwydd ysgolion a'u paratoadau at gyflwyno'r cwricwlwm newydd e.e. ffocws cynyddol ar y pedwar diben, y 12 egwyddor addysgegol, ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y safonau proffesiynol i arweinwyr ac athrawon, dibenion asesu ac egwyddorion cynllunio.
- ysgolion wedi gwneud defnydd da ac effeithiol o egwyddorion a strategaethau asesu ffurfiannol mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- rhieni wedi dod i ddeall mwy am asesu ffurfiannol wrth gefnogi eu plant gartref, e.e., pwerau dysgu, deilliannau dysgu, meini prawf llwyddiant ac adborth llafar.

Yn ystod cynhadledd GwE i Benaethiaid ar 22/09/2022 -'Arweinyddiaeth sy'n Ysbrydoli' - roedd gweithdai gan YCG yn cynnwys dau gyda phwyslais ar addysgeg: 'Asesu Ffurfiannol ar draws y continwwm - dyfnhau'r gwreiddiau' a 'Cynllunio ar gyfer yr Egwyddorion Cynnydd gan ddefnyddio strategaethau Tacsonomeg SOLO'. Cafodd yr ysgolion hynny a fynychodd y gweithdai gyfle i adolygu arferion asesu ffurfiannol yn sgil ymchwil diweddar a negeseuon a rannwyd.Cawsant ddealltwriaeth hefyd o dacsonomeg SOLO a'i botensial ar gyfer addysgu a chynnydd dysgwr. Mae adnoddau ar gael i holl ysgolion y rhanbarth i ddatblygu arferion ymhellach.

**Cefnogi cydweithredu ar draws sectorau i sicrhau cysondeb mewn arferion addysgu effeithiol i gefnogi cyfnodau pontio dysgwyr**

<u>Pontio</u>

Mae ysgolion a chlystyrau ar draws y rhanbarth, yn ogystal ag athrawon AGA, wedi'u huwchsgilio mewn ffyrdd all gefnogi efo pontio llwyddiannus. Mae clystyrau yn parhau i ddatblygu trefniadau newydd ar gyfer cydweithio clwstwr i helpu efo dilyniant 3-16.

Fe wnaeth cynrychiolwyr clystyrau a swyddogion ALl fynychu dau weithdy dysgu proffesiynol 'Pontio GwE' gyda ffocws ar bontio llwyddiannus, yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) ac arferion rhanbarthol llwyddiannus. Cynlluniodd bob clwstwr eu camau nesaf ar y cyd er mwyn gwella cynnydd dysgwyr ar hyd y continwwm dysgu. Roedd y dysgu proffesiynol hwn yn ategu cynhadledd ddeuddydd ranbarthol a oedd yn cynnwys diweddariadau gan Estyn, Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr addysgol er mwyn gosod allan ddull cyffredin o wella ysgolion. O ganlyniad, mae pob dalgylch cynradd wedi dechrau creu cynllun gweithredu a phrosiectau newydd ar y cyd yng nghyd-destun pontio, er mwyn cynllunio ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm a dull cyson o ran cynnydd. Rhannwyd negeseuon allweddol o'r gweithdai ag YCG ac ysgolion, gan gynnwys canllawiau ar gynllunio pontio. Y cam nesaf yw rhoi sylw i sicrhau deialog broffesiynol ar draws clystyrau.

Mae cydweithio clwstwr yn fwy cadarn yn gyffredinol, yn enwedig rhwng sectorau ac ar amrywiol lefelau, gan gynnwys penaethiaid, uwch arweinwyr ac athrawon. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau a atgyfnerthwyd

drwy'r Bartneriaeth Ysgolion.

Mae YCG yn parhau i helpu pob clwstwr i ddatblygu eu dulliau pontio eleni. Mae hyn wedi arwain at well cysondeb yn ansawdd cynllunio cwricwlwm o fewn ac ar draws ysgolion.

Prosiect Pontio Addysgeg Rhanbarthol

Mae un ysgol uwchradd ac un ysgol gynradd arweiniol o 12 clwstwr ar draws y rhanbarth wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn y prosiect ymchwil weithredu rhanbarthol ar bontio addysgeg, a lansiwyd yn ystod gweithdy Pontio GwE ar 07/10/22. Cynhaliwyd cyfarfod lansio i'r 24 ysgol a'u YCG ar 12/12/2022. Cychwynnodd yr ymchwil weithredu yn nhymor y gwanwyn 2023.Trefnwyd cyfarfodydd adolygu prosiect i ysgolion ac YCG er mwyn trafod a rhannu camau gweithredu ac effaith.Trefnwyd cyfarfodydd adolygu bob hanner tymor hyd at ddiwedd y flwyddyn galendr.

O ran effaith, mae ffocws addysgegol clir i bob un o'r gwahanol brosiectau ymchwil yn y 12 clwstwr, ac maent yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae cyfarfodydd adolygu yn sicrhau bod arferion cadarn, ffynonellau ymchwil, gwybodaeth a phrofiadau yn cael eu rhannu'n effeithiol. Mae pob ysgol brosiect yn gwbl ymwybodol o ffocws ymchwil ac arferion llwyddiannus y naill a'r llall, ac maent yn cydweithio. Mae'r adborth yn gadarnhaol iawn, ac mae ysgolion ac YCG yn teimlo wedi'u hysbrydoli a'u bod yn cael cefnogaeth dda.

**Sicrhau cymorth i ysgolion wrth iddynt ddechrau gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gyda phwyslais cryf ar y 12 egwyddor addysgegol, arferion yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil weithredu.**
**Datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sut i roi theori y 12 egwyddor addysgegol ar waith yn y dosbarth.**
Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu addysgeg fel rhan o'r cymorth ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae arweiniad manwl wedi'i gyflwyno i gefnogi ysgolion gyda'u paratoadau at gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae'r pwyslais ar addysgeg a'r 12 egwyddor yn ganolog i'r gwaith hwn. Er Medi 2021, mae'r gwasanaeth a chynrychiolwyr o'r ysgolion wedi bod yn gweithio'n effeithiol gyda'r Athro Graham Donaldson i geisio dyfnhau dealltwriaeth o'r Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, hyrwyddwyd cydweithio llwyddiannus sy'n golygu bod athrawon wedi gallu cyd-gynllunio enghreifftiau a modelau i'w rhannu ar draws ysgolion.

**Pecyn cymorth rhanbarthol i'r grŵp oedran 3-8**

Darparwyd rhwydweithiau rhanbarthol ar gyfer ymarferwyr ac YCG, i rannu canllawiau ar Galluogi Dysgu (cyfnod dysgu yn arwain at Gam Cynnydd 1) ac astudiaethau achos gan ysgolion o bob ALl sy'n rhan o brosiectau GwE ar sail ymchwil, sef Gwaith Coed a 'Communication Friendly Spaces Approach'. Bu ymarferwyr yn trafod sut yr aethant ati i fyfyrio ar ac adolygu eu hamgylcheddau dysgu, eu profiadau a'u cynllunio ar gyfer sgiliau, y tu mewn a'r tu allan, ac effaith eu darpariaeth ar ddysgwyr, yn unol â chanllawiau Galluogi Dysgu a chanllawiau MDaPh. Rhoddwyd cyflwyniadau ac astudiaethau achos ar Ganolfan Cefnogaeth GwE fel bod modd i bob ysgol yn y rhanbarth fynd atynt. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o gynnydd ar draws llwybrau datblygu Galluogi Dysgu at ddiwedd CC2 ym mhob MDaPh, a'r sgiliau trawsgwricwlaidd a'r sgiliau cyfannol. Mae'r cymorth hefyd yn gwella'u dealltwriaeth o egwyddorion ac addysgeg Dysgu Sylfaen ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth a chynnydd dysgwyr.

Cynhaliwyd gweithdai rhanbarthol i athrawon a chymorthyddion dysgu sy'n newydd i'r grŵp oedran 3-8, yn canolbwyntio ar egwyddorion Galluogi Dysgu, MDaPh ac addysgeg effeithiol yn y grŵp oedran hwn. Mae

gan ymarferwyr sydd wedi mynychu gweithdai a chyfarfodydd rhwydwaith adnabyddiaeth a dealltwriaeth gadarn o'r tri galluogwr dysgu o fewn Galluogi Dysgu, yr addysgeg a'r cwricwlwm i'w trosglwyddo yn arferion dosbarth.

Cynhaliwyd gweithdai Gwyddoniaeth a Thechnoleg rhanbarthol i athrawon a chymorthyddion dysgu. Mae pob ymarferydd wedi'i uwchsgilio, a'i wybodaeth a'i ddealltwriaeth o FDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, y Llwybrau Dysgu (yn enwedig Archwilio), y sgiliau trawsgwricwlaidd a'r sgiliau cyfannol wedi'u dyfnhau. Mae ymarferwyr yn fwy hyderus wrth gynllunio datblygiad mewn MDaPh a'r sgiliau trawsgwricwlaidd o'r Llwybrau Datblygu i'r MDaPh, a hynny o fewn addysgeg ddatblygiadol addas.

Cyflwynwyd hyfforddiant pwrpasol i ysgolion unigol a chlystyrau ar agweddau penodol ar y Cwricwlwm e.e. darllen cynnar ac uwch sgiliau darllen, dysgu gwreiddiol a phwrpasol, rôl yr oedolyn, rhifedd, cynllunio a dysgu yn yr awyr agored.  Mae ymarferwyr sydd yn rhaeadru gwybodaeth ac yn arwain hyfforddiant clwstwr yn rhannu arfer dda ac effaith y prosiect ymchwil weithredu.

Er 2019, mae'r cynnig proffesiynol yn cynnwys ymarferwyr Bl3 er mwyn adeiladu ar rai o egwyddorion Dysgu Sylfaen yn CA2 fel paratoad ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Bu i'r cynnig proffesiynol barhau drwy gydol y cyfnod clo gyda'r ddarpariaeth yn cael ei chynllunio i dargedu'r agweddau hynny y bu i ysgolion eu hadnabod fel rhai a oedd angen eu blaenoriaethu yn sgil Covid-19, e.e. sgiliau cyfathrebu disgyblion ac iechyd a lles. Roedd y ffocws ar ddatblygu'r sgiliau hyn o fewn addysgeg ddatblygiadol addas. Mae tystiolaeth o effaith y rhaglen gefnogaeth hon yn cynnwys:

- dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o sut y mae'r egwyddorion addysgegol (gan gynnwys 12 egwyddor CiG) yn cysylltu â'i gilydd i greu profiadau dysgu cynhyrchiol ac effeithiol.
- mae ymarferwyr yn defnyddio ystod o ddulliau addysgegol sy'n briodol i ddatblygiad ac sydd yn ymateb i anghenion dysgwyr (gan gynnwys sgiliau emosiynol a chymdeithasol).
- ymarferwyr yn creu cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, gan dynnu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol dysgwyr
- ymarferwyr yn ystyried nid yn unig yr amgylchedd dysgu ffisegol, ond hefyd yr hinsawdd emosiynol sy'n cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial
- dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o bwysigrwydd arsylwi yn eu hymarfer bob dydd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion, sgiliau a chynnydd disgyblion; caniatáu i ymarferwyr ganfod y dulliau a ffafrir gan blant a phobl ifanc o ran dysgu, a'r modd gorau o ennyn eu diddordeb mewn dysgu; canfod y dysgwyr hynny sydd arnynt angen cymorth ychwanegol hwyrach i'w helpu i gyflawni eu potensial yn llawn.
- mae ymarferwyr yn deall bod arsylwadau effeithiol yn rhoi modd iddynt gynllunio darpariaeth sydd yn cefnogi ymrwymiad a mwynhad dysgwyr yn eu dysgu, yn ogystal â chynllunio ar gyfer eu helpu i symud i gam nesaf y dysgu
- ymarferwyr yn deall bod angen i asesu fod yn broses barhaus sydd wedi'i gwreiddio mewn arferion o ddydd i ddydd, mewn modd anweladwy o fewn y dysgu a'r addysgu.

**Cymorth penodol i'r uwchradd**

Cyflwynwyd hyfforddiant pwrpasol i ysgolion uwchradd ar gais, ar agweddau penodol ar addysgeg. Cynhaliwyd hyfforddiant a gweithdai eleni ar: her i bawb, meini prawf llwyddiant ac amcanion dysgu, cwestiynu, gwahaniaethu, er enghraifft.

Cynhaliwyd gweminar fyw ar 20/03/23 i arweinwyr ac athrawon uwchradd ar strategaethau galw i gof ac adalw gyda phwyslais ar baratoi at arholiadau ym Mlynyddoedd 10-13. Daeth llawer o ysgolion ar draws pob

awdurdod i'r weminar, ac mae mynediad at recordiad ac adnoddau.

Rhannwyd Adnodd ag ysgolion uwchradd i helpu dysgwyr i baratoi at arholiadau allanol. Mewn rhai achosion cyflwynwyd hwn gan Arweinwyr Craidd GwE. Mae'r adnodd yn rhoi sylw i strategaethau trefnu gwaith a dulliau adolygu yn seiliedig ar ymchwil.

Trwy'r ddarpariaeth a'r cymorth hwn mae gan ymarferwyr well dealltwriaeth o gynllunio ar gyfer cynnydd trwy ddefnyddio strategaethau cwestiynu sydd wedi'u cynllunio, gan sicrhau y gall pawb ddysgu a bod y dysgu hwn yn cynnig her, yn ogystal â sicrhau dulliau ac adnoddau i helpu'r dysgu i 'sticio'. Mae ymarferwyr wedi defnyddio ystod o strategaethau a dulliau i helpu dysgwyr i ddod yn fwy annibynnol wrth adalw ac atgyfnerthu eu dysgu.

Mae ffocws cyson wedi bod hefyd ar gefnogi ysgolion i wella ansawdd y ddarpariaeth wahaniaethol ar draws yr ystod gallu. Mae sefydlu Rhwydwaith Cydlynwyr MATh uwchradd yn un enghraifft benodol o'r gwaith hwn. Mae arweiniad a chefnogaeth benodol wedi bod i feithrin gwell dealltwriaeth a hyder ymysg cydlynwyr i arwain ar y maes yn draws-ysgol ac i ddatblygu eu prosesau a'u systemau o ran adnabod, tracio a chefnogi'r grŵp penodol hwn o ddysgwyr. Cafwyd mewnbwn hefyd i sicrhau eu bod yn gwybod am ydatblygiadau cenedlaethol yn hyn o beth.Fel grŵp, maent wedi cydweithio i sicrhau dealltwriaeth gyffredin a sut i sicrhau lefel her briodol yn y cynllunio a hyrwyddo strategaethau adalw ac adolygu.

## GWIREDDU'R CWRICWLWM [CWRICWLWM I GYMRU]

**Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru (CiG)**
Parheir i gynnal cyfres o sesiynau Dysgu Proffesiynol (DP) cenedlaethol ar-lein ar y Cwricwlwm i Gymru (CiG) i gefnogi arweinwyr ac athrawon gyda'u gwaith ar y CiG. Ceir lefelau ymgysylltu cadarnhaol gan ysgolion ar hyd a lled Cymru, gyda dros 668 o ymarferwyr yn mynychu a'r mwyafrif o'r rhain yn aelodau o UDA - mwy na 251 yn mynychu o ysgolion GwE . Yn ôl ffurflenni arfarnu'r rhaglen CiG, mae 100% o'r rheiny sydd wedi cwblhau ffurflenni arfarnu yn cytuno'n gryf, neu'n cytuno, eu bod yn fodlon gyda'r profiad dysgu . Mae nifer cynyddol o ysgolion ar draws rhanbarth GwE yn cyfrannu i'r cynnig Dysgu Proffesiynol cenedlaethol, ac fe'u defnyddir fel enghreifftiau o arfer dda sy'n dod i'r amlwg, gan ddangos sut maent yn deall ac yn dal yr effaith ar arferion mewn ysgolion.

Mae'r tîm trawsranbarthol yn cydweithio i gynllunio a darparu'r rhaglen genedlaethol i gynnwys enghreifftiau gan ysgolion a chyfleoedd i ysgolion drafod arferion ag ysgolion ar draws Cymru mewn sesiynau trafod.Mae recordiadau a'r adnoddau a rennir ar gael ar wefan drawsranbarthol sydd ar gael drwy HwB i bob ysgol ac ymarferydd yng Nghymru. Mae'r nifer cynyddol o 1027 yn ymweld â gwefan drawsranbarthol CiG (ar 2/3/23) yn dangos bod ymarferwyr yn gwylio'r recordiadau ac yn edrych ar y deunyddiau pan mae'n gyfleus iddynt - ceir enghreifftiau o ddefnyddio hyn mewn cyfarfodydd ysgol gyfan ac ar lefel staff unigol.

Mae staff GwE yn parhau i weithio mewn timau i lunio pecynnau cefnogi fel rhan o'r rhaglen DP ranbarthol. Ym mis Ionawr 2023, cafodd y cynnig dysgu proffesiynol trawsranbarthol hwn ei gymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yng Nghymru, a nodwyd sawl cryfder allweddol, yn cynnwys:

- mae'r ddarpariaeth yn cyd-fynd â chyd-destun polisi Cymru ac yn helpu arweinwyr ar hyd a lled Cymru i gyflawni uchelgais Cenhadaeth ein Cenedl.
- mae'r ddarpariaeth yn genedlaethol ac yn cael ei chynnig yn ddwyieithog, gan ddarparu mynediad agored a phriodol i unigolion wedi'u targedu, gan wneud defnydd priodol o ddysgu cyfunol.

- cyflwynir y ddarpariaeth gan bersonél o safon uchel, sy'n briodol i'r gynulleidfa darged.
- ceir prosesau gweinyddu effeithlon ac effeithiol i gefnogi efo cyflwyno'r dysgu proffesiynol
- mae Astudiaethau Achos yn dangos gwell arferion arweinyddol, sy'n arwain at well deilliannau i blant a phobl ifanc.

Cynhaliwyd gweithdy llwyddiannus i ymarferwyr uwchradd ym mis Mawrth 2023 ble roedd GwE yn hwyluso ymarferwyr i rannu arferion a gwersi a ddysgwyd hyd yma wrth baratoi at y Cwricwlwm i Gymru (rhannu arferion 5 ysgol uwchradd sydd wedi dechrau gweithredu'r CiG ym mis Medi 2022). Daeth dros 80 i'r gweithdy o 44 o ysgolion uwchradd ac arbennig, gan gynnwys cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru. Yn ôl ffurflenni arfarnu mae 100% yn cytuno'n gryf, neu'n cytuno, eu bod yn fodlon gyda'r profiad dysgu ac wedi cael gwybodaeth a sgiliau a fyddai yn eu helpu yn eu rôl.

Mae ceisiadau yn parhau am sesiynau DP penodol i ysgolion a chlystyrau, er mwyn cefnogi efo hyfforddiant staff a hyfforddiant ysgol gyfan, ac yn sgil diwrnod HMS ychwanegol yn nhymor yr haf 2023.
Mae Canolfan Cefnogaeth GwE yn parhau i gefnogi ysgolion i gael dysgu proffesiynol drwy gyfuniad o ddulliau. Caiff y sesiynau eu recordio ac mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau o ysgolion yn rhannu eu harferion. Yn ôl yr adborth, croesewir y rhain gan ysgolion, a chânt eu defnyddio i gefnogi trafodaethau proffesiynol yn yr ysgol. Yn ôl ffigurau mae mwy a mwy yn edrych ar ddeunyddiau cymorth - 9021 yn edrych ar adnoddau Cwricwlwm i Gymru cyfrwng Saesneg, a 8504 yn edrych ar yr adnoddau cyfrwng Cymraeg.

## TIMAU MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD [MDaPh]

**Rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru**
Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi cefnogi arweinwyr yn effeithiol gyda'u paratoadau at y Y Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm i Gymru, ac wedi bod yn hyblyg yn ei ddarpariaeth er mwyn bodloni amrywiol anghenion ysgolion yn ystod y pandemig. Mae strwythur yn y rhanbarth ar gyfer rhannu a thrafod arferion sy'n dod i'r amlwg o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru, sef y rhwydweithiau CiG lleol a rhanbarthol. Mae'r Rhwydweithiau yn rhannu ffrwyth eu llafur â'r holl ysgolion drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE, gan ddarparu cyfle i ymarferwyr raeadru negeseuon rhanbarthol a rhannu arferion lleol. Dan arweiniad y rhwydweithiau, cynhaliwyd gweminarau effeithiol i arweinwyr ysgolion ar ddylunio cwricwlwm, asesu a chynnydd ac egwyddorion cynllunio. Mae ysgolion wedi nodi bod y cyflwyniadau wedi rhoi hwb i'w hyder i ddatblygu eu Dyluniad Cwricwlwm Lefel Uchel i gynnwys gweledigaeth, egwyddorion ac ymgorffori'r pedwar diben. Mae pob ysgol wedi defnyddio'r gweithdai hyn, trwy naill airecordiad byw neu drafodaethau diweddarach efo'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt. Yn dilyn y dysgu proffesiynol hwn mae pob ysgol gynradd wedi datblygu ac ymgorffori datganiadau gweledigaeth a rhesymeg newydd neu ddiwygiedig, sydd wedi helpu i sicrhau cysondeb wrth fynd i'r afael â'r cwricwlwm.

Mae gwerthuso a myfyrio ffurfiol wedi digwydd er mwyn llywio ffyrdd newydd o symud ymlaen gyda'r rhwydweithiau, i sicrhau bod y strwythur rhanbarthol yn parhau i gefnogi gwaith sydd yn esblygu ar y Cwricwlwm, a galluogi pob sector i gymryd rhan ar bob lefel.Rhennir yr adroddiad gwerthuso ffurfiol yn nhymor yr haf 2023, ond dyma'r prif effaith:

- mwy o ysgolion yn datblygu ac yn rhannu enghreifftiau o'u dulliau ysgol gyfan o ddylunio a chynllunio'r elfennau mandadol, gan gynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd ac yn ystod gweithdai yn y Gynhadledd ranbarthol ym mis Medi 2022.
- mae athrawon ac arweinwyr yn adrodd am well gwybodaeth a dealltwriaeth o'r fframwaith CiG a'r elfennau sydd ynddo.
- mae'r holl ysgolion a'r lleoliadau cynradd wedi gallu bodloni'r gofynion statudol ar gyfer gweithredu'r

cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022.

- arweiniad clir a hwyluso ysgolion i weld a rhannu enghreifftiau ymarferol o grynodebau/dyluniadau cwricwlwm arloesol a chreadigol - dywed ysgolion bod gweld yr ystod hwn o arferion wedi rhoi mwy o hyder iddynt ddatblygu eu prosesau eu hunain.

Yn ôl gwerthusiad ffurfiol o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru mae bod yn aelod o'r rhwydweithiau wedi cael effaith, fel yn y tabl isod:

| | **AELODAU RHWYDWAITH RHANBARTHOL** | **AELODAU RHWYDWAITH LLEOL** |
|---|---|---|
| Gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o ethos Cwricwlwm i Gymru | 92% | 69% |
| Gwell dealltwriaeth o'u MDaPh | 75% | 65% |
| Mwy o hyder i arwain gwaith y rhwydweithiau yn eu hysgolion | 81% | 58% |
| Mwy o hyder i arwain gwaith y rhwydweithiau gydag ysgolion eraill | 76% | 41% |
| Gwell ymwybyddiaeth o'r sectorau eraill e.e. cynradd, uwchradd, arbennig, UCD | 78% | 63% |
| Gwell dealltwriaeth o'r continwwm dysgu 3 i 16 | 84% | 61% |
| Mae gwaith y rhwydweithiau wedi cael effaith gadarnhaol ar eu harferion dosbarth | 76% | 56% |

Mae arferion llwyddiannus yng ngwaith y rhwydweithiau rhanbarthol i'w gweld mewn mwy o ysgolion yn rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg mewn:

- dylunio cwricwlwm
- gwerthuso treialu cychwynnol
- dadbacio'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig
- datblygu gweledigaeth a rennir
- datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a phrosesau asesu

Mae ymgysylltiad uchel wedi sicrhau bod ysgolion cynradd yn fwy hyderus i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Cryfhawyd cydweithio cynradd/uwchradd yn sylweddol ac mae themâu trawsliniol Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu wedi dod i'r amlwg - Amser, Technoleg, Ymddiriedaeth a Meddwl Gyda'n Gilydd. Mae cyflwyniadau Dysgu Proffesiynol i uwch arweinwyr wedi'u rhaeadru i athrawon a chymorthyddion dysgu mewn cyfarfodydd staff ac/neu HMS penodol, sy'n golygu bod gan yr holl staff bellach ddealltwriaeth well o'r fframwaith. Daeth ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid ehangach yn amlwg, er mwyn cydweithio i ddatblygu gweledigaeth a rennir. Defnyddir yr adnoddau a gyflwynwyd yn y sesiynau i arweinwyr yn

effeithiol, er mwyn parhau efo'r trafodaethau a dyfnhau dealltwriaeth yn yr ysgol.

**4. DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL**

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, yr ymgysylltu a'r effaith**

Oherwydd y pwyslais cynyddol ar gymorth ac arweiniad i wella dysgu ac addysgu trwy gymryd rhan yn rhaglen ymchwil Asesu ar gyfer Dysgu [AagD] Shirley Clarke, rhwydweithiau i arweinwyr dysgu ac addysgu (Amcan 1), rhwydweithiau pynciau craidd a gwaith 'tîm o amgylch yr ysgol' gydag ysgolion sy'n destun pryder:

- mae bron pob ysgol yn dangos gwelliannau mewn agweddau penodol ar addysgeg. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion, mae angen rhoi sylw i gyflymder a graddau'r gwelliannau hyn.
- mae bron pob ysgol yn gweithredu'n briodol i gryfhau addysgeg ymhellach a chodi safonau.
- mae cymorth ar gyfer addysgeg mewn pynciau penodol, sydd wedi'i dargedu ac o ansawdd uchel, yn gwella safonau dysgu ac addysgu mewn sawl pwnc, Saesneg a mathemateg yn benodol, ac yn gwella dyfnder ac ehangder dealltwriaeth.
- mae gan bron pob ysgol ymyraethau llythrennedd a rhifedd priodol mewn lle, ac yn gallu dangos y cynnydd a wna grwpiau o ddisgyblion.

## AMCAN 2: DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion

### IEITHOEDD TRAMOR MODERN (ITM)

**Cefnogi ysgolion cynradd ac uwchradd gyda chynllunio ar gyfer CiG**

Mae'r Tîm Dyfodol Byd-eang yn parhau i gynllunio a darparu cymorth i ysgolion. Mae dros 200 o ysgolion cynradd wedi cael cymorth ac wedi ymwneud â'r amrywiol rwydweithiau. Mae hyn wedi arwain at wella dealltwriaeth o nodau a disgwyliadau Ieithoedd Rhyngwladol (IRh) yn y sector cynradd, yn unol â fframwaith a chanllawiau CiG. Mae ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth o ddisgrifiadau dysgu ac mae ysgolion yn datblygu ac yn mireinio'r ddarpariaeth IR fwyaf priodol (dylunio a chynllunio'r cwricwlwm) yn unol â gweledigaeth yr ysgol, gan gynnwys corffori IRh ar draws y MDaPh.

Cyflwynwyd sesiynau i roi sylw i elfennau gorfodol y CiG a mireinio'r gwaith cynllunio mewn IRh yn yr uwchradd. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth o elfennau gorfodol a statudol fframwaith CiG. Adolygwyd y cymorth a'r dysgu proffesiynol a'u mireinio i weddu i anghenion a blaenoriaethau ysgolion ac ymarferwyr. Darperir cymorth unigryw ar gais ysgolion.

**Darperir cyfleoedd am ddysgu proffesiynol, adnoddau, arbenigedd a rhannu arferion da.**

Cyflwynwyd sesiynau hyfforddiant gyda siaradwyr gwadd i ymateb i addysgeg a methodoleg IRh yn y cynradd. Roedd Trafod Addysgeg, Power Language, Institut Francais a Cerdd Iaith yn rhai o'r rhain. Roedd cyfanswm o 97 ysgol gynradd/110 o athrawon yn rhan o hyn. Cafwyd adborth ac ymwneud calonogol iawn gyda'r ymarferwyr yn magu mwy o arbenigedd a hyder wrth ddysgu ac addysgu ac Ieithoedd Rhyngwladol yn cael eu gwreiddio'n llawn mewn cynlluniau dysgu rhai ysgolion. Darparwyd cymorth uniongyrchol hefyd i athrawon cynradd drwy raglen Athrawon yn dysgu i Addysgu Ieithoedd (TELT) y Brifysgol Agored.

Trwy'r adnoddau Power Language, mae ysgolion yn dechrau cynnwys a pharhau i wreiddio IRh yn eu

cwricwlwm. Mae rhai ysgolion yn defnyddio'r adnoddau a'r cyngor i hyfforddi'u staff i gyd a rhoi profiad mewn dysgu IRh. Cadarnhawyd safon yr adnoddau a'r cymorth i ymarferwyr yn yr adborth gan 75 o ysgolion.

**Darperir cyfleoedd dysgu proffesiynol, adnoddau, arbenigedd a rhannu arferion da yn y cynradd a'r uwchradd.**
Bydd Canolfan Cefnogaeth GwE ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol yn cael ei diweddaru'n gyson a gall pob ysgol gael cymorth a dolenni at adnoddau ac enghreifftiau o arferion da. Mae Tîm GwE yn parhau i gefnogi a chydweithio ochr yn ochr â phartneriaid Dyfodol Byd-eang ac/neu brosiectau Traws-gonsortia, sydd yn arwain at greu adnoddau addysgegol perthnasol a phwrpasol yn addas i athrawon, ysgolion, dysgwyr cynradd ac uwchradd a rhieni. Rhennir cyfleoedd ac adnoddau ag ysgolion i gefnogi datblygiadau.

Gyda'r prosiect 'Dylunio ar gyfer Ieithoedd o fewn ILlCh': DB-e GwE/Jennifer Eddy' - rhoddwyd modd i ymarferwyr ddatblygu arferion a dulliau addysgegol blaengar o safbwynt tasgau asesu, dylunio a chynllunio'r cwricwlwm. Mae hyn wedi newid meddylfryd, wedi gwella dealltwriaeth o fframwaith CiG a chynllunio ar gyfer CiG ac wedi dyfnhau dealltwriaeth a'r arferion o safbwynt asesu.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Cefnogi Dysgwyr MATh yn cael ei chyfleu drwy'r cyfarfod Rhwydwaith IRh, ac yma hefyd rhoddir cyngor ac arweiniad ar feysydd fel adnabod, olrhain, dysgu ac addysgu a MATh yn y CiG. Rhoddir sylw i anghenion ymarferwyr ac mae ysgolion yn teimlo bod cefnogaeth iddynt. Mae'r rhwydweithio yn caniatáu i ysgolion ac ymarferwyr gydweithio'n well.

## CYNORTHWYWYR ADDYSGU LEFEL UWCH [CALU] - Y LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION DYSGU [LLDCD]

**Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) - Y Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Dysgu (LlDCD)**
Darperir arlwy gyfoethog o ddatblygiad proffesiynol i gymorthyddion dysgu drwy'r rhaglenni cenedlaethol, h.y. y Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Dysgu [LlDCD]. Mae hyn yn cynnwys rhaglen 'Sefydlu', 'Cymorthyddion wrth eu gwaith', a 'Darpar CALU', sy'n arwain at asesiad statws CALU. Yn yr un modd â'r rhaglen Arweinyddiaeth i athrawon, mae'r rhaglenni hyn yn annog unigolion i fod yn ymarferwyr myfyriol sy'n gwerthuso eu harferion yn erbyn y 'Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu.'

**Cynorthwywyr Addysgu Newydd eu Penodi**
Mae 62 wedi cofrestru ar gyfer y rhaglen yn ystod y flwyddyn gyda 30 o’r rhain wedi cwblhau y pedwar modiwl erbyn hyn. Mae hyn ychydig is na’r deilliant er yn gynnydd yn y niferoedd ers cyn y pandemig ac roedd sylwadau cyffredinol dda ar y ffurflenni adborth. Yn dilyn cwblhau’r modiwlau mae gan gymorthyddion addysgu newydd ymwybyddiaeth o’r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu, gwell sgiliau digidol a gwnânt ddefnydd priodol o’u cyfrif Hwb. Caiff y cymorthyddion eu hychwanegu i TEAMS Ymsefydlu GwE fel man cyswllt gyda’r cydlynydd ac mae hyn yn fodd hwylus i ymateb i unrhyw ymholiadau.

**Cymorthyddion addysgu wrth eu gwaith**
Adolygwyd cynnwys y rhaglen hon yn genedlaethol gyda chydlynwyr y Consortia eraill. Targedwyd 6 ysgol ar gyfer cynnal yr hyfforddiant fesul clwstwr, ac yn ystod y flwyddyn mae 5 clwstwr wedi cwblhau y rhaglen ac mae’r rhaglen ar waith gyda dau glwstwr pellach, gyda chyfanswm o 122 cymhorthydd wedi derbyn hyfforddiant drwy’r model clwstwr. Mae hyn yn gynnydd da iawn ar nifer clystyrau’r llynedd ac yn unol â’r deilliant. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan fynychwyr.

Yn dilyn adborth gan gymorthyddion a hwyluswyr am yr hyfforddiant ar-lein yma yn ystod cyfnod y pandemig, cynhaliwyd y rhaglen hon yn rhanbarthol yn ystod tymor y Gwanwyn 2023. Mynychodd 25 cymhorthydd. Mae'r niferoedd wyneb yn wyneb rhanbarthol yn sylweddol is na'r niferoedd cyn y pandemig. Roedd niferoedd uwch wedi cofrestru i bob lleoliad ond cafwyd absenoldebau munud olaf oherwydd prinder staff yn yr ysgolion yn golygu na ellid eu rhyddhau i fynychu neu oherwydd salwch. Yn dilyn cwblhau'r hyfforddiant mae gan gymorthyddion addysgu wrth eu gwaith ddealltwriaeth uwch o'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu, gwell dealltwriaeth o arferion effeithiol a brwdfrydedd i ddatblygu yr arferion hyn o fewn eu sefydliadau eu hunain.

**Darpar CALU**

Darparwyd hyfforddiant ar gyfer 30 cymhorthydd o fewn Cylch 4 (ar-lein) a 37 o fewn Cylch 5 (wyneb yn wyneb). Cynigwyd 'syrjeri Myfyrdodau Dysgu Proffesiynol' i Gylch 4 er mwyn trafod eu MDP ac i drafod trefniadau asesu. Cafodd hyn effaith gadarnhaol iawn ar y cymorthyddion gyda llawer wedi llwyddo i wella safon eu myfyrdodau dysgu proffesiynol yn dilyn y cyfarfodydd hyn. Cynhaliwydsesiwn adolygu ar gyfer ymgeiswyr asesiadau Cylch 4 cyn cynnal eu hasesiadau. Dewisodd 80% o'r cymorthyddion dderbyn asesiad yn Cylch 4 gydag 20% yn dewis ymuno gydag asesiad Cylch 5.

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan gymorthyddion, hwyluswyr ac aseswyr yn nodi llawer gwell dealltwriaeth gan gymorthyddion o'r Safonau Proffesiynol a Cwricwlwm i Gymru yn dilyn yr hyfforddiant. Gwelwyd hefyd bod cymorthyddion wedi gwerthfawrogi cael cydweithio gyda chymorthyddion eraill ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol (ar-lein) a bod eu sgiliau digidol wedi datblygu gyda'r sesiwn dechnegol wedi bod o gymorth mawr iddynt. Yr adborth a gawsom ar lafar oedd y byddai'n well gan y mwyafrif gael hyfforddiant wyneb yn wyneb.

Yn dilyn cynnal sesiynau Cylch 5 wyneb yn wyneb gwelwyd bod ymgysylltiad a boddhad cymorthyddion yn llawer uwch. Gwelir hefyd bod gan y cymorthyddion lawer gwell dealltwriaeth o sut i ysgrifennu eu myfyrdodau yn dilyn hyfforddiant wyneb yn wyneb. Gwelwyd eu bod y cydweithio â chymheiriaid yn llawer gwell ac felly hefyd safon y trafodaethau proffesiynol.

Cylch 6 – Cychwynnodd 27 cymhorthydd yn Chwefror 2023.

**Statws CALU**

Asesiadau Cylch 3 a 4

Yn dilyn mynychu 8 sesiwn digidol Darpar CALU, bu i 82% o gymorthyddion Darpar CALU Cylch 3 a 46% o gymorthyddion Darpar CALU Cylch 4 wneud cais am asesiad statws CALU. Cymedrolwyd pob asesiad yn rhanbarthol a sampl o 6 yn genedlaethol.

Roedd y rhai nad aeth ymlaen ar gyfer asesiad y tro hyn, yn nodi nad oeddent wedi llwyddo i gael digon o brofiad addysgu dosbarth oherwydd effaith Covid. Bydd modd i'r rhain dderbyn asesiad gyda chymorthyddion Cylch 5, 6 neu 7 pan fyddant yn gymwys. Roedd amryw o'r cymorthyddion hyn hefyd wedi gadael y byd addysg ac roedd asesiadau yn is na'r arfer ar draws pob Consortia.

Mae sylwadau gwerthuso Cylch 4 yn gadarnhaol ac yn tystio i werthfawrogiad y cymorthyddion o'r cyfle hwn i ddatblygu'n broffesiynol:

"Mwynheais y cwrs yn fawr, gyda'r cydlynwyr yn creu hwyl a diddordeb. Cefais fy ysbrydoli ac mae llawer o bethau byddaf yn eu cofio a'u defnyddio maes o law i ysbrydoli eraill. Gwych oedd gallu gwrando ar gymaint o safbwyntiau darparu CALU eraill a dysgu ganddynt".

"Rwyf wedi gallu meithrin hyder yn fy rôl bresennol a datblygu'n broffesiynol, fel y gallaf barhau i gefnogi'r dysgwyr yn yr ysgol hyd eithaf fy ngallu."

**Aseswyr CALU**
Cynhaliwyd hyfforddiant diweddaru Cenedlaethol ar 3/10/22 dros TEAMS, a sesiwn galw i mewn i Aseswyr GwE ar 10/10/2022. Derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn gan aseswyr CALU i'r system newydd o asesu ymgeiswyr. Hyfforddwyd 5 Aseswr newydd ym mis Mawrth 2023.

**Cyflwyniad i Cwricwlwm i Gymru**
Crëwyd hyfforddiant newydd ar y cyd gyda'r Consortia eraill, er mwyn darparu cyflwyniad i gymorthyddion ar Cwricwlwm i Gymru. Rhannwyd yr hyfforddiant dros 2 sesiwn, ac roedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Darparwyd y sesiynau yn genedlaethol ar amrywiaeth o amseroedd, fel bod modd rhyddhau cymorthyddion.

Addaswyd yr hyfforddiant er mwyn creu hyfforddiant unigryw ar gyfer ysgolion cynradd GwE ac erbyn hyn rydym wedi cyflwyno'r hyfforddiant i 219 o gymorthyddion.

## Y GYMRAEG

**Datblygu'r gefnogaeth i ysgolion i hyrwyddo buddion dwyieithrwydd a manteision addysg cyfrwng Cymraeg**
Mae cyswllt cadarn gyda'r Fforymau Iaith drwy'r YCG sy'n cynrychioli fesul awdurdod. Ceir cyfarfodydd cyson gyda swyddogion fesul awdurdod er mwyn sicrhau eglurder gweithredu mewn perthynas â'r CSGAu gan ymgorffori bwriadau timau ymgynghorol y Gymraeg i gynllun busnes GwE. Mae hyn wedi arwain at gynyddu'r cyd-ddealltwriaeth o gynnig GwE a'r awdurdodau.Mae gweithgor cenedlaethol wedi ei sefydlu er mwyn datblygu cefnogaeth a DP penodol ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg.

**Cefnogi i ddatblygu twf darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg:**
Ymatebir i geisiadau am gefnogaeth gan adrannau Cymraeg mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg (YCS). Caiff y gefnogaeth ei dargedu yn unol ag anghenion yr ysgolion. Yn ystod tymor y gwanwyn, cynhaliwyd dau gyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n fodd i ysgolion sy'n arddangos arferion llwyddiannus. Mae'r dull yma o rannu arfer dda wedi cael ei groesawu ac wedi arwain at lunio cysylltiadau defnyddiol rhwng ysgolion, ceisiadau am gefnogaeth digidol a chynyddu'r ymwybyddiaeth o effeithiolrwydd Cymraeg Campus i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Mae ceisiadau am gefnogaeth i'r sector uwchradd cyfrwng Saesneg yn cynyddu yn unol â'r cynlluniau cefnogaeth drwy'r YCG.Rhoddir cefnogaeth i arweinwyr adrannau y Gymraeg gynnal a chodi safonau dysgu ac addysgu, gwireddu CiG yn effeithiol yn ogystal â'u cefnogi i hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn rhan o gynlluniau ysgol gyfan. Mae Cylchlythyr 'O'r Stordy' i adrannau Cymraeg YCS yn cael ei rannu yn dymhorol sy'n rhoi gwybodaeth a dolenni allweddol am adnoddau, gwybodaeth, digwyddiadau a rhwydweithiau cefnogol. Mae hyn wedi cynyddu'r ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael i gefnogi'r athrawon er mwyn datblygu'r Gymraeg ymhellach.

Mae cytundeb cenedlaethol ymysg Arweinwyr Strategol y Gymraeg o'r angen i sefydlu rhwydwaith o gynrychiolwyr o bob rhanbarth i gynllunio'r gefnogaeth ar gyfer cefnogi ysgolion i ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg. Mae gweithgor cenedlaethol wedi ei sefydlu er mwyn datblygu cefnogaeth ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn ystod ail hanner tymor yr hydref mae'r gweithgor wedi cyfarfod ac yn parhau i gynllunio adnoddau a DP i gefnogi'r Fframwaith newydd, Mae hyn wedi arwain at lunio adnodd ar y Mabinogion fydd yn cynnwys Dysgu Proffesiynol cenedlaethol i gyd-fynd ac yn modelu defnydd effeithiol ar gyfer cynllunio a dyfnhau dealltwriaeth a chynyddu hyder ymarferwyr mewn perthynas

â'r Fframwaith anstatudol ar gyfer Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg.

**Datblygu cynnig proffesiynol ar gyfer y Gymraeg wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru (3-16) a chryfhau'r cydweithio/trosgwlyddo o'r cynradd i'r uwchradd:**
Rhannwyd cyflwyniad mewn fforymau penaethiaid, mewn cyd-weithrediad â'r ALl, er mwyn amlygu'r Gymraeg fel elfen statudol o'r CiG. Mae hyn wedi bod yn fodd o godi proffil y Gymraeg ymysg y penaethiaid ac yn gyfle i amlygu'r angen i roi'r Gymraeg yn rhan o ddyluniad eu cwricwlwm.

Trwy gyfarfodydd Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg (mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg) rhoddir cefnogaeth i arweinwyr wireddu CiG yn effeithiol a bydd adnoddau megis Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg Rhanbarth GwE (adobe.com) yn rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau rhanbarthol a chenedlaethol ac mae hyn yn ddull effeithiol a chyfoes o rannu diweddariadau ac yn hylaw ar gyfer cynnwys dolenni perthnasol i'r penaethiaid adran allu rhaeadru ymhellach

Cynhaliwyd gweithdai mewn HMS pontio cynradd uwchradd i er mwyn cydweithio gydag arweinwyr i ystyried y modd y mae'r broses o asesu cynnydd y dysgwr yn y Gymraeg yn cyfrannu tuag at ddatblygu'r darlun cyfannol o'r dysgwr. Rhoddwyd cefnogaeth ac arweiniad i arweinwyr mewn adrannau y Gymraeg ysgolion uwchradd ar draws y rhanbarth i sicrhau bod dilyniant ieithyddol dysgwyr yn y Gymraeg yn rhan annatod o'r gweithgareddau dysgu sy'n arwain at ddealltwriaeth o'r DHSB

Daw ceisiadau ar gyfer cefnogi ysgolion penodol i law drwy'r ALl (uwchradd cyfrwng Saesneg) ac sicrheir bod unrhyw gefnogaeth yn plethu i gynllun cefnogaeth yr ysgol ac mewn ymgynghoriad gyda'r YCG perthnasol.

**Datblygu'r medrau**

***Ein Llais Ni***
Mae 80+ o athrawon wedi cyflwyno'r astudiaethau achos sydd yn rhoi sylw i effaith ar yr addysgu a'r dysgu wrth ymdrin ag amrywiol themâu. Cyflwynwyd cais pellach i ehangu Ein Llais Ni i ysgolion cyfrwng Saesneg sydd wedi ei gymeradwyo gan Llywodraeth Cymru. Mae ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws y rhanbarth wedi cael y cyfle i gyflwyno cais yn mynegi diddordeb mewn bod yn rhan o beilot bach o ysgolion yn datblygu'r gwaith ar gyfer y sector. Bwriedir hyrwyddo'r gwaith ymhellach yn rhanbarthol a chenedlaethol, sicrhau momentwm a phroffil uchel i'r gwaith a chydweithio'n agos gyda grŵp o athrawon arweiniol fydd yn enghreifftio arferion llwyddiannus ymhellach. Mae effaith y gwaith yn cael ei nodi mewn adroddiadau gan Estyn ar lefel ysgol ac awdurdod.

Mae adnodd Dysgu Proffesiynol ar ffurf gwefan wedi ei lunio www.einllaisni.cymru yn coladu'r adnoddau ac yn rhoi arweiniad ar ddulliau effeithiol o arwain y maes ac o gynllunio ar gyfer rhoi lle blaenllaw i lafaredd. Mae hyn wedi ei rannu yn genedlaethol ac mi fydd yn rhan o ddarpariaeth traws-gonsortia fydd ar gael i ysgolion led led Cymru. Cyflwynwyd adroddiad ymchwil Prifysgol Bangor sy'n gwerthuso effeithiolrwydd prosiect ELlN, gyda golwg ar adnabod heriau penodol a wynebir o fewn ysgolion o ran y ffordd orau o gael plant i ddefnyddio eu Cymraeg a'r Sgiliau sy'n gysylltiedig a'i defnyddio. Mae myfyriwr o Brifysgol Bangor wedi cydweithio'n agos gyda'r Athro Enlli Môn Thomas ac wedi ymchwilio i'r maes sydd wedi arwain at gynhyrchu llyfryn ar gyfer ymarferwyr sy'n gyfeirlyfr cyflym i athrawon ar ddatblygu sgiliau llafaredd plant a phobl ifanc – O Enau Plant. Mae'r adborth cychwynnol i'r adnodd yn gadarnhaol iawn a sylw cenedlaethol wedi ei roi iddo mewn amrywiol fforymau.

Cynhaliwyd digwyddiad 'Ein Llais Ni: Datblygu Siaradwyr y Dyfodol' mis Tachwedd 2022 a chafwyd cyfraniad gwerthfawr gan ysgolion fu'n rhan o'r gwaith. Cafwyd cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, Bwrdd Rheoli Ein Llais Ni, Prifysgol Bangor – darlithwyr a myfyrwyr, Swyddogion Awdurdodau Lleol, athrawon o ysgolion presennol y prosiect ac eraill sydd â diddordeb yn y prosiect.Cafwyd adborth cadarnhaol dros ben ar ôl y diwrnod.

Mae addysgu llafaredd yn rhan o gynlluniau cydweithio clwstwr penodol sydd wedi arwain at drafodaethau gwerthfawr am addysgeg, dilyniant, asesu a'r profiadau cyfoethog ar draws yr ystod oed a rhwng y cynradd a'r uwchradd.

***Llythrennedd***:
Rhoddwyd cyflwyniad mewn cyfarfod rhwydwaith ranbarthol uwchradd ar yr elfen fandadol o ddatblygu Llythrennedd wrth gyflwyno'r CiG ac arweiniodd hyn at godi ymwybyddiaeth o'r angen i'w gynnwys yn nyluniad cwricwlwm pob ysgol.

Bu Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE yn cydweithio ar ddatblygu a threialu'r 'Strategaeth 6 Cham' ar gyfer cynllunio'n strategol er mwyn hyrwyddo'r sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws y cwricwlwm ac o ganlyniad i gyflwyno'r strategaeth hon i gydlynwyr a Phenaethiaid lluniwyd adnodd i gefnogi a chynorthwyo Cydlynwyr Llythrennedd ar draws y rhanbarth i fapio'r ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd yn strategol ar draws y cwricwlwm

**Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg - 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus':**
Mae ysgolion uwchradd y rhanbarth wedi cael gwahoddiad i ymuno yn y prosiect cenedlaethol ar gyfer lledaenu gwaith y Siarter Iaith i'r uwchradd. Mae cyfarfodydd rhanbarthol ar gyfer cydlynwyr Siarter Iaith a Chymraeg Campus wedi eu cynnal sydd wedi arwain at rannu diweddariadau mewn perthynas â'r heriau a'r datblygiadau.

Cynhaliwyd dau gyfarfod cenedlaethol ar gyfer cytuno ar gyfeiriad strategol i'r Fframwaith Siarter Iaith. Cafwyd trafodaethau pwrpasol ar yr argymhellion a nodwyd yng ngwerthusiad 2020 o'r Siarter Iaith, cyd-weithio cenedlaethol er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'r cyllid, diffinio bwriad y Siarter Iaith (gan gynnwys Cymraeg Campus), codi statws y Fframwaith a'i hyrwyddo, yr heriau a datrysiadau posib ar gyfer sicrhau defnydd effeithiol a phwrpasol ohono.

Rhoddwyd cefnogaeth i ysgolion cyfrwng Saesneg sydd wedi creu rolau newydd, megis Cydlynydd Dwyieithrwydd neu Bencampwr y Gymraeg, ac o ganlyniad i'r gefnogaeth hon rhoddwyd arweiniad ymarferol i ysgolion.

**Hyrwyddo proffil y Gymraeg ymysg arweinwyr wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a tharged Miliwn o Siaradwyr LlC.**
Mae canllaw i gefnogi arweinwyr ysgolion wrth gynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg wedi cael ei ddatblygu a'i rannu drwy fforymau penaethiaid cynradd ac uwchradd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth gynyddol o'r angen i gynllunio yn strategol ar gyfer y Gymraeg, sicrhau rhaglen ddysgu proffesiynol bwrpasol yn ogystal â phrofiadau cyfoethog er mwyn datblygu'r medrau.

Mae rhestr chwarae wedi ei addasu o adnodd rannwyd gan CCD er mwyn cefnogi arweinwyr ysgolion i adrodd yn gywir ar sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr yn erbyn y Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg wrth gwblhau Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) ac i gynllunio dysgu proffesiynol addas i

ddatblygu cymhwysedd iaith pob ymarferydd yn strategol. Mae'r adnodd wedi ei rannu drwy'r Bwletin ac wedi tynnu sylw swyddogion awdurdodau ato mewn cyfarfod rhanbarthol fel bod modd ei hyrwyddo ymhellach.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chymdeithion o'r Academi Arweinyddiaeth, ASyG y rhanbarthau, Swyddogion LlC ac Estyn i drafod arweinyddiaeth a'r Gymraeg. Mae hyn wedi arwain at gyd-ddealltwriaeth o ddarpariaeth ar draws Cymru ar gyfer yr amrywiaeth o fewn y maes gan arwain at gytundeb fod angen cyd-lunio adnodd i i gefnogi hunan-werthusiad o'r Gymraeg ac i ddatblygu arweinyddiaeth y Gymraeg cynnig cyfres o gwestiynau i arweinyddion eu hystyried wrth hunan-werthuso eu taith i ddatblygu'r Gymraeg yn eu hysgol. Y nod yw bod arweinyddion yn defnyddio'r cwestiynau hyn ochr yn ochr â'r adnodd cenedlaethol: gwerthuso a gwella wrth hunan-werthuso er mwyn sicrhau bod datblygiad y Gymraeg o fewn pob ysgol yn cael sylw penodol.

Trwy'r prosiect 'Dylunio ar gyfer ieithoedd CiG' (prosiect dan arweiniad yr Athro Jenny Eddy o Goleg Queens, Efrog Newydd) bu i arweinwyr nifer o adrannau y Gymraeg ysgolion uwchradd y rhanbarth gael cyfle i ddefnyddio ymchwil rhyngwladol er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o fodelau dylunio cwricwlwm a chreu eu modelau eu hunain ar gyfer y Gymraeg o fewn MDaPh ILlaCh yn rhan o ddyluniad cwricwlwm ysgol gyfan. Cynhaliwyd digwyddiad yn Venue Cymru i'r arweinwyr a'r ysgolion a fu'n rhan o'r prosiect arddangos ffrwyth eu llafur yn rhan o'r prosiect uchod a bydd y modelau dylunio cwricwlwm ar gyfer y Gymraeg a'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael eu rhannu'n rhanbarthol.

O ganlyniad i'r prosiect uchod bu trafodaethau â'r Brifysgol / CABAN ynglŷn â'r posibilrwydd o gyflwyno'r egwyddorion a'r ymchwil yn rhan o arlwy cyrsiau TAR y dyfodol a bu'r digwyddiad 'Athrawon fel dylunwyr – Cynllunio rhyngddisgybliaethol' (Venue Cymru) yn fodd i gyflwyno'r ymchwil a modelau dylunio adrannau y Gymraeg y rhanbarth i fyfyrwyr cyrsiau TAR cynradd ac uwchradd y Brifysgol eleni.

**Datblygu'r gweithlu Cymraeg a chyfrwng Cymraeg - sgiliau iaith y gweithlu addysg:**
Mae gwaith clwstwr wedi mynd rhagddo ar draws y rhanbarth ac arferion cryf ac effeithiol wedi eu rhannu mewn ambell ALl. Cyflwynwyd templed ar gyfer coladu a rhannu arfer effeithiol ac mae enghreifftiau o'r gweithredu a'i effaith yn dechrau cael eu rhannu gan y clystyrau.

Mae perthynas gadarn ac adeiladol iawn rhwng GwE, Canolfan Bedwyr, Llywodraeth Cymru a'r ALl sy'n arwain at gryfhau'r ddarpariaeth i gefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith. Mae hefyd cyswllt cryf rhwng GwE a'r Coleg Dysgu Cymraeg Cenedlaethol sy'n sicrhau cyfle i hyrwyddo cyrsiau ar-lein ar gyfer ymarferwyr. Mae GwE wedi hyrwyddo darpariaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac wedi derbyn ystadegau yn nodi ymrwymiad ysgolion y rhanbarth i'r hyfforddiant sydd ar gael. Fel rhan o'r "chwilotwr" ar ei safle we, mae'r Ganolfan wedi ychwanegu opsiwn i ymarferwyr addysg nodi eu diddordeb mewn dysgu Cymraeg / datblygu eu sgiliau Cymraeg trwy'r Cynllun Sabothol. GwE yn derbyn manylion yr ymarferwyr hynny sydd wedi nodi eu diddordeb hyd yma fel bod yr ALl yn ymwybodol ohonynt ac yn medru asesu eu haddasrwydd neu gynnig cefnogaeth amgen.

## SAFON UWCH

**Datblygu arweinwyr effeithiol**
Darparwyd Rhaglen Hyfforddiant Arweinyddiaeth Ganol (Ôl-16) gydag opsiwn i gael achrediad ILM Lefel 5. Cynhaliwyd y sesiwn dorfol wyneb-i-wyneb gyntaf ar 18.10.22 ac yna sesiynau hybrid 23.11.22, 26.1.23 a 7.3.23. Mae 6 Pennaeth 6ed dosbarth o'r rhanbarth wedi cwblhau'r cwrs cenedlaethol.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwydweithiau Penaethiaid 6ed dosbarth ble roedd cyfleoedd i rannu arferion llwyddiannus, mynegi a thrafod pryderon a chyfrannu at arlwy'r gynhadledd. Mae'r rhwydweithiau yma wedi cael eu croesawu gan yr arweinwyr.

Cynhaliwyd Cynhadledd Arweinyddiaeth Ôl-16 GwE ar 3/3/23. Lluniwyd y rhaglen ar sail gofynion y Penaethiaid 6ed a blaenoriaethau 22/23. Roedd hyn yn cynnwys prif anerchiad gan Vanessa Jenkins (Trauma Informed Schools) ar gefnogi myfyrwyr gan sicrhau hunan-ofal hefyd; gweithdai gan VESPA (Creu Dysgwyr Annibynnol: Adnoddau a gweithgareddau ar gyfer cefnogi gweithgarwch a chodi disgwyliadau); ALPS (Defnydd effeithiol o Alps Connect i adnabod blaenoriaethau ac i uchafu cyflawniad myfyrwyr); TIS (Awgrymiadau ymarferol ar redeg grwpiau myfyrio strwythuredig a diogel ar gyfer staff a myfyrwyr); E-sgol a Phenaethiaid 6ed y rhanbarth yn rhannu arferion llwyddiannus ar ehangu gorwelion y myfyrwyr a phrofiadau mewn arolwg Estyn.

**Cefnogi ysgolion i fonitro cynnydd myfyrwyr ôl-16:**
Mae 17 o ysgolion y rhanbarth yn gwneud defnydd effeithiol o ALPS i dracio cynnydd dysgwyr yn ystod y flwyddyn ysgol. Darparwyd hyfforddiant ALPS ar-lein i ysgolion y rhanbarth, 3 sesiwn olynol: Cyflwyniad i ALPS; Defnyddio ALPS i olrhain cynnydd ar lefel pynciol a dysgwr yn effeithiol; Defnyddio ALPS Connect yn effeithiol i ddadansoddi canlyniadau a chynllunio gwelliant.Cynhaliwyd gweithdy ALPS yn y gynhadledd arweinyddiaeth Ôl-16 er mwyn ysgogi defnydd tymhorol o'r offeryn i dracio cynnydd mewnol mewn ysgolion.Yn ogystal, rhoddir cefnogaeth ysgol i ysgol ar ddefnydd effeithiol o ALPS yn ôl y gofyn.

**Cefnogi ysgolion i ddarparu amrediad o ddulliau i hyrwyddo lles eu dysgwyr**
Mae cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid 6ed dosbarth wedi rhoi cyfleoedd i rannu arferion da VESPA/Bloom a mynegi unrhyw bryderon cyffredinol am les dysgwyr.Cafwyd anerchiad gan 'Trauma Informed Schools' yn y gynadledd yn ogystal a gweithdy penodol. Mae trefniadau er y gweill i gynnig cyfres o weithdai hyfforddiant VESPA ar-lein yn ystod tymor yr Haf 2023.

## YMCHWIL A GWERTHUSO

**Prosiect Ymchwil Gwrth-fwlio KiVa**
Yn rhan o ymdrech barhaus GwE i seilio polisïau ac arferion ar ddulliau sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth, gwnaethpwyd y prosiect hwn gydag ysgolion yng ngogledd Cymru i werthuso effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd rhaglen gwrth-fwlio Kiva o ran lleihau nifer yr achosion o fwlio sy'n cael eu hadrodd gan blant yn ysgolion y DU o gymharu â'r drefn arferol. Mae GwE yn gyd-ymgeisydd ar y prosiect ymchwil ar raddfa fawr hwn i arfarnu effaith rhaglen gwrth-fwlio KiVa mewn ysgolion cynradd. Yn dilyn atal y prosiect oherwydd pandemig COVID-19, mae 30 ysgol yng ngogledd Cymru wedi'u recriwtio ar gyfer yr astudiaeth.

Yn ôl y canfyddiadau, roedd bwlio mewn ysgolion ymyrraeth KiVa yn sylweddol is, yn ystadegol, o gymharu ag ysgolion rheoli. Dyma ganlyniad pwysig yn rhyngwladol, a bydd yn rhan o bapur ar gyfer cyfnodolyn 'The Lancet' sydd i'w gyhoeddi yn 2023. Mae'r prosiect eisoes wedi cynhyrchu papur protocol ar yr astudiaeth ble mae'r tîm ymchwil yn disgrifio'r treial yn fanwl i ymchwilwyr eraill. Gellir gweld canfyddiadau llawn yr astudiaeth drwy lawr lwytho'r papur agored gan ddefnyddio'r ddolen hon:

**The UK stand together trial: protocol ar gyfer hap-dreial clwstwr aml-ganolfan, wedi'i reoli, i werthuso effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd KiVa o ran lleihau bwlio mewn ysgolion cynradd**

Unwaith y cyhoeddir prif ganfyddiadau'r astudiaeth, bydd y tîm ymchwil yn cynllunio cyfres o sesiynau rhannu a sesiynau gwybodaeth i ysgolion i helpu i droi'r canfyddiadau hyn yn arferion pob dydd. Mae pedair o ysgolion GwE wrthi'n helpu gyda'r gwaith rhannu hwn.

**Prosiect Parodrwydd Cadarnhaol ar gyfer Dysgu (PR4L): Gwyddonwyr Ymddygiadol mewn Clystyrau**
Nod y prosiect hwn yw darparu hyfforddiant a mentora personol i athrawon yn y dosbarth er mwyn rhoi hyder a chysondeb iddynt wrth roi sylw i ymddygiad trafferthus yn y dosbarth.

Anogir athrawon a staff ysgolion i adnabod a chydnabod ymddygiad cadarnhaol myfyrwyr ac ymateb yn gyson i ymddygiad heriol. Nod y prosiect yw canolbwyntio ar ysgolion sydd â phroblemau parhaus gyda naill ai tarfu ar lefel isel ac/neu staff sydd arnynt eisiau gwybod mwy am strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth (y cyntaf o ddewis, i ddangos effaith). Er enghraifft, cyfarfod â staff i wella'u dealltwriaeth o strategaethau rheoli ymddygiad haen 1 (cyffredinol).

Gohiriwyd dechrau'r prosiect oherwydd penodwyd staff ymchwil newydd. Nawr bod y staff wedi'u cadarnhau, mae'n fwriad gennym wahodd un ysgol gynradd fawr o bob ALl i gychwyn ar y prosiect ym mis Mehefin 2023 hyd fis Gorffennaf 2024. Bydd y chwe ysgol bartner yn elwa o gael ymweliad dyddiol gan wyddonydd ymddygiadol am un tymor. Bydd tîm y prosiect yn gwerthuso'r effaith ar ymddygiad dysgwyr ac hefyd yn ysgrifennu adroddiad ar effaith yr astudiaeth achos.

**Ymchwil Darllen ADY KESS**
Dyma gynnig i hyd at 4 ysgol AAA yn rhanbarth ddwyreiniol KESS i gydweithio â ni ar brosiect MRes KESS2 wedi'i ariannu, o fis Hydref 2022 - Mehefin 2023. Bydd hyn yn cynnwys Prifysgol Bangor, GwE ac ysgolion AAA yn y rhanbarth. Bydd y myfyriwr MRes a goruchwylwyr yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion i gynnal archwiliad ac adolygiad cyflym o'r dulliau asesu ac ymyrraeth a ddefnyddir, byddant yn edrych ar brofiadau a barn staff o'r ddarpariaeth gyfredol, myfyrio ar y canfyddiadau, yr arferion presennol, a syniadau am sut i'w datblygu ymhellach a'u gwerthuso. Gobeithio y bydd y prosiect cydweithredol hwn yn ein galluogi ni i ddatblygu ymhellach a gwerthuso arferion cryf, yn ogystal ag adnabod meysydd i ddatblygu'r ddarpariaeth i helpu gwella deilliannau darllen i ystod eang o ddysgwyr.

Gohiriwyd dechrau'r prosiect oherwydd penodi myfyriwr meistr KESS. Ar ôl hysbysebu ddwywaith, penodwyd myfyriwr ym mis Mawrth 2023 a chynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gydag arweinwyr craidd GwE i adnabod ysgolion. Cadarnheir yr ysgolion ym mis Mai 2023.

**Economeg Iechyd a Chyllidebu Rhaglenni a Dadansoddi Ymylol (PBMA)**
Nod y prosiect hwn yw cefnogi a datblygu prosesau penaethiaid ar gyfer gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio methodoleg gwneud penderfyniadau o'r enw Cyllidebu Rhaglenni a Dadansoddi Ymylol (PBMA). Mae PBMA yn adnodd ar gyfer mynd i'r afael ag adnoddau prin mewn lleoliadau iechyd ac addysg ac yn rhoi fframwaith cliriach o gysyniadau ar gyfer y dasg anodd o reoli adnoddau prin gyda gofynion sy'n cystadlu. Yn y prosiect, y nod fu ymchwilio a yw ysgolion yn cynhyrchu data effeithiolrwydd a dilysrwydd cymdeithasol cadarn i gefnogi ymyraethau a helpu arweinwyr ysgolion i ystyried cysyniadau gwerth am arian. Y nod hefyd yw gwerthuso effaith y prosiect drwy gadw golwg ar newidiadau yn y ddarpariaeth, a gwerthuso sut mae penaethiaid yn defnyddio adnodd gwneud penderfyniadau. Mae chwe ysgol wedi bod yn cymryd rhan yn y gwaith eleni:

Mae'r ymchwilydd wedi ymweld â phob un o'r ysgolion hyn i gyfarfod â'r pennaeth i gasglu data am gostau ac effeithiolrwydd yn erbyn ystod o ymyraethau a rhaglenni y dymunant edrych arnynt. Bydd pob ysgol yn cael adroddiad PBMA ym mis Mai 2023. Bryd hynny, gallwn werthuso'n llawn effaith y broses PBMA ar brosesau gwneud penderfyniadau penaethiaid. Mae proses PBMA ddilynol, ar raddfa fwy, ar y gweill ar gyfer Tymor yr Haf 2023. Edrychir ar fwy o ymyraethau/rhaglenni mewn ysgolion.

## AGA

**Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)**

Cryfheir cysondeb rhanbarthol trwy gydweithredu cadarn rhwng GwE a CaBan. Mae hyn yn sicrhau dull cyffredin o ran ymchwil, dysgu proffesiynol a gwell integreiddiad fel sefydliad sy'n dysgu ar draws y rhanbarth.O ganlyniad i ddulliau diwylliannol cyson y ddau sefydliad, caiff athrawon fynediad at uwchsgilio cyfoes ac ystyrlon wrth iddynt symud ymlaen yn eu gyrfa, ac mae rhaglenni a dysgu yn benodol i anghenion unigryw y rhanbarth, yn ogystal ag ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol.Mae hyn yn helpu i gadw athrawon, yn y pen draw.

Ail-luniwyd meini prawf newydd ar gyfer achrediad cenedlaethol AGA, i gynnwys ADY AGA. Mae cyfarfodydd achredu wedi'u cynnal ac mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) wedi darparu arweiniad pellach a chamau nesaf. Cyflwynir rhaglenni ADY AGA yn llawn ym mis Gorffennaf 2023 i'w hachredu o fis Medi 2024; mae'n bosib mai'r rhain fydd rhaglenni ADY AGA cydnabyddedig cyntaf Cymru. Mae cyfarfodydd efo LlC a CGA yn parhau er mwyn cael cyngor perthnasol a sicrhau bod rhaglenni yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgwr bregus ac ADY. Ffocws dogfennau a ddatblygir ar hyn o bryd yw gwneud y rhaglenni yn gydnaws â'r meini prawf achredu newydd (sydd bellach yn cynnwys ADY) a'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.

Mae 14 o aelodau staff GwE wedi cyflwyno sesiynau ar raglenni AGA CaBan y tymor hwn; roedd y rhain yn cynnwys darlithoedd a gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb, a phrif ddarlith. Ffocws y rhain oedd addysgeg, y Cwricwlwm i Gymru, Hawliau Dynol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, sgiliau digidol, dylunio a chynllunio cwricwlwm, llythrennedd a rhifedd a phontio. Mae sesiynau pellach ar y gweill yn nhymor yr haf. Mae dysgu proffesiynol bellach yn fwy cyson, o AGA i ANG a Chynnig Proffesiynol GwE (a'r Cynnig Cenedlaethol yn y pen draw).

Mae cyfleodd pellach ar y gweill ar gyfer dysgu proffesiynol a phrosiectau ar y cyd gan gynnwys Ein Llais Ni - y bwriad yw cynnwys sesiynau i fyfyrwyr i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r prosiect ac yn gallu rhoi'r camau ar waith. Bu cydweithio i ddatblygu Ieithoedd Rhyngwladol, yn enwedig yn y rhaglenni Cynradd, gan gynnwys datblygu Ymchwil ac addysgeg iaith. Mae athrawon newydd sydd yn dod i mewn i'r proffesiwn mewn gwell sefyllfa i addysgu a rhannu ymhellach eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ymchwil, y Cwricwlwm i Gymru, addysgeg a'u sgiliau ar draws continwwm y Gymraeg.

Bu staff GwE yn rhan o gyfarfodydd sicrhau ansawdd CaBan. Mae cyfleoedd ar y gweill trwy gydol y flwyddyn academaidd i sicrhau ansawdd a chyfoethogi ansawdd ar y cyd, er enghraifft astudiaethau gwersi a monitro mewn ysgolion arweiniol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag ysgolion yn ogystal â staff CaBan a GwE.

**Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)**

Cefnogir ANG yn gyson ar draws y rhanbarth, gan gynnwys trwy eu mynediad at ddysgu proffesiynol. Darparwyd rhaglen lawn o hyfforddiant ANG cenedlaethol, a chyfoethogir hyn ymhellach trwy hyfforddiant rhanbarthol sydd yn datblygu negeseuon allweddol hyfforddiant Cenedlaethol tymor yr hydref. Sicrheir cysondeb a chydweithredu trwy gyfarfodydd rheolaidd gyda chyd-weithwyr consortia yn genedlaethol, a rhennir negeseuon allweddol yn rhanbarthol mewn cyfarfodydd lleol rheolaidd iawn. Mae 216 ANG wedi mynychu, sef oddeutu 72% o garfan eleni.

Bu i'r nifer uchaf erioed o ANG fynychu sesiynau mandadol 1 a 2 ym mis Medi/Hydref 2022, a mynychodd

dros 1000 ANG sesiwn 1 ar-lein (70% o garfan genedlaethol 2022/23). Roedd 223 ANG o ranbarth GwE ymhlith y rhain, mae hyn yn 78% o garfan y rhanbarth.

Roedd cynnydd sylweddol yn nifer (%) yr athrawon cyflenwi byrdymor (STS) oedd yn bresennol yn sesiynau cenedlaethol 1 a 2 y rhaglen dysgu proffesiynol. Roedd 51 (81%) athro cyflenwi byrdymor newydd gymhwyso sydd mewn gwaith yn Sesiwn 1, sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cafodd Trefniadau Sefydlu newydd LlC ar gyfer Cymru eu cyflwyno yn llwyddiannus ym mis Tachwedd 2022. Trwy weithio'n agos efo'r 6 Arweinydd ANG ALl rhannwyd gwybodaeth ac adnoddau o ran rheoliadau newydd LlC. Roedd trefniadau yn rhoi sylw i rolau a chyfrifoldebau, cyllid, Dysgu Proffesiynol a chwblhau cyfnod Sefydlu yng Nghymru.

Mae cydweithio ar draws y consortia â'r arweinwyr ANG Rhanbarthol yn parhau i wella a datblygu, ac mae rannu arferion da ac adnoddau yn digwydd ar hyd a lled Cymru.

Bu creu cysylltiad agosach ag asiantaethau athrawon llanw yng ngogledd Cymru yn flaenoriaeth, ac rydym wedi cael dau gyfarfod i geisio sicrhau eu bod yn deall eu rôl gyda'r ANG yn llawn.

**Y Brifysgol Agored (BA)**
Mae'r cydweithio â'r BA yn parhau trwy gyfarfodydd partneriaeth rheolaidd. Mae'r ddarpariaeth wedi'i diweddaru a'i gwella i gynnwys cyllid pellach i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau uwchradd.Mae rhannu gwybodaeth wedi digwydd ac mae gweithgarwch pellach ar y gweill i ddiweddaru rhanddeiliaid. Gall myfyrwyr gymhwyso fel athrawon mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys rhaglenni seiliedig ar waith drwy'r Brifysgol Agored yn ogystal â'r llwybr traddodiadol i AGA.

**Darpariaeth y Gymraeg**
Mae cydweithio cadarn yn parhau i wella darpariaeth y Gymraeg, megis drwy brosiect llafaredd Ein Llais Ni. Roedd bron i 100 o ysgolion cyfrwng Cymraeg y rhanbarth yn rhan o gam cyntaf y prosiect hwn, gan gynnwys rhai ANG, a rhyw ugain o fyfyrwyr ar eu trydedd flwyddyn yn ein digwyddiad Ein Llais Ni ym mis Tachwedd. Mae gan ysgolion fynediad at yr ymchwil diweddaraf a'r arferion gaiff effaith wrth wella Addysgeg Llafaredd Cymraeg.

## DIGIDOL

**Datblygu arweinyddiaeth ddigidol mewn ysgolion rhanbarthol**
Mae’r rhaglen hwyluswyr digidol yn parhau i ddatblygu. Cynhaliwyd cyfarfod unigol gyda phob hwylusydd yn ystod mis Tachwedd i drafod cynnydd y rhaglen ym mhob clwstwr. Mae 79% o glystyrau’r rhanbarth wedi ffurfio gweithgor dysgu digidol i arwain agweddau strategol ar y maes. Mae 67% o’r clystyrau wedi llwyddo i lunio gweledigaeth a rennir gan bob ysgol o’r clwstwr, sy’n cysoni amcanion pob ysgol ac yn gosod sylfaen i unrhyw waith cydweithio. Mae 66% o glystyrau’r rhanbarth wedi sefydlu trefn ble mae’r hwylusydd digidol yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i Benaethiaid y clwstwr. Rydym yn hyderus fod y rhaglen wedi symud yn ei blaen yn llwyddiannus. Byddwn yn cynnig mwy o gefnogaeth unigol i hwyluswyr digidol / clystyrau sydd yn cael trafferthion sefydlu gweithgor er mwyn sicrhau fod y gwaith yn mynd rhagddo yn effeithiol. Mae 77% o glystyrau wedi nodi bod cyfathrebu wedi cryfhau o fewn y clwstwr o ganlyniad i’r rhaglen gyda sianeli cyfathrebu digidol wedi’u gwreiddio i sicrhau fod trafodaethau a rhannu profiadau yn gallu parhau yn rheolaidd. Mae nifer o glystyrau wedi llwyddo i wreiddio’r rhaglen yn llwyddiannus yn eu clwstwr ac yn enghraifft o weithgorau sydd yn gweithredu’n effeithiol yn ystod camau cyntaf y rhaglen. Mae’r clystyrau hyn wedi gwneud cynnydd arbennig mewn perthynas â’r gwaith ac yn dylunio syniadau arloesol ar sut i

gydweithio fel clwstwr i ddatblygu agweddau ar y maes. Mae nifer ohonynt wedi darparu astudiaeth achos i Llywodraeth Cymru i drafod eu cynnydd. Cynhaliwyd diwrnod o hyfforddiant ar gyfer yr hwyluswyr digidol yn ystod chwarter 4 oedd yn canolbwyntio ar adnabod y mannau twf o fewn clystyrau, gyda'r bwriad o lunio adroddiad ar gynnydd y clwstwr mewn perthynas â'r mannau twf hyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

**Darparu rhaglen o ddysgu proffesiynol i ddatblygu cyfleoedd i godi safonau mewn cymhwysedd digidol drwy Hwb.**
Mae'r cynnig dysgu proffesiynol digidol yn edrych yn llwyddiannus hyd yma, gyda 386 o ymarferwyr wedi cofrestru i ddod i sesiynau hyfforddi. Cynhaliwyd hyfforddiant trin data, modelu, Google lefel 1, adrodd stori yn ddigidol a chymhwysedd digidol yng ngham cynnydd 1 a 2 yn ystod chwarter 4. Mae'r adborth yr ydym yn ei dderbyn yn dilyn yr hyfforddiant wedi bod yn hynod o gadarnhaol gyda nifer o athrawon yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael amser i edrych mewn dyfnder ar wahanol feddalwedd yn ogystal â chael arweiniad ar addysgeg effeithiol a sut i wneud defnydd effeithiol o'r gwahanol feddalwedd mewn gwahanol gyd-destunau cwricwlaidd. Cynhaliwyd diwrnod cyntaf rhaglen hyfforddiant arweinyddion digidol yn ystod chwarter 4 ar gyfer yr ail garfan o athrawon, gyda'r ail ddiwrnod wedi ei gynllunio i edrych ar effaith y gwaith a osodwyd yn ystod y diwrnod cyntaf. Bwriad y rhaglen hon yw sicrhau bod capasiti arweinyddol yn cael ei feithrin o fewn y clystyrau a bod mwy o unigolion wedi eu huwchsgilio er mwyn cefnogi gwaith yr hwyluswyr digidol. Cynhaliwyd cynhadledd Cadw'n Ddiogel Ar-lein ar y cyd â Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth, a mynychodd 95 o ymarferwyr.

**Gwreiddio 360 Digi Cymru fel prif adnodd hunan arfarnu dysgu digidol y rhanbarth.**
Mae 283 o ysgolion y rhanbarth bellach wedi cofrestru ar system hunan arfarnu dysgu digidol, 360 Digi Cymru. Mae 154 o ysgolion wedi ailymweld â'r system er mwyn diweddaru eu gwerthusiad. Rydym yn parhau i annog ysgolion i ymgysylltu â'r adolygiad hwn. Rydym wedi recordio pecyn o weminarau i sicrhau bod cefnogaeth ar gael ar alw i ysgolion allu ymgysylltu. Fel rhan o'r rhaglen hwyluswyr digidol, mae'r hwyluswyr yn gyfrifol am annog y defnydd o'r system hunan arfarnu gan ofyn i bob ysgol yn eu clwstwr i gwblhau'r adolygiad dros y tymor nesaf. Bydd y data yn cael ei drafod ar lefel clwstwr er mwyn dod o hyd i gryfderau o fewn y clwstwr yn ogystal ag agweddau cyffredin i'w datblygu. Mae'r data a fewnbynnwyd i'r system ar gyfartaledd yn dangos sgôr o 2.8 allan o 4; 1 yw'r sgôr cryfaf a 4 yw'r gwannaf. Mae'r sgôr hwn yn gyson â lefelau Cymru gyfan.

**Cefnogaeth i'r sector uwchradd**
Yn ystod chwarter 4, lansiwyd y strategaeth chwe cam i gefnogi ysgolion uwchradd i lunio a gweithredu strategaeth ysgol gyfan i ddatblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws yr ysgol. Mae 12 o ysgolion uwchradd bellach wedi derbyn cefnogaeth unigol mewn perthynas â hyn wrth i ni dreialu'r strategaeth. Mae'r ymateb i'r strategaeth wedi bod yn hynod o gadarnhaol hyd yma, gyda'r ysgolion yn gwerthfawrogi'r arweiniad ar lefel strategol i wreiddio strategaeth ysgol gyfan i ddatblygu'r maes. Mae'r mwyafrif o ysgolion bellach wedi cwblhau cam 2 o'r 6, sef dylunio eu strategaeth ar gyfer datblygu'r maes. I gefnogi hyn rydym wedi dylunio nifer o fapiau cynnydd sy'n dangos sut y dylai cynnydd dysgwr edrych o gam cynnydd 1 hyd at gam cynnydd 5. Hyd yma rydym wedi creu mapiau cynnydd ar gyfer yr agweddau canlynol: creu podlediadau, trin data, animeiddio, creu fideo, graffeg. Mae'r ymateb wedi bod yn wych hyd yma gyda nifer o ymarferwyr yn nodi bod yr adnoddau hyn yn werthfawr fel cymorth i athrawon gynllunio profiadau uchelgeisiol sy'n addas i bwrpas ac yn adeiladu ar sgiliau blaenorol y dysgwyr.

## MATHEMATEG A RHIFEDD

Mae ystod o rwydweithiau a fforymau yn weithredol i gefnogi arweinwyr yn y sector uwchradd, ar bob lefel, i fod yn arwain yn fwy hyderus ac effeithiol ar addysgeg. Mae hyn yn cynnwys rhwydwaith dysgu ac addysgu

ar gyfer uwch arweinwyr a phenaethiaid adran pynciau craidd. Mae tystiolaeth bod cydweithio o fewn rhwydweithiau wedi bod yn gryfder neilltuol ac ymarferwyr yn cefnogi ei gilydd wedi bod yn allweddol i sicrhau cysondeb yn y dull dysgu ac addysgu mewn ysgolion uwchradd.

Ffocws y rhwydweithiau pwnc oedd cefnogi arweinwyr canol i arwain y dysgu a'r addysgu; hwyluso a chefnogi cydweithio cymheiriol a grymuso prosesau a gweithdrefnau arfarnu a chynllunio gwelliannau; meithrin gwell dealltwriaeth o gynllunio ac addysgeg yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd; gwella rhaglenni ymyrraeth ym meysydd llythrennedd a rhifedd ynghyd â chefnogi agweddau penodol ar baratoi at arholiadau ac asesiadau CA4 a CA5. Caiff gwaith y rhwydweithiau ei werthfawrogi'n fawr gan arweinwyr uwchradd a gwneir defnydd effeithiol o'r adnoddau safonol sydd wedi eu cyd-ddatblygu a'u cartrefu ar Ganolfan Cefnogaeth GwE, safweoedd Tanio [Gwyddoniaeth], MathsCymru [Mathemateg], Y Pair [Cymraeg] a Herio [Saesneg].

Yn dilyn cyfarfodydd rhwydwaith i Benaethiaid Mathemateg mae ysgolion unigol wedi cael cymorth pellach i weithredu dulliau amrywiol a gafodd eu trafod.

Mae effaith y rhwydweithiau pwnc yn glir ar sawl lefel ac ar draws ystod o agweddau:

- arweinwyr canol wedi'u huwchsgilio mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o fethodoleg ac ansawdd cynllunio e.e. strategaethau adalw, strategaethau i wella gwaith llafar ac ysgrifennu, defnyddio offer technegol i feithrin sgiliau pwnc ac ati
- arweinwyr canol wedi meithrin gwell dealltwriaeth a gwybodaeth o'r 12 egwyddor addysgegol a'r paratoi at y cwricwlwm newydd
- arferion da wedi cael eu rhaeadru ac yn cael eu mabwysiadu'n eang. Mae nifer sylweddol o arweinwyr wedi mynegi gwerthfawrogiad o'r cyfleoedd i rannu syniadau a datblygiadau ac i gael cefnogi ei gilydd yn broffesiynol
- defnydd cynyddol o ddeunyddiau llyfrgell ddigidol Canolfan Cefnogaeth GwE ac o'r safweoedd pwnc i wella profiadau i ddysgwyr, paratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau a pharatoi rhaglenni ymyrraeth pwrpasol
- arweinwyr ac athrawon yn fwy hyderus yn eu sgiliau digidol
- arweinwyr yn fwy hyderus gyda phrosesau pennu rhagfynegiadau, asesiadau a graddau

**Cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n destun pryder**

Mae'r YCG Mathemateg a Rhifedd Cynradd ac Uwchradd wedi darparu cymorth unigryw i ysgolion y rhanbarth, o'u hadnabod o gynlluniau cymorth. Mae hyn wedi arwain at gynllunio'n well ar gyfer dysgu ac addysgu Mathemateg a dealltwriaeth well o sut mae rhifedd yn cefnogi'r dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob ysgol sy'n destun pryder yn gwneud cynnydd cyson yn erbyn y camau gweithredu a gytunwyd, gyda staff a rhanddeiliaid yn uwchsgilio yn ystod y broses.

Cynhaliwyd ymweliadau/cyfarfodydd rheolaidd ag ysgolion i:

- Gynnal sesiynau datblygiad proffesiynol unigryw sydd wedi arwain at wella gwybodaeth a hyder staff mewn meysydd penodol e.e. defnydd ffurfiannol o'r asesiadau personol, cwestiynu effeithiol, strategaethau adolygu, cymorth i athrawon anarbenigol/ar gychwyn eu gyrfa.
- Cymorth i gydweithio ar gynllunio ac asesu cynnydd dysgwyr, sydd wedi gwella dealltwriaeth o sut i olrhain cynnydd a defnyddio data yn effeithiol.
- Cymorth i gydweithio ar brosesau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant, sydd wedi arwain at ddadansoddi ac adnabod anghenion a meysydd i'w gwella penodol yn fwy cywir.
- Rhannu adnoddau a datblygiad proffesiynol sydd yn berthnasol i anghenion yr ysgol/dysgwyr yn y

lleoliad wrth iddynt weithredu (neu dreialu) cynllunio a chyflwyno'r MDaPh Mathemateg a Rhifedd, sydd wedi arwain at wella dulliau addysgegol a dealltwriaeth o'r cwricwlwm.

**Cefnogaeth ranbarthol a CiG**

**Cyfarfodydd Rhwydwaith i Benaethiaid Mathemateg Uwchradd**

Cynhaliwyd cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid Mathemateg lleol pob tymor ym mhob ALl ble cafwyd niferoedd da. O ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn, mae ysgolion wedi bod yn rhannu arferion da, cael syniadau newydd ac adnoddau i'w defnyddio, ymgyfarwyddo'n llawn â chanllawiau cyfredol CBAC, adroddiadau arholiadau a Fframwaith Arolygu Estyn.

**Cyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Rhifedd Cyfarfodydd Rhwydwaith**

**Cynhaliwyd cyfarfodydd Rhwydwaith Cydlynwyr Rhifedd lleol ym mhob awdurdod lleol ble cafwyd niferoedd da.**

O ganlyniad, mae ysgolion wedi bod yn rhannu arferion da, cael syniadau newydd ac adnoddau i'w defnyddio ac edrych sut i greu a gweithredu strategaeth rifedd ysgol gyfan.

**Cymorth rhanbarthol penodol ar gyfer y MDaPh Mathemateg a Rhifedd**

Cynhaliodd yr YCG ddau weithdy ar-lein i gyflwyno'r MDaPh Mathemateg a Rhifedd yn Nhymor yr Haf 2022, i roi cymorth i ddadbacio'r elfennau mandadol a chynllunio ar gyfer cynnydd. Gwahoddwyd Penaethiaid Mathemateg i ddiwrnod yn Nhymor yr Haf 2022 hefyd i roi mwy o gymorth gyda'r CiG. O ganlyniad i'r sesiynau hyn, roedd ysgolion yn gallu rhannu arferion da, cydweithio ar ymgyfarwyddo â'r MDaPh Mathemateg a Rhifedd, dod i ddeall y 5 hyfedredd mathemategol yn well a'r goblygiadau i addysgeg, a bod yn gliriach ynghylch eu dealltwriaeth o'r camau nesaf sydd eu hangen ar y daith at weithredu CiG yn llawn.

**Cymorth Clwstwr MDaPh**

Cafodd YCG Cynradd ac Uwchradd geisiadau am gymorth clwstwr penodol i ddatblygu pontio effeithiol mewn mathemateg, sicrhau dealltwriaeth gyffredin rhwng clystyrau cynradd ac ysgolion uwchradd dalgylchol o'r continwwm a dysgu ac addysgu effeithiol o fewn y MDaPh Mathemateg a Rhifedd.

**Asesiadau Personol**

Mae YCG wedi parhau i gefnogi ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig y rhanbarth ar ddefnyddio'r Asesiadau Personol Ar-lein yn effeithiol. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant pwrpasol a rhannu canllawiau Llywodraeth Cymru yn ogystal â chreu a rhannu pecyn cymorth perthnasol. Mae hyn wedi sicrhau bod gan ysgolion yr wybodaeth ddiweddaraf o ran canllawiau ac arferion effeithiol.

**Pecyn sgiliau rhif sylfaenol**

Cynhyrchwyd pecyn 'Sgiliau Rhif Sylfaenol', sy'n cynnwys adnoddau dosbarth cyfan ac adnoddau unigol y gellir eu haddasu yn ôl anghenion dysgwyr ar draws y continwwm. Mae ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac yn cynnwys adran atebion. Rhydd yr adnoddau gyfle i ddysgwyr atgyfnerthu ac adolygu sgiliau sydd yn sgiliau allweddol i'w datblygu ar draws y continwwm, gan sicrhau bod dysgwyr yn rhugl yn y maes hwn. Mae'r adnoddau i'w gweld ar Google Classroom, ac fe'u rhannwyd ag amrywiol ysgolion i'w treialu.

**Her Fathemateg MATh Uwchradd**

Trefnodd YCG Uwchradd GwE Her Fathemateg MATh i ddysgwyr Blwyddyn 9 ym mis Mawrth 2023, pan wahoddwyd ysgolion i gystadlu gyda thimau o 4. Bu 28 ysgol uwchradd yn y rhanbarth yn cymryd rhan, gyda chyfanswm o 34 tîm. Mae pob ysgol wedi mynegi eu bod wedi gwerthfawrogi'r Her Fathemateg a rhannwyd yr adnoddau â phob ysgol. Cynhelir cystadleuaeth derfynol yn Nhymor yr Haf.

**CaBan/Prifysgol Bangor (Medi 2022)**
Cyflwynodd yr YCG Mathemateg a Rhifedd Cynradd bedair darlith - cyflwyniad i MDaPh Mathemateg a Rhifedd i fyfyrwyr TAR cyfrwng Cymraeg (tua 27 myfyriwr). Roedd y sesiynau hyn yn gymorth i ymarferwyr newydd gael dealltwriaeth well o'r pum hyfedredd mathemategol ac addysgeg effeithiol mewn mathemateg er mwyn gallu cyflwyno'r CiG yn y dosbarth yn ystod y flwyddyn addysgol hon.

**Llafaredd ar gyfer Dysgu ar draws y Cwricwlwm 2023**
Cyflwynodd yr YCG Mathemateg a Rhifedd Cynradd ac Uwchradd ddiwrnod hyfforddiant o fewn y rhaglen Llafaredd ar gyfer Dysgu ar draws y Cwricwlwm. Bu athrawon neu arweinwyr blynyddoedd 5 i 8 mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar y sesiwn, a'r nod oedd creu diwylliant o 'siarad er mwyn dysgu' a datblygu'r ddarpariaeth lafaredd i godi safonau ar draws y cwricwlwm.

**Cymorth unigryw i ysgolion unigol**
Mae bron pob ysgol sy'n destun pryder yn gwneud cynnydd cyson yn erbyn y camau gweithredu a gytunwyd, ac mae'r holl staff a'r rhanddeiliaid wedi'u huwchsgilio yn ystod y broses, gan gynnwys ysgolion mewn categori Estyn. Mae'r YCG Mathemateg a Rhifedd wedi datblygu perthynas dda gydag ysgolion unigol sydd wedi arwain at gydweithio llwyddiannus.

## SAESNEG A LLYTHRENNEDD

**Uwchradd**
Mae'r tîm wedi rhoi sylw i'r holl geisiadau penodol gan ysgolion ac wedi cynnal hyfforddiant adrannol ac ysgol gyfan.

Yn ystod mis Tachwedd 2022, cynigwyd rhwydwaith llythrennedd rhanbarthol i bob ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg; cafwyd niferoedd da. Canolbwynt y sesiwn oedd cynllunio ar gyfer dull gweithredu strategol mewn Llythrennedd a chynllunio ar gyfer cynnydd. Cefnogwyd hyn ymhellach drwy ddatblygu'r 'Dull Chwe Cham' ar gyfer datblygu dull gweithredu llythrennedd ysgol gyfan, a gyflwynwyd i'r chwe fforwm Penaethiaid rhanbarthol. Ymhellach i hyn, rhoddwyd cymorth unigryw i ysgolion a chynghreiriau yr oedd arnynt angen cymorth unigryw i lansio.

Ym mis Rhagfyr 2022, trefnwyd Fforwm i Benaethiaid Saesneg a chafwyd presenoldeb rhagorol. Roedd y sesiwn yn cynnwys briff gan Elan Richards, Cymwysterau Cymru ac yn fodd i'r Arweinwyr Pwnc holi cwestiynau yn uniongyrchol yn ymwneud â'r ymgynghoriad ar y TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. Cefnogwyd yr aelodau i greu dogfen "Cynllunio ar gyfer cynnydd" fyw a rannwyd â phob adran Saesneg uwchradd ac a ddefnyddiwyd fel man cychwyn i drafod cynnydd ar lefel adran.

Cyfarfod Fforwm Saesneg Safon Uwch - wedi mynychu hyfforddiant CBAC, cynhyrchwyd "Fix it packs" a'u dosbarthu er mwyn cefnogi ysgolion i roi adborth safonedig i ddisgyblion. Cynhyrchwyd adnoddau Uned 1 'Barddoniaeth nas gwelwyd o'r blaen' ar gyfer gwefan 'Herio'. Datblygwyd hefyd pecyn cymorth i roi arweiniad i ddatblygu ysgrifennu estynedig yn drawsgwricwlaidd a'i uwch lwytho ar One Drive GwE.

Mae'r Tîm hefyd wedi darparu cymorth wedi'i deilwra ar draws yr awdurdodau lleol, gan gynnwys ymgyfarwyddo â'r Dull Chwe Cham o gynllunio'n strategol i ddatblygu sgiliau a datblygu diwylliant o Gariad@Ddarllen.

Bu'r tîm mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau hyfforddi i ddatblygu ymhellach ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth er mwyn darparu'n effeithiol i'n hysgolion. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant gan: Llais 21,

National Literacy Trust, CBAC (TGAU a Safon Uwch) ac Ymgynghoriadau Cymwysterau Cymru.

Uwchradd/Cynradd - Defnyddiwyd cyllid LlC i ariannu rhaglen ddatblygu 5 diwrnod a ddechreuodd ym mis Chwefror 2023. Cynhaliwyd tair sesiwn hyd yma ac mae dwy arall ar y gweill ar gyfer Tymor yr Haf 2023. Mae'r ddwy sesiwn ddiwethaf yn canolbwyntio ar rannu arferion da rhwng ysgolion.

Trefnwyd/comisiynwyd Cariad@Ddarllen (*Reading for Pleasure*), sef rhaglen ddatblygu 5 diwrnod, gyda'r rhaglen honno bron yn llawn. Dechreuodd ym mis Ionawr 2023.

**Cynradd**
Rhoddwyd sylw i'r holl geisiadau penodol gan YCG i ysgolion sy'n destun pryder, neu sydd ag anghenion penodol yn ymwneud â llythrennedd/Saesneg, a gweithredwyd ac adolygwyd cymorth gan yr YCG. Ble roedd angen, darparwyd cymorth parhaus a nododd bron pob lleoliad bod effaith gadarnhaol a chynnydd.

Ym mis Tachwedd 2022, cynhaliwyd gweithdy Sgiliau Llythrennedd Sylfaenol drwy wahoddiad YCG, i edrych ar anghenion yn ymwneud â CGOA, CDY, neu DPP staff penodol. Bu'r YCG yn adolygu hyn i weld yr effaith yn ôl yn yr ysgol a gwelwyd bod bron pob aelod yn gweithredu strategaethau yn ôl yn yr ysgol. Bu mwy o alw gan YCG ac aelodau i gynnal sesiynau eraill ac mae'r rhain bellach ar y gweill ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, i'w cynnal gan yr YCG Llythrennedd neu wedi'u comisiynu gan athrawon effeithiol.

Trefnwyd/comisiynwyd Cariad@Ddarllen (*Reading for Pleasure*), sef rhaglen ddatblygu 5 diwrnod, gyda'r rhaglen honno bron yn llawn. Dechreuodd ym mis Ionawr 2023 (71 o athrawon). Effeithiodd y gweithredu diwydiannol ar 2 o'r 3 diwrnod a bu'n rhaid eu gohirio tan fis Mai 2023 ac felly maent yn rhan o'r Cynllun Busnes newydd ar gyfer 2023-24. Ymatebodd bron pob ysgol yn gadarnhaol i ddiwrnod 1 drwy holiaduron ac maent yn targedu staff yn strategol i fynychu diwrnod 2 a 3. Yn ôl yr adborth, mae bron pawb yn bwriadu mwyhau'r effaith mewn ysgolion ar safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer darllen. Roedd ysgolion o bob sector yn bresennol, o 3 i 16, ac wedi cofrestru i barhau ym mis Mai. Bydd y Brifysgol Agored a Phrifysgol Bangor yn cyflwyno ar ddiwrnod 2 a 3, ynghyd â 3 i 8 YCG Uwchradd, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd Ymgynghorwyr Cymraeg yr ALl hefyd yn bresennol.

Mynychwyd a chefnogwyd rhwydweithiau CiG ILlCh Rhanbarthol a Lleol, gyda sesiynau ychwanegol efo aelodau rhanbarthol, gan arwain at greu dogfennau a phecynnau cymorth/adnoddau i'w rhannu â rhwydweithiau lleol ac ysgolion rhanbarthol.

Crëwyd dosbarthiadau Google i gadw a rhannu'r holl adnoddau o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol a gweithgorau i sicrhau ymgysylltiad a chydweithio parhaus.

## Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD

**Arweinyddiaeth**
Bu’r cyfarfodydd rhwydwaith a gynhaliwyd eleni ar gyfer Arweinwyr y Gymraeg (ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg) y rhanbarth yn gyfle i ddatblygu dealltwriaeth o ddatblygiadau cenedlaethol, rhannu arferion llwyddiannus a chydweithio er mwyn cynnal a chodi safonau dysgu ac addysgu. Cynhaliwyd y cyfarfodydd rhwydwaith hyn mewn ysgolion ‘lletyol’ ar draws y rhanbarth a fu’n gyfle arbennig i un adran yn ei thro groesawu’r arweinwyr eraill i’w hadran (am y tro cyntaf yn aml) a’r bwriad yw cynnal y model llwyddiannus hwn y flwyddyn nesaf. Cafwyd cyflwyniadau gan arweinwyr yn ystod pob cyfarfod yn rhannu arferion llwyddiannus mewn amrywiol feysydd ac yn ystod y cyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer arweinwyr y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg cafwyd cyflwyniadau gan arweinwyr adrannau

y Gymraeg yr ysgolion 'lletyol' ar 'Y Gymraeg yn ein hysgol ni'. Bu'r ymateb i'r cyflwyniadau hyn yn gadarnhaol iawn a gwerthfawrogodd yr arweinwyr y cyfle i weld a thrafod strategaethau unigryw ac arloesol adrannau wrth iddynt hyrwyddo'r Gymraeg a sgiliau dwyieithrwydd yn lleol. Deilliodd y cyflwyniadau hyn gan arweinwyr mewn cyfarfodydd rhwydwaith ar gydweithio dilynol rhwng ysgolion ar draws y rhanbarth yn ogystal â chydweithio rhwng arweinwyr adrannau unigol a byddwn yn datblygu'r model hwn ymhellach y flwyddyn nesaf er mwyn cryfhau'r cydweithio dilynol rhwng adrannau.Mae gwaith Rhwydwaith Cefnogol tair ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn y rhanbarth yn parhau, a bydd y model hwn o gydweithio mewn cynghreiriau o ysgolion yn cael ei ddatblygu eto mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

**Gweithdai ymgynghori a gweithgorau cenedlaethol**

Bu arweinwyr y Gymraeg y rhanbarth ar weithgorau cenedlaethol (e.e. Gweithgor Lefel Pwnc Y Gymraeg – Cymwysterau Cymru) a llais y rhanbarth i'w glywed yn y sgyrsiau cenedlaethol hyn. Trefnwyd cyfres o gyfarfodydd rhithiol ar y cyd â Chymwysterau Cymru er mwyn cynorthwyo adrannau ar draws y rhanbarth i ymateb i'r ymgynghoriadau 'Cymwys ar gyfer y dyfodol' ar y cymwysterau newydd ar gyfer y Gymraeg a gwerthfawrogodd Cymwysterau Cymru y cyfle i gyflwyno'r ymgynghoriad yn uniongyrchol i'r arweinwyr trwy'r cyfarfodydd rhithiol hyn.

**Gwireddu Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol**

Cydweithio â'r YCG Ieithoedd Rhyngwladol ar brosiect 'Dylunio ar gyfer ieithoedd CiG' dan arweiniad yr Athro Jenny Eddy o Goleg Queens, Efrog Newydd gyda chynrychiolaeth o adrannau MDaPh ILlaCh ar draws y rhanbarth, sy'n cynnwys aelodau adrannau y Gymraeg o ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn ogystal ag ysgolion cyfrwng Saesneg (gweler hefyd 'Cydweithio â'r Brifysgol' isod).

Cynhaliwyd gweithdai mewn HMS pontio cynradd uwchradd i er mwyn cydweithio gydag arweinwyr i ystyried y modd y mae'r broses o asesu cynnydd y dysgwr yn y Gymraeg yn cyfrannu tuag at ddatblygu'r darlun cyfannol o'r dysgwr.

Rhoddwyd cefnogaeth ac arweiniad i arweinwyr sicrhau bod dilyniant ieithyddol dysgwyr yn y Gymraeg yn rhan annatod o'r gweithgareddau dysgu sy'n arwain at ddealltwriaeth o'r DHSB (e.e. cydweithio gydag arweinwyr i gyflwyno Cyfarwyddyd Prosesu Estynedig neu EPI)

**Prosiect 'Ein Llais Ni'**

Crëwyd gwefan einllaisni.cymru yn gartref i adnoddau ac astudiaethau achos ysgolion gwedd gyntaf y prosiect a chyflwynwyd cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i barhau â'r prosiect y flwyddyn nesaf. Yn rhan o'r cais, cytunodd nifer o ysgolion uwchradd y rhanbarth, a fu'n rhan o'r prosiect gwreiddiol, i fod yn ysgolion arweiniol, gydag aelodau Adran y Gymraeg yr ysgolion hynny'n benodol yn hyrwyddo'r wedd nesaf. Cyflwynwyd ceisiadau gan Adrannau y Gymraeg ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg y rhanbarth er mwyn ymuno â gwedd nesaf y prosiect ddiwedd Chwarter 4.

**Llythrennedd trawsgwricwlaidd**

Cydweithio ar ddatblygu a threialu'r 'Strategaeth 6 Cham' ar gyfer cynllunio'n strategol er mwyn hyrwyddo sgiliau Llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Mae GwE yn cydweithio â Chydlynwyr Llythrennedd ar draws y rhanbarth i fapio'r ddarpariaeth gan greu a datblygu adnodd i gefnogi a chynorthwyo'r cydlynwyr â'r gwaith hwn. Prosiect 'Cau'r Bwlch Darllen' (prosiect ar y cyd â gweithgor o Gydlynwyr Llythrennedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) yn deillio o'r angen i dargedu uwch sgiliau darllen a amlygwyd yn dilyn cyfarfod rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd

Prosiect 'Holi Heriol' (ar cyd â PhA y Gymraeg a Chydlynydd Llythrennedd un o ysgolion y rhanbarth) yn deillio o gyflwyniad a roddwyd mewn cyfarfod rhwydwaith ac a fydd yn plethu â'r gwaith rhanbarthol o cefnogi ysgolion i wireddu CiG yn effeithiol trwy gynorthwyo arweinwyr a Chydlynwyr Llythrennedd i gynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr unigol trwy ddatblygu dealltwriaeth o'r Egwyddorion Cynnydd.

Mae'r prosiect 'Llythrennedd y Gweithle 2023' yn gyfle i gyflwyno'r themâu trawsgwricwlaidd yn rhan o ddyluniad cwricwlwm ar gyfer ieithoedd, gan dargedu'r elfen fandadol hon trwy'r cyfarwyddyd ar gyfer MDaPh ILlaCh.

**Cydweithio â'r Brifysgol a chefnogaeth i ANG**
Bu trafodaethau â Phrifysgol Bangor / CABAN yn ystod Chwarter 3 i ymgorffori gwaith yr Athro Jenny Eddy a chynnwys y prosiect 'Dylunio ar gyfer ieithoedd CiG' uchod yn rhan o arlwy'r cyrsiau TAR.

Cynhaliwyd digwyddiad yn Venue Cymru ar y cyd â Phrifysgol Bangor / CABAN ar gyfer myfyrwyr ANG (cynradd ac uwchradd) 'Athrawon fel dylunwyr CiG' gyda chyflwyniadau gan aelodau o adrannau y Gymraeg ar draws y rhanbarth o fu'n rhan o'r prosiect 'Dylunio ar gyfer ieithoedd CiG'.

Mynychodd myfyrwyr TAR uwchradd a chynradd y digwyddiad 'Ein Llais Ni – Datblygu siaradwyr y dyfodol' a bu i fyfyrwyr eleni gyfeirio at brosiect 'Ein Llais Ni' yn rhan o draethodau ymchwil uned benodol o'u cwrs eleni

Rhoddwyd cyflwyniad yn y Brifysgol i fyfyrwyr TAR uwchradd a chynradd (Cymraeg a Saesneg) ar waith a chefnogaeth rhanbarthol GwE (Chwarter 4)

**Canolfan Cefnogaeth GwE**
Mae'r gwaith o ddatblygu tudalennau'r Gymraeg ar Ganolfan Cefnogaeth GwE yn parhau a'r nod yw y bydd y llwyfan hwn yn plethu â llwyfannau digidol 'byw' Teams a Google Classroom, y naill yn gartref parhaol a'r llall yn llwyfan datblygol.

Mae'r Cylchlythyr 'O'r Stordy' yn arf ychwanegol i rannu gwybodaeth ag arweinwyr ar draws y rhanbarth gyda dau fersiwn o'r cylchlythyr, un ar gyfer ysgolion Cymraeg a dwyieithog a fersiwn arall ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg.

## GWYDDONIAETH

**Gwireddu Cwricwlwm i Gymru**
Darparwyd cymorth pwrpasol i bob adran sydd wedi gofyn am gymorth gyda CiG. Mae'r ysgolion sydd wedi cael cymorth, ac a fydd yn gweithredu'r CiG ym mis Medi 2023, wrthi'n cynllunio ac yn datblygu unedau gwaith.

**Darparu rhwydweithiau rhanbarthol a lleol i arweinwyr ac athrawon MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gydag arweiniad pendant ar ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm, asesu a chynnydd.**
Yn Nhymor yr Hydref, cynhaliwyd 3 Cyfarfod Rhwydwaith i Benaethiaid Gwyddoniaeth, o'r chwe awdurdod lleol, a chafwyd niferoedd da. Roedd y cyfarfodydd yn gyfle i gynnal trafodaethau a gweithgareddau ar gynllunio, cyflwyno a gwerthuso eu gweithgareddau CiG newydd, cynlluniau gwaith TGAU, enghreifftiau o asesiadau a dulliau addysgegol sy'n gweithio'n dda yn eu hysgolion. Canolbwyntiwyd ar gynllunio a dylunio'r CiG yn ystod rhwydweithiau'r Hydref. Edrychwyd ar ddulliau disgyblaethol/aml-ddisgyblaethol a thematig a dod â'r Gwyddorau, Cyfrifiadureg a Thechnoleg ynghyd i ddatrys problemau. Rhannwyd enghreifftiau ac

adnoddau a gynhyrchwyd gan y gweithgorau hyn yn ystod y cyfarfodydd ac maent ar gael ar-lein i ysgolion eraill yn ddwyieithog (gan gynnwys ysgolion nad ydynt yn rhan o rwydwaith).

Yn ystod Tymor y Gwanwyn, cynhaliwyd ail gylch o gyfarfodydd Penaethiaid Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Unwaith eto, CiG gafodd y sylw - edrychwyd ar gynnydd a mapio cynnydd, datblygu sgiliau cyfannol, themâu trawsbynciol (gyda chyflwyniadau gan Gyrfa Cymru) a rhaglennu cyfrifiadurol/algorithmau.

**Helpu ysgolion a'u hadrannau Gwyddoniaeth a Thechnoleg i sicrhau bod eu dealltwriaeth o elfennau'r Cwricwlwm i Gymru yn datblygu; gan gynnwys cymhwyso a datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd, y sgiliau cyfannol a themâu trawsbynciol o fewn Gwyddoniaeth.**
Datblygwyd gwefan MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'i chyfieithu i'r Gymraeg - mae'r wefan yn cefnogi ysgolion ac adrannau i ystyried y syniadau/themâu mawr mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg a gwahanol ddulliau o gynllunio ar gyfer dysgu. Rhannwyd y ddolen i'r wefan â phob ysgol. Rydym wrthi'n datblygu enghreifftiau o ddull thematig i ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol. Yn ystod 2023-2024, bwriedir datblygu ymhellach y wefan a rhannu enghreifftiau ac arferion da o ysgolion fel y dônt ar gael.

**Cefnogi ysgolion ac arweinwyr Gwyddoniaeth i werthuso a chyfoethogi eu darpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.**
Mae adnoddau cefnogol ar y wefan Gwyddoniaeth a Thechnoleg wedi galluogi athrawon i ddatblygu ymhellach eu dealltwriaeth o gynnydd mewn dysgu a rôl y disgrifiadau dysgu wrth gynllunio ar gyfer dysgu. Mewn cyfarfodydd Rhwydwaith yn y Gwanwyn, bu'r Penaethiaid Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cwblhau holiaduron yn gwerthuso eu darpariaeth CiG gyfredol yn eu hysgolion.

**Gwella Addysgu**
Drwy gyfrwng cyfarfodydd Rhwydwaith MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, mae cydweithio, gweithio rhwng ysgolion a rhannu'r arferion gorau yn parhau i ddatblygu. Mae ysgolion sydd yn rhan o'r rhwydweithiau wedi magu profiad a dealltwriaeth werthfawr drwy weithio gyda'i gilydd a rhannu syniadau ar gyfer cynllunio'r dysgu ac ystyriaethau addysgegol.

Gwelwyd nifer sylweddol o ymwelwyr â'r wefan ‘Tanio’ (>190,000) a lawr lwythiadau yn ystod 2022-2023, sydd yn dangos bod yr adnoddau yn cael eu defnyddio'n eang.

**Ysgolion sy'n destun pryder**
Yn sgil ceisiadau gan YCG, parheir i roi cymorth unigryw a tharged i arweinwyr, athrawon, ANG ac i ysgolion sy'n destun pryder.

**Cefnogi Arweinyddiaeth**
Mae ymweliadau ysgol yn parhau i gefnogi Arweinwyr Canol efo hunanarfarnu, gan adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant, arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a'r dysgu a'r addysgu.

## OEDRAN 3-8

**Cymorth i ysgolion sy'n destun pryder**
Darparwyd cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n destun pryder ar draws y rhanbarth. Yn gyffredinol, mae bron pob ysgol sy'n destun pryder yn gwneud cynnydd cyson neu dda yn erbyn y camau gweithredu a gytunwyd, ac mae staff a rhanddeiliaid yn uwchsgilio yn ystod y broses. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o gynnydd ar draws llwybrau datblygu Galluogi Dysgu at ddiwedd CC2 ym mhob MDaPh yn ogystal â'r sgiliau

trawsgwricwlaidd a'r sgiliau cyfannol. Mae'r cymorth hefyd yn gwella'u dealltwriaeth o egwyddorion ac addysgeg Dysgu Sylfaen ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar gynnydd dysgwyr.

**Rhwydweithiau 3-8 rhanbarthol**

Darparwyd rhwydweithiau 3-8 rhanbarthol i ymarferwyr ac YCG, i rannu canllawiau ar Galluogi Dysgu (cyfnod dysgu yn arwain at Gam Cynnydd 1) ac astudiaethau achos gan ysgolion o bob ALl sy'n rhan o brosiectau GwE ar sail ymchwil, sef Gwaith Coed a 'Communication Friendly Spaces Approach'. Bu ymarferwyr yn trafod sut yr aethant ati i fyfyrio ar ac adolygu eu hamgylcheddau dysgu, eu profiadau a'u cynllunio ar gyfer sgiliau, y tu mewn a'r tu allan, ac effaith eu darpariaeth ar ddysgwyr, yn unol â chanllawiau Galluogi Dysgu a chanllawiau MDaPh. Rhoddwyd cyflwyniadau ac astudiaethau achos ar Ganolfan Cefnogaeth GwE fel bod modd i bob ysgol yn y rhanbarth fynd atynt.  Yn sgil hyn mae ymarferwyr yn rhaeadru gwybodaeth ac yn arwain hyfforddiant clwstwr, gan rannu arfer dda ac effaith y prosiect ymchwil weithredu.

Cynhaliwyd gweithdai rhanbarthol yn y rhanbarth i athrawon a chymorthyddion dysgu sy'n newydd i'r grŵp oedran 3-8, yn canolbwyntio ar egwyddorion Galluogi Dysgu a MDaPh yn y grŵp oedran hwn ac addysgeg effeithiol. Mae gan y rheiny sydd wedi bod yn bresennol adnabyddiaeth a dealltwriaeth gadarn o'r tri galluogwr dysgu o fewn Galluogi Dysgu, a'r addysgeg a'r cwricwlwm i'w trosglwyddo'n arferion dosbarth.

Cynhaliwyd gweithdai Gwyddoniaeth a Thechnoleg rhanbarthol i athrawon a chymorthyddion dysgu. Mae pob ymarferydd wedi'i uwchsgilio ac wedi dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth o FDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, y Llwybrau Datblygu (yn enwedig Archwilio), y sgiliau trawsgwricwlaidd a'r sgiliau cyfannol. Yn dilyn y ddau weithdy mae ymarferwyr yn fwy hyderus wrth gynllunio datblygiad mewn MDaPh a'r sgiliau trawsgwricwlaidd, o'r Llwybrau Datblygu i'r MDaPh, a hynny o fewn addysgeg ddatblygiadol addas.

Cyflwynwyd hyfforddiant pwrpasol i ysgolion unigol a chlystyrau ar agweddau penodol ar y Cwricwlwm e.e. darllen cynnar ac uwch sgiliau darllen, dysgu gwreiddiol a phwrpasol, rôl yr oedolyn, rhifedd, cynllunio a dysgu yn yr awyr agored. Mae hyn wedi uwchsgilio staff o ran y continwwm 3-11 yng nghyd-destun ymestyn a dyfnhau sgiliau o fewn profiadau dysgu ac amgylchedd sydd yn briodol i ddatblygiad.

Canlyniad hyn yw:

- ymarferwyr yn dyfnhau eu dealltwriaeth o egwyddorion ac addysgeg Dysgu Sylfaen, yn unol â chanllawiau 'Galluogi Dysgu' ac 'Addysgeg' Cwricwlwm i Gymru.
- pob ymarferydd yn cael mynediad at y pecyn cymorth e.e. asesu, addysgeg, datblygu sgiliau mewn profiadau dysgu pwrpasol a gwreiddiol.
- uwchsgilio ymarferwyr i hwyluso ac arwain hyfforddiant ar draws y rhanbarth.
- yr un cynnig proffesiynol i athrawon a chymorthyddion dysgu, gan uwchsgilio'r gweithlu cyfan.
- ymarferwyr yn rhannu profiadau dysgu ar Google Classroom, gan greu rhwydwaith ar gyfer cydweithio.
- hyrwyddo prosiectau yn seiliedig ar ymchwil weithredu, sydd wedi galluogi ymarferwyr i werthuso effaith ar gynnydd dysgwyr a'r ddarpariaeth.

mae gan ymarferwyr well dealltwriaeth o'r continwwm dysgu ac addysgu, o'r llwybrau datblygu, ar draws y MDah, y 3 galluogwr ac addysgeg.

# 5. ARWEINYDDIAETH

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, yr ymgysylltu a'r effaith**

Oherwydd y pwyslais ar gymorth ac arweiniad ar gyfer arweinyddiaeth:

- mae bron pob ysgol yn gweithredu er mwyn cryfhau arweinyddiaeth ymhellach yn eu hysgolion, gyda ffocws penodol ar fireinio a gwella ymhellach brosesau gwerthuso a chynllunio gwelliant ar bob lefel
- mae bron pob ysgol yn blaenoriaethu arweiniad a chymorth i ddatblygu ymhellach gapasiti uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i arwain, a gwerthuso, ansawdd y dysgu a'r addysgu yn effeithiol
- mae cynnydd yn nifer yr arweinwyr sydd yn ymuno â hyfforddiant o safon uchel a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth
- mae cynnydd yn nifer yr ysgolion sydd ag uwch arweinwyr wedi'u hyfforddi i fod yn adolygwyr cymheiriaid a hwyluswyr gwelliant, ac sydd yn rhan weithredol o weithgareddau adolygu gan gymheiriaid.

| AMCAN 3: ARWEINYDDIAETH<br>Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Mae hyn yn cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol. |
|---|
| ARWEINYDDIAETH |
| **Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mynediad at gymell a mentora, i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau sydd yn briodol i'w rôl a'i gyfrifoldeb, yn unol â safonau proffesiynol.**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol a GwE yn darparu arlwy gyfoethog o ddysgu proffesiynol i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel, ynghyd â chymorth pwrpasol ac wedi'i dargedu i ysgolion yn ôl yr angen, yn enwedig yr ysgolion hynny sy'n destun pryder. Ar ben hynny, mae trefniadau ar waith ble mae arweinwyr ysgolion yn cydweithio i gefnogi'r naill a'r llall mewn clystyrau cynradd a chynghreiriau uwchradd ac yn cymryd perchenogaeth a chyfrifoldeb cynyddol am daith welliant ei gilydd.<br><br>Mae nifer sylweddol o ymarferwyr ar draws y rhanbarth wedi dilyn Rhaglenni Arweinyddiaeth Cenedlaethol ar gyfer datblygiad proffesiynol (gweler Atodiad 1 - data rhanbarthol), ac mae carfanau 2021-22 wedi cwblhau eu rhaglenni datblygu. Mae hyn yn cynnwys arweinwyr canol, uwch arweinwyr, penaethiaid newydd a phenaethiaid profiadol. Mae cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng yr Awdurdodau Lleol a GwE i gefnogi datblygiad arweinwyr ar draws y 'Llwybr Arweinyddiaeth'. Caiff gwybodaeth am eu cynnydd ei rhannu'n rheolaidd drwy gyfarfodydd y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol. Drwy'r cydweithio a'r cyfathrebu hwn, sicrheir y gall yr Awdurdodau Lleol adnabod anghenion datblygu a thargedu rhagor o gynhaliaeth os oes angen. Mae'r tîm wedi recriwtio niferoedd iach o ymgeiswyr sydd â phrofiad priodol ar draws y rhanbarth ar gyfer carfanau 2022-23.<br><br>Mae cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng yr Awdurdodau Lleol a GwE i gefnogi penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro. Mae'r rhaglen yn cynnwys arlwy gyfoethog o hyfforddiant rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ysgol er mwyn paratoi penaethiaid i allu gwneud eu gwaith yn llwyddiannus fel penaethiaid, gan gynnwys sesiynau briffio ar reoli cyllid, diogelu, diogelwch safle ymysg elfennau rheolaethol eraill (gwahoddir penaethiaid ac arweinwyr profiadol hefyd). Mae gan bob pennaeth newydd fentor sydd yn bennaeth profiadol a llwyddiannus i ddarparu cymorth cadarn ar faterion rheolaethol lleol mewn perthynas â'u gwaith. Golyga hyn fod penaethiaid newydd yn cael cymorth amserol a phriodol yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a dyfnhau eu sgiliau yn y dôl. |

O ran y newidiadau yn y Rhaglen i Benaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro, mae'r ddarpariaeth sefydlu i benaethiaid newydd ar draws y rhanbarth bellach yn fwy cyson, cefnogol ac effeithiol.
Yn ôl gwaith monitro ac arfarnu anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau'r tîm darparu, mae pob rhaglen yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar hyder a gallu arweinwyr i gyfrannu at system gydweithredol a hunan wella. Yn ôl trafodaethau efo aelodau, eu rheolwyr llinell ac YCG yn dilyn cyflwyniadau ar y Dasg Profiad Arweinyddiaeth (TPA), mae'r rhaglenni yn cyfrannu'n gyson at ddatblygu ymarferwyr hunanfyfyriol. Maent yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol a datblygu eu gyrfa, ac maent yn datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o'u rôl arweinyddiaeth, yn enwedig o ran gweithredu'r CiG yn llwyddiannus.

Mae'r rhaglenni yn parhau i sicrhau bod aelodau'r rhaglenni yn myfyrio'n llwyddiannus ar eu harferion proffesiynol fel arweinwyr ysgolion yn erbyn y Safonau Arweinyddiaeth Cenedlaethol.

Mae aelodau wedi'u huwchsgilio a'u grymuso i arwain a chefnogi cyd-weithwyr yn eu lleoliadau, gan gryfhau'r capasiti arweinyddiaeth yn eu hysgolion.

Mae'r Llwybr Arweinyddiaeth yn hwyluso dysgu proffesiynol priodol i arweinwyr ar bob lefel, sydd yn cefnogi eu datblygiad i'r cam nesaf yn eu gyrfa.

Diweddarwyd y rhaglenni RhDAG a RhDUA yn briodol i gadw at yr agenda genedlaethol. Gwnaed hyn ar lefel genedlaethol. Ar lefel ranbarthol, addaswyd Modiwlau 1 a 2 y RhDAG a'r RhDUA fel y gellir eu cyflwyno wyneb yn wyneb. Cafwyd gwerthusiadau hynod gadarnhaol yn dilyn cyflwyno'r Modiwlau hyn.

Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r rheiny sydd wedi dangos y dystiolaeth, yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol o ran arweinyddiaeth ysgol gyfan yn sgil cwblhau'r Rhaglen Ddatblygu i Ddarpar Benaethiaid (RhDDB). Byddant bellach yn symud i'r cam nesaf i baratoi tystiolaeth ar gyfer prifathrawiaeth yn y Ganolfan Asesu CPCP ym mis Chwefror 2023.

## LLYWODRAETHWYR

**Cymorth i gyrff llywodraethu ysgolion**
Mae rhaglen datblygu a hyfforddiant gynhwysol ar gael i lywodraethwyr, a luniwyd yn rhannol drwy ymgynghori a chysylltu â llywodraethwyr er mwyn iddynt nodi eu hanghenion datblygu. Cafwyd sylwadau calonogol iawn gan lywodraethwyr am y rhaglen. Mae gan y gwasanaeth rhanbarthol ddarpariaeth amrywiol i gyfoethogi darpariaeth yr Awdurdod.

Cefnogwyd cyrff llywodraethu ysgolion i benodi uwch arweinwyr. Darparwyd cymorth i awdurdodau lleol i sicrhau bod gan gyrff llywodraethu fynediad at gyfleoedd dysgu o safon uchel. Diweddarwyd rhaglen dysgu proffesiynol 2021-2022 ar gyfer 2022-2023 a'i rhannu â thîm GwE a'r chwe Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr. Ehangwyd y cynnig i gynnwys Canllawiau Gwella Ysgol 2022. Mae hefyd yn cynnwys cymorth i ysgolion sydd angen gwella, cymorth Cwricwlwm i Gymru, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Dysgu ac Addysgu, Cymhwysedd Digidol, y Gymraeg, Her Sgiliau ac Arweinyddiaeth. Mae niferoedd sy'n mynychu'r rhaglenni unigol a drefnir gan y chwe Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yn amrywio ar draws y chwe Awdurdod Lleol. Yr effaith yw bod Llywodraethwyr sydd yn mynychu'r sesiynau yn gwybod am y datblygiadau diweddaraf ac, o ganlyniad, yn gallu cefnogi eu hysgolion yn well.

Rhoddwyd cymorth i AauLl ddarparu hyfforddiant i gyrff llywodraethu i helpu efo gwella ysgol. Darparwyd cymorth hefyd i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan gyrff llywodraethu gefnogaeth gyda hunan arfarnu a chynllunio datblygiad, gan gynnwys cymorth cyn-arolygiad i Lywodraethwyr ar ddisgwyliadau Estyn cyn ac

yn ystod arolygiad. Mae Llywodraethwyr sydd wedi manteisio ar y cymorth wedi'u paratoi'n dda at arolygiad. Mae'r adnoddau a luniwyd gan dîm GwE ar gyfer eu defnyddio mewn sesiynau cymorth i lywodraethwyr wedi'u trefnau a'u rhannu fel adnodd cyffredin ar safle Pecynnau Cymorth GwE.

Mae menter ddiweddar a ariennir gan LC yn cynnig cyfleoedd i lywodraethwyr wneud cais am hyfforddiant cymell a mentora. Cynhelir yr hyfforddiant ym mis Ebrill (cyfrwng Cymraeg) ac yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn i'r garfan cyfrwng Saesneg.  Mae cyfanswm o 20 llywodraethwr wedi dangos diddordeb hyd yma.

## CYNGHREIRIAU / RHWYDWEITHIAU / CLYSTYRAU

**Cydweithio ag arweinwyr ysgolion ar bob lefel i wreiddio ymhellach gyfraniad clystyrau cynradd/uwchradd, cynghreiriau uwchradd a rhwydweithiau rhanbarthol wrth fynd i'r afael âblaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.**
Mae hwyluso a chefnogi gwaith y clystyrau a'r cynghreiriau wedi bod wrth wraidd gwaith YCG GwE dros y 12 mis diwethaf. Mae un o linynnau allweddol y ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef: *Canllawiau Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd* yn rhoi hwb newydd i'r gwaith cydweithredol gydag arweinwyr ysgolion.

Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi ymgysylltu'n effeithiol âchymheiriaid. Mae ffocws y cydweithio wedi cynnwys cyd-gynllunio ar gyfer cyflwyno'r CiG, gweithgareddau gwerthuso a chynllunio gwelliant a hyrwyddo a rhannu arferion. Yn yr arferion mwyaf llwyddiannus, hwylusir cydweithio ar bob lefel o fywyd ysgol. Cryfhawyd gwaith y clystyrau a'r cynghreiriau hefyd gan gyfraniadau'r Rhwydweithiau MDaPh, Asesu a Dylunio Cwricwlwm lleol a rhanbarthol, yn ogystal â'r rhwydweithiau penodol i bwnc yn y sector uwchradd. Ceir amryw byd o enghreifftiau o arfer ragorol ble mae ymgysylltu â chymheiriaid wedi'i wreiddio yng ngwaith cynghreiriau a chlystyrau ac yn gwneud gwahaniaeth i ansawdd, cywirdeb a manwl gywirdeb gwerthuso a chynllunio a chyflawni gwelliant. Mae camau gweithredu yn cael eu dal mewn cynlluniau clwstwr, cynghrair ac ysgol.Mae hyfforddiant EDT/RhPY wedi parhau dros y flwyddyn, a chyflwynwyd clystyrau/cynghreiriau newydd i'r model ynghyd â chynnig sesiwn diweddaru i'r rheiny a oedd eisiau ailgydio wedi cyfnod Covid, neu sydd wedi penodi aelodau staff newydd.

Mae nifer o glystyrau a chynghreiriau yn datblygu arferion cryf o ran cynllunio gweithgareddau ar y cyd i gefnogi'r daith ddiwygio ac agweddau ar wella ysgol. Mae clystyrau cynradd wedi gallu gweithio ar ddatblygu blaenoriaethau clwstwr yn ymwneud â'r CiG ar gyfer eu CDY. Hefyd, mae arweinwyr yn dangos mwy o hyder wrth baratoi at gyflwyno'r cwricwlwm.

Yn fwy diweddar, mae'r prif bwyslais wrth gydweithio wedi bod ar gynllunio ar gyfer bodloni gofynion y Fframwaith Gwella Ysgolion newydd, ar ddatblygu Datblygiad Proffesiynol o safon uchel e.e. gweithgareddau i rannu arferion llwyddiannus yn y clwstwr a'r tu hwnt, ar gryfhau ymhellach ansawdd a chapasiti arweinyddiaeth ar draws yr ysgol a'r clwstwr/cynghrair ac ar ddatblygu dulliau o wella ansawdd dysgu ac addysgu ac asesu. Defnyddir cynlluniau pontio hefyd i sicrhau dilyniant mewn dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod pontio o'r cynradd i'r uwchradd.

Mae arferion llwyddiannus a nodwyd ar draws nifer o glystyrau a chynghreiriau yn cynnwys:
- gwell manwl gywirdeb wrth arfarnu
- cefnogi ei gilydd gyda gweithgareddau gwella wedi'u cynllunio ar y cyd
- arweinwyr yn cydweithio i ganfod 'blaenoriaethau clwstwr' a chyfuno adnoddau i fynd i'r afael â chamau gweithredu
- datblygu adnoddau addysgu ar y cyd

- clystyrau uwchradd/cynradd yn symud oddi wrth gydweithio 'rhagarweiniol' hanesyddol at sicrhau ffocws fwy miniog ar addysgu a chynnydd o fewn eu cynlluniau pontio.
- trefnwyd nifer o gynadleddau a gweithdai yn ystod y flwyddyn i arddangos arferion llwyddiannus.

# 6. YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, yr ymgysylltu a'r effaith**
Wrth wraidd yr ailgyfeirio oedd yr angen i sicrhau llesarweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr. Mae Awdurdodau Lleol a staff GwE wedi addasu eu gwaith yn briodol at ddibenion gwahanol dros y blynyddoedd diwethaf i barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol a chymorth i'w holl gymunedau o ysgolion yn ystod pandemig Covid-19. Mae hyn wedi arwain at:

- mwy o gefnogaeth i'r Rhaglen Dysgu Carlam sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau sylfaenol a lles.
- bron pob ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o'r grantiau amrywiol ac mae'r rhan fwyaf wedi cyflogi neu ymestyn oriau athrawon neu gynorthwywyr er mwyn targedu grwpiau ac unigolion mewn llythrennedd, rhifedd a lles.
- nifer dda o ysgolion wedi cael mynediad at hyfforddiant penodol megis sesiynau llesiant Ysgolion syn wybodus o Drawma, SAFMEDS, Headsprout ac ati.
- ystod o ganllawiau ac adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni.

## AMCAN 4: YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL
Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant

### GRANT DATBLYGU DISGYBLION (GDD) - PLANT MEWN GOFAL (PMG)

**Datblygu ymhellach a gweithredu'r strategaeth GDD genedlaethol ar draws y rhanbarth.**
**Gwreiddio'r model GDD PMG clwstwr/cynghrair ar draws y rhanbarth.**

Roedd y cynllun cefnogaeth GDD GwE a gyflwynwyd am 2022-2023 i Lywodraeth Cymru, yn ffocysu ar y meysydd a ganlyn: Dysgwyr sy'n Gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, Plant Mewn Gofal, Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar a Disgyblion sy'n Gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ac a addysgir mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

Mae'r arweinydd PDG yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, gan fynychu'r cyfarfodydd GDD a chyfarfodydd Ecwiti mewn Addysg. Mae Adnodd cefnogi dysgwyr agored i niwed Llywodraeth Cymru wedi cael ei lansio. Mae'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant hefyd yn gweithio gyda'u hysgolion cyswllt i sicrhau bod pob ysgol yn deall ac yn cyflawni eu dyletswyddau, gyda phwyslais neilltuol ar baratoi ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru.

Mae GwE wedi datblygu model fframwaith GDD cyffredinol a weithredir mewn ysgolion/ALl ar draws y rhanbarth. Bu'r pwyslais ar gefnogi ysgolion targed o fewn AaLl penodol i godi safonau dysgwyr hPYD ar draws yr awdurdod lleol, a sicrhau bod ffordd strategol o gefnogi YCG i fod yn gweithredu ymyraethau ar sail tystiolaeth.

Ar gyfer 2022/23, ein ffocws oedd parhau i sicrhau bod pob clwstwr/ysgol AAA/UCD yn cael yr arian GDD PMG gyda phwyslais ar gefnogi dysgu ac addysgu effeithiol, iechyd emosiynol a llesiant, Dysgu Proffesiynol

ar y dull Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma a thargedu cynhaliaeth yn unol â'r CAU. Mae Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma yn parhau i gael ei gyflwyno ar draws y rhanbarth ac mae 60 o leoedd diploma ychwanegol wedi'u hariannu, gyda 2 sesiwn o 'Dylanwad Chwarae Cadarnhaol' sy'n cefnogi ac yn datblygu yr elfen PACE Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r chwe ALl i sicrhau cyfathrebu a chydweithio clir o ran cefnogaeth ac ymyraethau ychwanegol gyda'r GDD PMG a bod pob cynllun clwstwr yn cael ei gymeradwyo gan GwE a'r ALl.

Mae cydweithio ac ymwneud effeithiol rhwng yr AauLl, GwE ac ysgolion yn ystod ac ar ôl COVID wedi datblygu ymhellach ddulliau o gefnogi dysgwyr sy'n fregus i ddysgu. O ganlyniad, mae bron pob ysgol yn datblygu ei darpariaeth ar gyfer sicrhau tegwch addysgol i bob dysgwr, a bod ganddynt amgylchedd dysgu cynhwysol i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc sy'n fregus i ddysgu, fel eu bod yn cyflawni deilliannau fwy cadarnhaol.

## LLES Y GWEITHLU [GwE AC YSGOLION]

**Cefnogi lles arweinwyr**

Mae 'Lle i Fyfyrio' yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar draws y rhanbarth . Mae Mike Armiger a Coral Harper yn gweithio hyd eithaf eu gallu wrth i ni weld mwy o alw am y math hwn o gymorth. Mae sesiwn grŵp hefyd wedi'i gadarnhau ar gyfer Cydlynwyr ADY ar draws y rhanbarth.Bydd y sesiwn yn gyfle i gyd-weithwyr sgwrsio yn agored â Chydlynwyr ADY eraill am yr heriau, y llwyddiannau a'r effaith benodol ar Gydlynwyr ADY ar draws y rhanbarth. Bydd y sesiwn yn cynnwys ystafelloedd trafod a model myfyrio a gwrando penodol i ddilyn. Fel hyn, bydd strwythur i gyd-weithwyr ei ddilyn, a chyfle hefyd iddynt wrando a myfyrio gyda'u cymheiriaid.

Mae GwE wedi cael trafodaethau yn ddiweddar gyda sefydliad o'r enw 'Student Breakthrough' i edrych ar sesiynau cymell i bobl ifanc. Maent yn cyflwyno model 'hyfforddi'r hyfforddwr' fel bod ganoedolion achrediad i weithio gyda phobl ifanc, gan ddefnyddio System '4I: Instruct, Inspire, Impact, Instigate.'Dechreuodd peilot 'Student Breakthrough' gyda 5 Ysgol Arbennig ym mis Ionawr 2023. Mae'r adborth yn gadarnhaol, gydag aelodau yn nodi bod gwahaniaeth amlwg rhwng cymell a chwnsela. Mae 18 modiwl i gyd, ac mae'r grŵp ar Fodiwl 8 ar hyn o bryd. Maent yn defnyddio llwyfan o'r enw 'Mighty Networks', felly mae negeseuon, modiwlau ac ati ar gael unrhyw bryd ac yn unrhyw le gan ei fod ar y we, a cheir ap hefyd. Mae gan y grŵp peilot 'bydis' ac mae aelodau'n mynd i sesiynau byw a chyfarfodydd bydis wedi'u trefnu.

Mae bron pob pennaeth wedi gwerthfawrogi cyfraniadau'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt a swyddogion yr Awdurdod o ran darparu cymorth ac arweiniad i ysgolion a chlystyrau i ddatblygu eu darpariaethau. Nododd bron pob pennaeth bod hwyluso cyfarfodydd clwstwr wedi bod yn eithriadol o bwysig er mwyn rhannu syniadau ac arfer dda wrth ddatblygu darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol. Nodwyd hefyd bod y cyfarfodydd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

## LLESIANT YSGOL GYFAN [MDaPh]

**Hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodus i Gymru' trwy ddatblygu momentwm ein digwyddiad TEDxGwE llwyddiannus.**

Mae cynlluniau ar y gweill i ni fod yn gweithio ar y cyd â Phrifysgol Glyndŵr a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru i gynnal 'Peilot Arweinwyr y Dyfodol' i alluogi pobl ifanc (14-16 oed) i gyfrannu'n

uniongyrchol at ddatblygu Cynlluniau Llesiant rhanbarthol, a rhannu eu barn a'u syniadau ar sut y gellir mynd ati i wella lles ar eu cyfer nhw a phobl debyg yn eu hardal leol. Mae hyn yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ddatblygu gwell dealltwriaeth, datblygu 'dinasyddion byd-eang a moesegol' ac ymdeimlad o hunan-effeithiolrwydd a photensial i fod yn arweinwyr (heddiw) a'r dyfodol. Y bwriad yw cynnal TEDxGwE yn Nhymor yr Haf 2023 ar draws pob ALl - mae cyfarfodydd cynllunio ar y gweill.

## STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI/GOFALWYR

**Gwella ymgysylltiad rhieni**
Mae'r Awdurdodau Lleol a GwE wedi darparu ystod o ganllawiau ac adnoddau o safon uchel i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, ac wedi gweithio hefyd â Mike Gershon i hwyluso mynediad rhieni at ddeunyddiau safonol fel eu bod hwythau'n gallu cefnogi eu plant.Mae ymateb cadarnhaol wedi bod i ddeunyddiau 'Helpu Eich Plentyn i Ddysgu', 'Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu' ac i'r adnodd 'Adolygu Hefo Mike'. Mae'r ystod o strategaethau adolygu hefyd wedi dylanwadu ar arferion llawr dosbarth athrawon wrth iddynt baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau diwedd blwyddyn.

Sefydlwyd grŵp rhanbarthol gyda chynrychiolaeth o GwE a phob un o'r AauLl i arwain, rheoli a chydlynu'r maes cefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysgu eu plant. Dyma'r prif ddatblygiadau:

- mae datblygwr yr Adnodd wedi creu Helpu eich Plentyn i Ddysgu (HYCTL) ar gyfer y Cynradd a Blynyddoedd 7 ac 8.
- mae datblygwr yr Adnodd wedi creu Helpu eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu (HYTTL) ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 9, 10 ac 11.
- rhannwyd pecynnau cyfathrebu dwyieithog ar gyfer HYCTL a HYTTL ag ysgolion.
- datblygwyd pecynnau hyfforddi i gymorthyddion dysgu eu defnyddio efo rhieni (HYCTL a HYTTL).
- crëwyd llwyfan ar wefan GwE gyda gwybodaeth i Rieni, Gofalwyr ac Ysgolion - mae hyn yn sicrhau mynediad rhwydd i bawb.
- Bellach mae tab Rhiant/Gofalwr ar wefan GwE lle gall rhieni ac ysgolion gael mynediad rhwydd at yr adnoddau a gall ysgolion gael mynediad at y deunyddiau hyrwyddo.
- Mae'r ddau adnodd wedi cael derbyniad da gan rieni'r ysgolion sydd wedi eu treialu gydag adborth yn arwain at y syniad o greu pecynnau gweithdy rhieni.

## AIL GYNNAU'R DYSGU

Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor ac arbenigwyr ymchwil, datblygwyd adnoddau, rhaglenni a phecynnau i gefnogi hyfedredd darllen yn y ddwy iaith. Mewn sawl ysgol, mae'r rhaglenni hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ruglder rhifedd a darllen dysgwyr ac ar hyder athrawon a staff i'w cyflwyno.

**Cymorth i weithredu ymyraethau Geiriau Amlder Uchel (HFW)/Darllen Ailadroddol (RR) a Headsprout.**
Mae dwy agwedd ar y ffrwd waith hon: ***Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR)*** gan ddefnyddio strategaethau HFW a RR, a'r ddarpariaeth barhaus i ysgolion ddefnyddio rhaglenni darllen Headsprout, sef ***Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR)***. Mae'r prosiectau hyn yn barhad o'r gwaith a gychwynnwyd y flwyddyn flaenorol. Dyma ddiweddariad:

***Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR)***
Mae 55 ysgol a 66 o athrawon wedi cofrestru a chael mynediad at fideos hyfforddiant ar-lein ac adnoddau ymyrraeth i'w lawrlwytho a'u defnyddio yn eu hysgolion (gweler y tabl isod ar gyfer yr ysgolion fesul awdurdod lleol). Dyma niferoedd yr athrawon sydd wedi defnyddio'r Google Classroom:

- Mae 63 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg.

Mae 14 ysgol wedi mynychu sesiynau cymorth cwestiwn ac ateb dilynol ar-lein, ac wedi cael aelod o'r tîm ymchwil wrth law i roi cymorth gweithredu. Cynhaliwyd y sesiynau cymorth ym mis Medi 2021 a mis Ionawr 2022. Gwahoddwyd ysgolion hefyd i fesur cynnydd mewn Rhugldder Darllen ar Lafar gan ddefnyddio prawf sgrinio DIBELS. Mae dwy ysgol wedi mesur cynnydd gan ddefnyddio adnoddau sgrinio DIBELS ac mae un ysgol yn monitro cynnydd. Mynegodd chwe ysgol arall ddiddordeb mewn mesur cynnydd disgyblion gan ddefnyddio DIBELS. Datblygwyd adnoddau Darllen Ailadroddol ymhellach i'w defnyddio gartref ac yn yr ysgol (cyfleoedd ychwanegol i ymarfer). Gwahoddwyd ysgolion i dreialu defnyddio'r deunyddiau gartref ac yn yr ysgol. Mynegodd bedair ysgol ddiddordeb. Drwy gydol 2021-22, rydym wedi parhau i ddiweddaru'r ymyraethau RR a HFW i'w gwneud yn ymarferol a haws i'w defnyddio. Rydym ni hefyd wrthi'n dylunio llawlyfr iFOR ac yn creu fideos hyfforddiant syml a byr.

Hysbysebwyd ym Mwletin GwE ym mis Medi 2022 i ysgolion gofrestru ar sesiynau hyfforddiant iFOR ym mis Tachwedd 2022. Aethpwyd ati i ddiweddau'r adnoddau RR i'w gwneud nhw'n fwy hygyrch ac ymarferol. Bellach, mae gennym lawlyfr Darllen Ailadroddol ar ffurf PDF, gyda chyfres o fideos hyfforddiant syml a byr i gyd-fynd a'r rhain oll ar Gogle Classroom.

Yn dilyn Bwletin GwE ym mis Medi 2022, cofrestrodd 28 ysgol a 32 o athrawon i gaelhyfforddiant ac adnoddau yr ymyraethau rhuglder darllen (Darllen Ailadroddol a Geiriau Amlder Uchel).

Cofrestrodd 23 o athrawon i fynychu sesiwn hyfforddiant ym mis Tachwedd 2022, ac roedd 11 o athrawon yn bresennol. Yn ogystal, rydym wedi cael cymeradwyaeth foesegol ar gyfer treial a reolir ar hap, ac wedi cynllunio'r treial hwnnw, ar gyfer mesur effaith ymyrraeth rhuglder Darllen Ailadroddol ar gyfradd darllen, cywirdeb a dealltwriaeth disgyblion. Mynegodd wyth ysgol ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr astudiaeth y bwriadwn ei chynnal drwy gydol 2023. Mae pum ysgol arall wedi cofrestru i gael hyfforddiant ac adnoddau yr ymyrraeth Rhuglder Darllen a bu dwy ysgol mewn sesiwn hyfforddiant ym mis Mawrth 2023.

Aethpwyd ati i ddiweddau'r adnoddau RR i'w gwneud nhw'n fwy hygyrch ac ymarferol. Bellach, mae gennym lawlyfr Darllen Ailadroddol ar ffurf PDF, gyda chyfres o fideos hyfforddiant syml a byr i gyd-fynd a'r rhain oll ar Google Classroom.

***Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).***
Llwyddodd y prosiect hwn i ddenu niferoedd uchel o ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf (gweler y tabl uchod) a datblygwyd amrywiaeth ddefnyddiol iawn o ddeunyddiau cymorth gweithredu o safon sydd ar gael ar-lein i athrawon. Dyma enghraifft dda o sut mae ymchwil CIEREI wedi gallu cefnogi defnydd ysgolion o raglen gyfarwyddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Dyma fanylion ynghylch niferoedd athrawon a rhieni ac ymweliadau â'r adnoddau ar-lein:

| | 07/2021 | 07/2022 | 04/2023 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ysgolion sydd wedi adnewyddu trwydded(au) yn uniongyrchol gyda SR er mis Medi | 30 | 15 | 17 |
| Nifer y disgyblion sydd wedi ymuno â Google Classroom | 40 | 40 | 40 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer y staff sydd wedi ymuno â Hwb | 71 | 73 | 73 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Headsprout gartref (Rhieni ac aelodau staff) | 399 | 513 | 537 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i ddefnyddio straeon Headsprout (Rhieni) | 106 | 363 | 486 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i weinyddu Meincnodau (Rhieni) | 18 | 46 | 59 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i weinyddu Meithrin Rhuglder (Rhieni) | 13 | 54 | 65 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i drefnu treial am ddim/prynu neu adnewyddu trwydded (Staff ysgol) | 65 | 77 | 91 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i ychwanegu disgyblion at y rhaglen (Staff ysgol) | 84 | 135 | 160 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i wirio sgorau (Staff ysgol) | 39 | 85 | 93 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i fewnbynnu sgorau Meincnod (Staff ysgol) | 16 | 25 | 27 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i gael mynediad i Google Classroom (Rhieni) | 33 | 50 | 52 |
| Gweminar 1 Cychwyn arni gyda Headsprout | - | 2 | 4 |
| Gweminar 2 Monitro cynnydd wrth ddefnyddio Headsprout | - | 0 | 0 |

Hysbysebwyd ym Mwletin GwE ar 26 Hydref i ysgolion gofrestru ar sesiynau hyfforddiant KPR ym mis Tachwedd. Roedd dwy weminar ar gael i staff ysgolion; Gweminar 1: Cychwyn arni gyda Headsprout a Gweminar 2: Monitro cynnydd wrth ddefnyddio Headsprout. Diweddarwyd gweminarau ac adnoddau i gyd-fynd â newidiadau o fewn rhaglen Headsprout a sut all ysgolion gynnwys y ddarpariaeth i gyd-fynd â'r polisi ADY newydd.Cofrestrodd wyth ysgol ac 16 o athrawon ar Weminar 1 ac 1 ysgol ac 1 athro ar Weminar 2.

Mae holl aelodau gweminarau dros y blynyddoedd diwethaf yn cael cynnig cymorth parhaus ar ffurf negeseuon e-bost a chyfarfodydd ar-lein yn ôl y gofyn i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen ar eu lleoliad drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gefnogaeth hefyd ar gael i bob ysgol sydd yn parhau i ddefnyddio Headsprout neu sydd â diddordeb dechrau defnyddio Headsprout drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gefnogaeth yn bwrpasol ar gyfer cychwyn arni gyda'r rhaglen gan gynnwys gohebiaeth Headsprout, cymorth gweithredu, monitro cynnydd a helpu i ddatrys anawsterau technegol. Treulir amser hefyd ar ymgyfarwyddo â'r rhaglen a fydd yn disodli Headsprout, a chynllunio sut orau i gefnogi ysgolion sydd eisiau parhau i gyflwyno ymyraethau darllen cynnar i ddisgyblion.

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - Cam 2**
Mae'r prosiect hwn wedi bod yn llwyddiannus iawn eleni ac wedi cynhyrchu rhaglen hyfforddi Cymraeg a Saesneg o safon uchel iawn ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac mae'r wefan yn rhoi cipolwg o ansawdd y rhaglen: https://www.rillresearch.org/

Dechreuodd tîm ymchwil RILL ar waith Cam 2 ddechrau mis Mai 2021. Maent bellach wedi cwblhau'r addasiadau i'r fersiwn gydamserol/anghydamserol wreiddiol o RILL a ddatblygwyd yn 2020 yn ystod y cyfnod clo.

Yn ystod 2021-22, bu RILL yn canolbwyntio ar hyfforddi ysgolion newydd i weithredu'r rhaglen. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys tasgau anghydamserol, sesiwn hyfforddiant byw am ddiwrnod llawn gyda thîm RILL (dim mwy na 5 athro i bob sesiwn ar-lein) a thrafodaeth ddilynol fer. Roedd sesiynau galw heibio hefyd ar gael yn wythnosol i'r rheiny oedd arnynt angen rhagor o gymorth parhaus. Cynhaliwyd rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb hefyd gyda'r ysgolion oedd yn cymryd rhan.

Yn ogystal â rhwydwaith Hwb, ble gall athrawon gael gafael ar wybodaeth a deunyddiau hyfforddiant, gofyn cwestiynau a myfyrio ar eu profiadau, crëwyd gwefan newydd sydd â gwybodaeth a deunyddiau cefnogi i ysgolion, athrawon a rhieni. Ar y wefan ceir hefyd deunyddiau newydd i rieni eu defnyddio gartref gyda'u plant - gan gynnwys geirfa newydd, stori, pwyntiau trafod i annog rhyngweithio a defnyddio iaith lafar. Mae'r deunyddiau hyn yn cyd-fynd â'r deunyddiau RILL cyfrwng Cymraeg a bwriedir iddynt gael eu gosod fel gwaith cartref gan yr athro cyn y wers. Mae'r rhain yn cynnwys disgrifiadau/cyfieithiadau Saesneg i rieni di-Gymraeg, yn ogystal â fideos i gefnogi darllenwyr llai hyderus. Rydym hefyd wedi datblygu a pheilota batri o asesiadau ar-lein i gofnodi data effaith RILL.

Yn 2022-23, yr amcan cyntaf oedd ymestyn RILL i ddarparu rhaglen iaith a llythrennedd yn y Gymraeg dros bymtheg wythnos gan ddefnyddio technoleg i blant difreintiedig a phrofi pa mor effeithiol ydyw o ran gwella sgiliau iaith a darllen Cymraeg. Llwyddwyd i recriwtio 20 ysgol. Rydym wrthi'n recriwtio 60 ysgol yn rhagor ar draws Cymru i gael hyfforddiant RILL yn Nhymor y Gwanwyn 2023.

Yn ystod Tymor yr Hydref, bu RILL yn canolbwyntio ar ddatblygu 30 o wersi Cymraeg a Saesneg newydd a chynnig hyfforddiant mewn person i ysgolion weithredu'r rhaglen. Crëwyd gwefan newydd sydd â gwybodaeth a deunyddiau cefnogol i ysgolion, athrawon a rhieni.
https://sites.google.com/view/rillcymraeg/am-rill.

Yn ystod Tymor y Gwanwyn 2023, canolbwyntiwyd ar gefnogi ysgolion sydd yn rhan o broses werthuso RILL ac addasu'r gwersi i ymateb i'r sylwadau gan yr ysgolion hyn. Rydym hefyd wedi dechrau creu deunyddiau dosbarth cyfan i gyd-fynd â gwersi parod RILL. Yn ystod Tymor yr Haf 2021, trefnir gweithdy ble bydd penaethiaid, athrawon a chymorthyddion dysgu yn adrodd yn ôl ar y deunyddiau drafft ac yn cynnig eu syniadau eu hunain am weithgareddau newydd.

Rydym hefyd wedi cysylltu â chonsortia ar draws Cymru gyda'r bwriad o drefnu o leiaf un diwrnod hyfforddiant ym mhob sir, cyn diwedd y flwyddyn academaidd; Hyfforddwyd 11 ysgol eisoes yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd, mae tair sesiwn hyfforddiant ychwanegol wedi'u trefnu; dwy ym Mangor ar gyfer ysgolion Gogledd Cymru (24 a 27 Ebrill; 16 ysgol eisoes wedi cofrestru) ac un yn y De-ddwyrain (14 Mehefin). Yn ogystal â'r hyfforddiant ar draws Cymru, yn ystod tymor yr Haf canolbwyntir ar gynnal asesiadau dilynol gyda phlant y gwerthusiad rhwng mis Mai a mis Gorffennaf.

# 7. CEFNOGI SYSTEM SY’N HUNAN WELLA

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, yr ymgysylltu a'r effaith**

Mae trefniadau mwy cadarn ar waith ar draws y rhanbarth lle mae arweinwyr ysgolion yn cydweithio i gefnogi ei gilydd mewn clystyrau a/neu gynghreiriau ac yn cymryd perchnogaeth ac atebolrwydd cynyddol o daith wella ei gilydd. Oherwydd y gweithdrefnau effeithiol hyn i gefnogi ysgolion gyda’u hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant:

- caiff ysgolion eu herio'n gadarn ar ansawdd eu prosesau hunanarfarnu.
- mae ysgolion wedi ymrwymo i gylch o hunan-adolygu ac adolygu cymheiriaid a chymorth ar y cyd i wella meysydd blaenoriaeth.
- mae gan nifer cynyddol o ysgolion uwch arweinwyr sydd wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid a hwyluswyr gwelliant ac sy'n cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau adolygu cymheiriaid.
- yn ogystal â'r rhwydweithiau a'r fforymau, mae cymorth penodol ar gael i bob ysgol ac mae'r targedu hwn wedi arwain at welliannau amlwg mewn sawl achos.
- mae ysgolion yn gwella'n gynyddol am rannu eu harfer gyda chyfoedion.

## AMCAN 5: CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA

Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i fod yn dysgu a gwella eu harferion yn gyson

### YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID

**Parhau i ddatblygu prosesau adolygu gan gymheiriaid ymhellach mewn ysgolion er mwyncefnogi gweithrediadau hunan arfarnu cadarn a gwaith cynllunio gwelliant ar bob lefel.**
**Parhau i ddatblygu’r gallu i arwain ledled y system.**
**Gwreiddio adolygu gan gymheiriaid fel agwedd allweddol ar wella ysgolion ledled y rhanbarth.**

Ceir cytundeb â phenaethiaid ar egwyddorion rhanbarthol ymgysylltu â chymheiriaid ers pum mlynedd bellach. Cytunwyd ar fodel adolygu a chynllunio gwelliant gan gymheiriaid (y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion) a chafodd y cynllun hwnnw ei ardystio gan y Bwrdd Rheoli a’r Cyd-bwyllgor.

Derbyniodd holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Erbyn Mawrth 2023 mae 29 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi’u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid a hwyluswyr gwelliant fel rhan o’r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (RhPY). Derbyniodd holl aelodau newydd staff GwE eleni ddiweddariad ar hyfforddiant y RhPY.

Cafodd 13 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant hyfforddiant cychwynnol yn ystod mis Hydref 2021 fel cyflwynwyr rhaglen, ac yn dilyn rhaglen o gysgodi hyfforddiant yn ystod Ebrill 2022 fe gyflwynwyd y rhaglen gyntaf o hyfforddiant RhPY wedi’i hwyluso yn llwyr gan staff GwE i garfan 3b yn ystod mis Mai 2022. Erbyn Mawrth 2023, mae 20 Ymgynghorwr Cefnogi Gwelliant ychwanegol wedi derbyn hyfforddiant fel cyflwynwyr rhaglen. Golyga hyn bod 33 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant bellach â’r gallu i gyflwyno’r rhaglen yn llwyddiannus. Yn dilyn y cynnydd hwn mewn capasiti i gyflwyno’r rhaglen darparwyd hyfforddiant cychwynnol i 90 o ysgolion yng ngharfan 3C gan dîm hwyluswyr GwE.

Erbyn Mawrth 2023, mae 43 clwstwr/ cynghrair (254 ysgol) wedi derbyn hyfforddiant y RhPY, ac maent wedi mynd ati eisoes, neu’n paratoi, i gyflawni gwaith adolygu gan gymheiriaid yn ystod tymor yr haf 2023. Mae

271 o benaethiaid / uwch arweinwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid ledled y rhanbarth. Mae 233 o uwch arweinwyr / arweinwyr canol ac athrawon medrus wedi'u hyfforddi fel hwyluswyr gwelliant. Bu hyn yn fodd i'r arweinwyr a'r athrawon fanteisio ar addysg broffesiynol o safon a fyddai'n cyfrannu tuag at wella'r capasiti o ran arweinyddiaeth ledled y rhanbarth. Roedd yr haen gyntaf a'r ail haen o ysgolion cynradd a'r clystyrau sydd ynghlwm wedi derbyn hyfforddiant ymestynnol ar gyfer eu hwyluswyr gwelliant erbyn mis Mawrth 2023, gyda'r ffocws ar ddatblygu'r defnydd cynyddol ac effeithiol o ymchwil yn eu gweithdai gwelliant. Yn ogystal, darparwyd cyfleoedd ar draws y rhanbarth i ysgolion a phartneriaethau ehangu eu capasiti i weithredu'r rhaglen drwy hyfforddi hwyluswyr gwelliant ychwanegol.

Prif amcan y cynllun yw cynnig hyfforddiant RhPY i bob un o'r 407 ysgol ranbarthol a'r Unedau Cyfeirio. Y bwriad yw hyfforddi tua 15 o glystyrau bob tymor yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22 ac 2022-23. Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â'r gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i werthuso'u cynnydd wrth gyflawni'r daith ddiwygio. I'r perwyl hwn, mae cyfres o gwestiynau adlewyrchol gyda ffocws ar y daith diwygio wedi'u creu i gyd-fynd â'r broses gymheiriol, ac fe gyfeirir ysgolion sy'n derbyn yr hyfforddiant at yr ysgogiadau cwricwlwm sy'n rhan o'r Adnodd Cenedlaethol ar gyfer Gwerthuso a Gwella.

Ym mis Ionawr 2023, estynnwyd gwahoddiad i ysgolion a chlystyrau nad oeddent eisoes yn rhan o'r rhaglen i fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn hyfforddiant y RhPY fel rhan o garfan 4. Cafwyd cyfanswm o 43 o ysgolion yn mynegi diddordeb. Golyga hyn erbyn diwedd mis Mawrth 2023 felly bod hanner ysgolion y rhanbarth wedi derbyn yr hyfforddiant cychwynnol, a bellach wedi dechrau ar eu gwaith adolygu a chynllunio gwelliant gyda chymheiriaid, neu ar fin gwneud hynny.

Fel rhan o'n partneriaeth gyda'r Education Development Trust rhannwyd holiaduron cychwynnol â holl ysgolion y RhPY. Bydd ymchwilydd o'r EDT yn dadansoddi'r canlyniadau i fesur effaith y rhaglen ar gydweithio cymheiriaid ac arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth. Yn ogystal, mae 4 clwstwr / cynghrair o ysgolion wedi'u clustnodi i'w cynnwys mewn astudiaeth achos ag ymchwil i graffu ymhellach ar effaith y rhaglen yn y flwyddyn 2022-23.

## CYMELL A MENTORA

**Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mynediad at gymell a mentora, i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau sydd yn briodol i'w rôl a'i gyfrifoldeb, yn unol â safonau proffesiynol.**

Mae arweinwyr o ysgolion uwchradd, cynradd ac arbennig, yn ogystal â staff GwE, wedi dilyn y rhaglen cymell a mentora genedlaethol.Yn ôl adborth cafodd y rhaglen effaith gadarnhaol ar unigolion mewn ysgolion a hefyd ar waith y gwasanaeth rhanbarthol wrth gefnogi ysgolion a chlystyrau.

Mae gwybodaeth am gymhwyster lefel 3 wedi'i rhannu yn dilyn y sesiynau cenedlaethol a gwybodaeth am gymwysterau lefel 5 a 7 wedi'i rhannu ag ysgolion a staff GwE.Mae gwahoddiadau i sesiynau goruchwyliaeth wedi'u rhannu a sesiynau 'Man Adlewyrchu' wedi'u rhannu ag ysgolion a staff GwE ddechrau'r flwyddyn.

## YSGOLION SY'N DESTUN PRYDER

**Cryfhau ymhellach strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi a herio ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n destun pryder.**

Parheir i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Estyn a'r ALl rhanbarthol ar y peilot cenedlaethol amlasiantaethol i ysgolion uwchradd mewn Mesurau Arbennig ac ar gymorth Cam 3 i'r ysgolion hynny a dynnwyd allan o

gategori yn ddiweddar.

Parheir hefyd i gydweithio â swyddogion yr ALl i gryfhau strwythurau ymhellach a sicrhau mwy o gysondeb mewn strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi a herio ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n destun pryder. Mae strategaeth glir ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder ac mae gan bob ysgol sydd wedi'i hadnabod gynllun cymorth holistaidd yn nodi'n glir natur a dwyster y cymorth a roddir a'r gwelliannau sydd eu hangen. Bydd grŵp amlasiantaethol o uwch swyddogion, swyddogion arweiniol o'r gwasanaethau perthnasol a staff GwE yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth a thystiolaeth fel bod pryderon yn cael eu hadnabod yn fuan. Mabwysiadwyd trothwyon a sbardunau i sicrhau cysondeb wrth adnabod pryderon mewn perthynas â safonau, dysgu ac addysgu, asesu, arweinyddiaeth, cynhwysiant neu faterion rheolaethol.

Ar hyn o bryd, mae 3 ysgol uwchradd mewn Mesurau Arbennig, ac mae disgwyl y bydd un o'r rhain yn cael ei thynnu o'r categori yn ystod yr ymweliad monitro nesaf. Mae gwaith yn parhau gyda chymorth 'ymadael cynaliadwy' Cam 3 i'r ddwy ysgol a dynnwyd allan o gategori statudol yn ddiweddar.

Yn y sector Cynradd, mae 2 ysgol mewn Mesurau Arbennig. Mae prosesau grymus ar waith i gefnogi'r ysgolion trwy gynllun 360 manwl, sy'n cyd-fynd yn agos â'r Cynllun Gweithredu Ôl Arolygiad.Dim ond yn ddiweddar iawn yr arolygwyd un ysgol, felly bydd effaith gychwynnol y cymorth hwn ar safonau yn gyfyngedig. Mae'r ysgol arall wrthi'n datblygu Cynllun Gweithredu Ôl Arolygiad gyda chymorth gan GwE a'r ALl.

Roedd cynlluniau cefnogaeth 'holistaidd' pwrpasol mewn lle ar gyfer pob un o'r ysgolion uchod yn 2022-23. Ym mhob achos, caiff cynnydd ei fonitro drwy waith Grŵp Aml-asiantaethol lleol a Grwpiau Bwrdd Ansawdd. Bydd cynlluniau hefyd yn sicrhau bod pob ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid allweddol wrth iddynt gynllunio, cyflwyno ac esblygu eu cwricwlwm newydd. Bu pwyslais hefyd ar sicrhau eu bod yn gweithio'n gynyddol gyda'u cynghrair/clwstwr ac yn ehangach er mwyn gwella arweinyddiaeth, darpariaeth ac ansawdd y dysgu a'r addysgu.

Cafwyd gweithredu cadarn ac amserol mewn nifer o ysgolion rhanbarthol a oedd yn destun pryder, gan arwain at ddeilliannau arolygiad llwyddiannus lle nad oedd angen unrhyw weithgarwch dilynol. Mae cymorth pwrpasol ac effeithiol wedi golygu bod 4 ysgol wedi cael eu tynnu allan o gategori rhwng hydref 2021 a gwanwyn 2023. Mae'r dull tîm o amgylch yr ysgol yn esgor ar welliannau pendant yn ansawdd yr arweinyddiaeth a'r addysgu mewn nifer o ysgolion sy'n destun pryder.

## YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU (YSD)

**Sicrhau bod GwE a'i weithlu yn parhau i ymateb i holl ofynion a gwerthoedd Sefydliad sy'n Dysgu.**
Mae ysgolion y rhanbarth wedi cymryd camau breision yn datblygu'r 4 thema trawsliniol o amser, technoleg, ymddiriedaeth a meddwl gyda'u gilydd yn ystod y cyfnod covid ac mae hyn wedi rhoi sylfaen gadarn i'r ysgolion allu parhau i ddatblygu yn eu dulliau o gydweithio a chyfathrebu.

Mae'r diwylliant o YSD i'w weld yn amlwg yn mwyafrif yr ysgolion, er nad ydynt efallai yn defnyddio'r eirfa o amgylch y 7 dimensiwn. Ble mae'r YSD ar ei orau mae'n digwydd yn ddilyffethair yn yr ysgolion heb deimlad o fod yn unrhyw fwrdwn ychwanegol. Mae dyfodiad y Fframwaith Gwella Ysgolion a'i flaenoriaethau hefyd wedi helpu i osod cyfeiriad clir i'r ysgolion o'r angen i gydweithio gyda'u gilydd er lles y dysgwyr a'r dalgylchoedd. Yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus mae'r arweinwyr wedi adnabod datblygu i fod yn YSD fel y cerbyd ar gyfer gyrru'r Cwricwlwm ac wedi gallu gwneud hyn yn ddilyffethair.

**Helpu ysgolion ar draws y rhanbarth i gael dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn yw Sefydliad sy'n Dysgu, fel ei fod yn dod yn rhan naturiol o ddiwylliant ysgolion.**
Mae'r dealltwriaeth o ran bod yn YSD wedi datblygu mewn sawl ysgol, ond mae'r cyfnod clo wedi golygu fod rhai ysgolion, yn enwedig ble mae'r arweinyddiaeth wedi newid, angen diweddariad o ran pwysigrwydd y gwaith fel bod y diwylliant yn wybodus i holl randdeiliaid yr ysgol. Yn yr arfer orau mae awdurdod wedi cynnal diweddariad i'w holl ysgolion a chynnig arweiniad ar y maes i'w llywodraethwyr. Mae peth gwaith i'w wneud i ddiweddaru ysgolion o ran YSD a bwriedir gwneud hyn trwy gyfres o weithdai dewisol ar draws y rhanbarth.

**Cryfhau ymhellach ein partneriaeth gyda SAU a datblygu ymwybyddiaeth myfyrwyr o YSD.**
Mae angen gwneud gwaith datblygu pellach gyda'n partneriaid SAU i edrych ar Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a sicrhau bod gan ein myfyrwyr ddealltwriaeth ddyfnach o YSD a'u gwerthoedd.

## 8. BUSNES

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, yr ymgysylltu a'r effaith**
Oherwydd y fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn GwE:
- mae'r model cynllunio a rheoli perfformiad yn mynegi gweledigaeth, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion y gwasanaeth yn glir.
- mae ffocws cryf ar atebolrwydd, adolygu parhaus, a phwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- mae gwerth am arian, gwerthuso a dal effaith yn cael eu hymgorffori'n gryf drwy holl waith GwE.
- mae dadansoddiad ariannol cadarn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun busnes.

### AMCAN 6: BUSNES
Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

**Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd**
Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae'r Fframwaith Cynllunio Busnes sydd ar waith, gyda cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio, yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlynedd strategol wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rhydd strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol. Mae cynlluniau wedi'u costio'n llawn, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni amcanion.

Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau bob chwarter, gan arfarnu cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb am welliant parhaus ac atebolrwydd. Trwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.Adroddir am y cynnydd yn erbyn y cynllun busnes rhanbarthol bob chwarter, i'r Cyd-bwyllgor.

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro bob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr.

Bydd y Bwrdd Rheoli yn monitro materion yn ymwneud â llywodraethiant yn barhaus ac mae gan GwE weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol. Lluniwyd cyfres o adroddiadau a'u rhannu â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys barn ysgolion, staff ac awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd arferion rhanbarthol. Ym mhob adroddiad, disgrifir ansawdd y ddarpariaeth a nodir y meysydd i'w gwella er mwyn gyrru'r agenda dysgu yn ei blaen.

**Gwerth am Arian**

Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy'r broses hunan arfarnu, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

**Cofrestr Risg**

Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach.Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor wybod amdanynt.

Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio adnoddau yn effeithiol a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

# 9. BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL AR GYFER DATBLYGIAD A GWELLIANT PELLACH

Nodwyd y meysydd a ganlyn fel blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygiad a gwelliant pellach, ac maent wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2023-2024:

- parhau i gryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel gyda ffocws penodol ar wella hunan arfarnu a phrosesau cynllunio gwelliant ymhellach.
- datblygu ymhellach gapasiti uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i arwain dysgu ac addysgu yn effeithiol
- cryfhau ymhellach brosesau atebolrwydd ar draws ysgolion er mwyn sicrhau ymyraethau grymus ac amserol i fynd i'r afael â thanberfformio
- gofalu bod arweinwyr uwchradd yn cymryd rhan weithredol mewn cydweithio cymheiriol ac adolygu gan gymheiriaid
- cryfhau systemau ar gyfer gwerthuso effaith strategaethau gwelliant ar safonau a chynnydd dysgwyr
- cryfhau ymhellach ansawdd addysgu ac asesu i leihau amrywiad o fewn ac ar draws ysgolion
- cryfhau ymhellach ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau dysgwyr
- gofalu bod ysgolion yn gweithredu dulliau grymus i gefnogi dysgwyr sy'n fregus i ddysgu
- datblygu ymhellach raglenni tracio ac ymyrraeth i fynd i'r afael â thanberfformio ac amrywiad mewn ysgolion, ac yn enwedig yng nghyd-destun dysgwyr bregus.
- gofalu bod pob ysgol uwchradd yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus i Flynyddoedd 7 ac 8 o fis Medi 2023
- gofalu bod ysgolion yn darparu tegwch i bob dysgwr, a bod ganddynt amgylchedd dysgu cynhwysol i gefnogi'r rheiny sy'n fregus i ddysgu
- datblygu ymhellach y ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd i sicrhau cynnig ystyrlon a phwrpasol i'r ystod gallu yng nghyfnod allweddol 4
- sicrhau bod pob clwstwr cynradd/uwchradd yn gweithredu cynlluniau pontio effeithiol.
- gofalu bod yr ysgolion sydd yn dal mewn categori statudol yn dangos fwy o gyflymder mewn gwelliannau, a gwelliannau clir yn ansawdd y dysgu a'r addysgu ac yn ansawdd yr arweinyddiaeth ar draws yr ysgol.

Am fwy o fanylion, gweler Cynllun Busnes GwE ar gyfer 2023-2026.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding





# Cynllun Busnes GwE

# 2022-2023

# Data Rhanbarthol

# Adroddiad Blynyddol

CYNLLUN BUSNES 2022-2023

**BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RANBARTHOL 2022-2023**

**Data Rhanbarthol**

**AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU**

**Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.**

**CONTINWWM ADDYSG 3 i 16**

**Data rhanbarthol:**

**Prosiect pontio addysgeg**

- Ysgolion: 25

**Gweithdy Pontio:**

- Ysgolion: 284

**Pecyn cymorth 3-8 Tymor:**

- Cymorth i ysgolion: 74
- Nifer o ymweliadau: 184
- Cymorth clwstwr (nifer ysgolion): 132
- Rhwydwaith 3-8: 735 wedi mynychu yn rhanbarthol
- Gweithdai i Athrawon a Chymorthyddion Dysgu newydd i'r oedran 3-8: 778 wedi mynychu yn rhanbarthol

**GWIREDDU'R CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)**

**Data Rhanbarthol:**

**Niferoedd yn mynychu'r sesiynau Dysgu Proffesiynol CiG cenedlaethol ar-lein:**

- Cyfanswm o 668 ar draws Cymru - 251 o GwE

**TIMAU MDaPh**

**Data rhanbarthol :**

**Mwy o ymweliadau â'r wefan - mynediad i ddeunyddiau ac enghreifftiau a rennir gan rwydweithiau ac ysgolion:**

Rhwng 1/9/21 a 20/1/23

- 8418 CfW GwE Support Centre
- 8100 CiG Canolfan Cefnogaeth GwE

Between 1/9/21 a 30/3/23:

- 9021 CfW GwE Support Centre
- 8504 CiG Canolfan Cefnogaeth GwE

**AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL**

**Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion**

| IEITHOEDD TRAMOR MODERN |
| --- |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>**Webinars cynradd**<br>• Power Language + Institut français: Mai - Mehefin 2022: 35 ysgol (41 o athrawon)<br><br>**Uwchsgilio cynradd:**<br>• Mehefin - Gorffennaf 2022- 3 sesiwn - 8 ysgol (13 o athrawon)<br>• Tachwedd 2023 - 1 sesiawn - 7 ysgol - (9 o athrawon)<br>• Ionawr 2023 - 2 sesiwn - 8 ysgol (10 o athrawon)<br><br>**Power Language – Hyfforddiant Cynradd:**<br>• 16.11.22 - 28 ysgol (30 o athrawon)<br>• 21.3.23 - 31 ysgol (36 o athrawon)<br><br>**Cyfarfod Rhwydwaith Cynradd**<br>• Chwefror- Mawrth 2023 – Nifer ysgolion: 25<br><br>**Cerdd Iaith Almaeneg:**<br>• Nifer yr ysgolion: 3<br><br>**Rhannu arferion llwyddiannus Cynradd Chwefror 2023**<br>• Nifer yr ysgolion: 6<br><br>**Rhaglen Dylunio ar gyfer Ieithoedd**<br>Hydref 2022 – Mawrth 2023<br>• Ieithoedd Rhyngwladol a'r Gymraeg: 26 ysgol<br><br>**Cyfarfod Rhwydwaith Uwchradd**<br>• Tachwedd 2022 - Nifer yr ysgolion: 29<br>• Chwefror 2023 - Rhannu Arferion Llwyddiannus: 15 ysgol |
| **CALU - LLDC** |
| **Data rhanbarthol :**<br><br>**Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi:**<br>• 62<br><br>**Cymorthyddion wrth eu Gwaith:**<br>• 137<br><br>**Darpar CALU Cylch 4, 5 a 6:**<br>• 88<br><br>**Statws CALU Cylch 3 a 4:**<br>• 38<br><br>**Hyfforddiant Aseswyr CALU newydd:**<br>• 5<br><br>**Cyflwyniad i Cwricwlwm i Gymru:**<br>• 219 |

## Y Gymraeg (DP)

**Data Rhanbarthol*:***

**Cyrsiau Sabothol 2022-2023:**

- 27

**GwE yn mynychu fforymau penaethiaid:**

- 7

**Ein Llais Ni**

- Astudiaethau achos wedi eu cyflwyno: 65
- Ysgolion wedi ymrwymo i'r prosiect: 81

**Mynediad i gyrsiau y Ganolfan Dysgu genedlaethol**

- Cyfanswm gweithgareddau dysgu: 54
- Nifer sy'n parhau â'r gweithgareddau dysgu: 23

## SAFON UWCH

**Data Rhanbarthol:**

**Nifer fynychodd y gynhadledd i arweinwyr Ôl-16:**

- 35

## YMCHWIL A GWERTHUSO

**Data Rhanbarthol:**

**Prosiect Ymchwil gwrth-fwlio KiVa:**

- Nifer o ysgolion: 30

## AGA

**Data Rhanbarthol:**

- Cynnydd sylweddol yn nifer (%) yr athrawon cyflenwi byrdymor (STS) oedd yn bresennol yn sesiynau cenedlaethol 1 a 2 y rhaglen dysgu proffesiynol. Roedd 51 (81%) athro cyflenwi byrdymor newydd gymhwyso sydd mewn gwaith yn Sesiwn 1, sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

- Rhaglen Dilyswyr Allanol - Mynychodd 100% o Ddilyswyr Allanol GwE (83) a'r Mentoriaid Allanol y gweithdy hyfforddi Cenedlaethol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r Broses Sefyldu ANG.

- Nifer yr ANG a fynychodd y sesiynau DP gorfodol: 172

## DIGIDOL

**Data Rhanbarthol:**

**Nifer a gofrestrwyd ar gyfer Hyfforddiant Digidol:**

- 386

## MATHEMATEG A RHIFEDD

**Data Rhanbarthol:**

| | Nifer yr ysgolion | Nifer ymweliadau |
|---|---|---|
| Cymorth pynciol unigol i ysgolion cynradd | 6 | 18 |
| Cymorth unigol i ysgolion uwchradd | 32 | 79 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd rhwydwaith i Benaethiaid Mathemateg | 47 | N/A |

## SAESNEG A LLYTHRENNEDD

**Data Rhanbarthol:**

**Cymorth unigryw i ysgolion:**

- Cynradd: 145
- Uwchradd: 50

## CYMRAEG A LLYTHRENNEDD

**Data Rhanbarthol**

**Cyfarfodydd Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg (ysgolion cyfrwng Saesneg)::**

- 19

**Cyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog):**

- 20

**Rhwydwaith Cefnogol y Gymraeg (Ysgolion cyfrwng Saesneg)**

- **3**

**Prosiect 'Ein Llais Ni' (GwE)**

- Nifer yr ysgolion uwchradd yn rhan o'r prosiect: 12

**Prosiect 'Dylunio ar gyfer Ieithoedd CiG'**

- Adrannau y Gymraeg ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r prosiect: 6

**Aelodau o'r Teams / Google Classroom 'GwE':**

- Y Gymraeg: 27
- Y Gymraeg – Uwchradd YCS: 19

## GWYDDONIAETH

**Data Rhanbarthol:**

**Rhwydweithiau Penaethiaid Gwyddoniaeth Tymor yr Hydref 2022:**

- 37

**Rhwydwaith Grŵp Datblygu Technoleg:**

- 6 ysgol

**Rhwydweithiau Penaethiaid Gwyddoniaeth Tymor y Gwanwyn 2023:**

- 38

**Wedi derbyn cymorth ysgol penodol:**

- 22

| OEDRAN 3-8 |
|---|

**Data Rhanbarthol:**

**Cymorth i ysgolion:**

- Nifer ysgolion: 74
- Nifer o ymweliadau: 184
- Cymorth clwstwr (nifer ysgolion): 132

**Rhwydwaith 3-8 Tymor:**

- 735 wedi mynychu yn rhanbarthol

**Gweithdy i Athrawon a CD yn newydd i'r grŵp oedran 3-8:**

- 778 wedi mynychu yn rhanbarthol

**AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH**
**Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol**

| ARWEINYDDIAETH |
|---|

**Data Rhanbarthol:**

| | 2021-22 |
|---|---|
| 1.Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol | 102 |
| 2.Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr | 72 |
| 3.Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi at CPCP) | 35 |
| 4.Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro | 32 |
| 5.Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol | 17 |
| **CYFANSWM** | **258** |

**Niferoedd yn dilyn Rhaglenni arweinyddiaeth**

| Rhaglen | 2021-22 | 2022-23 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| MLDP | 74 | 86 | +14% |
| RhDAG | 29 | 41 | +30% |
| SLDP | 44 | 74 | +40% |
| RhDUA | 27 | 30 | +10% |
| | | | |
| Cyfanswm | 174 | 231 | +25% |

| Rhaglen / Programme | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|
| RhDDB (CPCP) / AHT (NPQH) | 35 | *35 cais |
| Penaethiaid Newydd a Mewn gofal / New and Acting Headteachers / | 15 | 30 |
| Penaethiaid Profiadol / Experienced Headteachers | 17 | 6 |

**AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL**

**Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant**

**AILGYNAU'R DYSGU**

**Data rhanbarthol :**

**Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR)**

- Mae 52 ysgol a 66 athro wedi cofrestru a chael mynediad at fideos hyfforddiant ar-lein.

**Dyma niferoedd yr athrawon sydd wedi defnyddio Google Classroom:**

- Mae 63 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg.
- Ysgolion wedi cofrestru i gael mynediad i'r fideos hyfforddi a'r adnoddau ymyrraeth yn (2021/22): 52
- Ysgolion wedi cofrestru i gael mynediad at y fideos hyfforddi a'r adnoddau ymyrraeth (Medi 2022): 31

**Sesiynau hyfforddi iFOR**

- Cofrestrodd 28 ysgol a 32 o athrawon i gael hyfforddiant ac adnoddau yr ymyraethau rhuglder darllen (Darllen Ailadroddol a Geiriau Amledd Uchel).

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).**

- Niferoedd ysgolion GwE yn cymryd rhan: 45

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).**

Dyma fanylion ynghylch niferoedd athrawon a rhieni ac ymweliadau â'r adnoddau ar-lein:

| | 07/2021 | 07/2022 |
|---|---|---|
| Nifer yr ysgolion sydd wedi adnewyddu trwydded(au) yn uniongyrchol gyda SR er mis Medi 2021 | 30 | 15 |
| Nifer y disgyblion sydd wedi ymuno â Google Classroom | 40 | 40 |
| Nifer y staff sydd wedi ymuno â Hwb | 71 | 73 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Headsprout gartref (Rhieni ac aelodau staff) | 399 | 513 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i ddefnyddio straeon Headsprout (Rhieni) | 106 | 363 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i weinyddu Meincnodau (Rhieni) | 18 | 46 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i weinyddu Meithrin Rhuglder (Rhieni) | 13 | 54 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i drefnu treial am ddim/prynu neu | 65 | 77 |

| | | |
|---|---|---|
| adnewyddu trwydded (Staff ysgol) | | |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i ychwanegu disgyblion at y rhaglen (Staff ysgol) | 84 | 135 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i wirio sgorau (Staff ysgol) | 39 | 85 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i fewnbynnu sgorau Meincnod (Staff ysgol) | 16 | 25 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i gael mynediad i Google Classroom (Rhieni) | 33 | 50 |
| Gweminar 1 Cychwyn arni gyda Headsprout | - | 2 |
| Gweminar 2 Monitro cynnydd wrth ddefnyddio Headsprout | - | 0 |

**Sesiynau KPR**

- Nifer a fynychodd: 9

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR)**

- Cyfanswm ysgolion GwE a ymgysylltwyd: 45
- Cofrestrodd wyth ysgol ac 16 athro i gael mynediad i Weminar 1 ac 1 ysgol ac ymunodd 1 athro i gael mynediad i Weminar 2.

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - CAM 2**

- Hyfforddwyd 33 o ysgolion mewn RILL (58 o athrawon) yn ystod blwyddyn ysgol 2021-22, gyda'r mwyafrif yn gyfrwng Cymraeg
- Mae chwe deg un o ysgolion wedi eu hyfforddi mewn RILL yn ystod tymor yr Hydref 2022 (RILL Cymraeg = 27 ysgol, 39 o athrawon; RILL Saesneg = 34 ysgol, 60 o athrawon).

**STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI/GOFALWYR**

**Data Rhanbarthol:**

**Defnyddwyr wedi cofrestru ar draws y rhanbarth:**

- Helpu Eich Plentyn i Ddysgu: 378
- Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu: 451

**AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA**

**Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r capasiti i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson**

**YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID**

**Data Rhanbarthol:**

**Nifer o ysgolion/clystyrau/cynghreiriau wedi ymrwymo:**

- 206 / 37

**Nifer o Adolygwyr Cymheiriaid a hyfforddwyd:**

- 266

**Nifer o Hwyluswyr Gwelliant a hyfforddwyd:**

- 226

**YSGOLION SY'N DESTUN PRYDER**

**Data Rhanbarthol:**

**Ysgolion uwchradd**

- Mesurau Arbennig: 3
- Gwelliant Sylweddol: 1

**Ysgolion cynradd**

- Mesurau Arbennig: 2
- Gwelliant Sylweddol: 2

**CYMELL A MENTORA**

**Data Rhanbarthol:**

**Hyfforddiant Cymraeg Hyfforddi'r Hyfforddwr:**
- 21 (56% o'r cohort Cymraeg Cymru gyfan)

**Hyfforddiant Saesneg Hyfforddi'r Hyfforddwr:**
- 32

**Achrediad Cymell Lefel 3**
- 2 staff GwE, 4 o ysgolion

**Hyfforddiant CiG Hyfforddi'r Hyfforddwr**
- 6 staff GwE

**Mynychu Hyfforddiant Cymell Lefel 7**
- 11 o staff GwE, 6 o ysgolion

**Achrediad Cymell Lefel 7**
- 5 staff GwE, 1 o ysgolion

**Mynychu Hyfforddiant Iechyd Meddwl a lles Lefel 7**
- 11 o staff GwE, 1 o ysgolion

**Mynychu Hyfforddiant Goruchwyliaeth Cymell Lefel 7**
- 5 o staff GwE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 MAI 2023**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli |
| **Pwnc:** | Cynllun Busnes GwE 2023-2026 |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cynllun Busnes Rhanbarthol 2023-2026 i aelodau'r Cyd-bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae'r Cynllun Busnes hwn yn un dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2023 a 2026, ac mae hefyd yn cynnwys Cynllun Busnes Manwl 12 mis ar gyfer 2023-2024. Mae'n gosod allan weledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiadau GwE, ein hamcanion strategol ar gyfer 2023-2026, a'r blaenoriaethau gwella a'r rhaglenni gwaith i'w cyflawni dros y 12 mis nesaf. Mae hefyd yn cynnwys cofrestr risg strategol lefel uchel.

2.2 Mae gan GwE gynllun clir sy'n amlinellu sut y bydd, drwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, yn cryfhau arweinyddiaeth, yn gwella'r dysgu a'r addysgu, yn codi'r dyhead i gael effaith ar safonau, gan sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cynnal lles dysgwyr ac ymarferwyr.

2.3 Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau prosesau hunan arfarnu mewnol, ac adolygiadau allanol o arferion presennol a chyfeiriad y daith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol.

2.4 Rhydd y Cynllun Busnes sylw i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE. Mae'r ffactorau hyn wedi'u nodi a'u plethu yn ein hamcanion strategol a'n blaenoriaethau. Yn ogystal, bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel bo'n briodol.

2.5 Mae'r cynllun yn corffori sut y bydd GwE yn ymateb i effaith y cyfnod ar ôl Covid yng nghyd-destun addysg, ac yn ystyried hefyd heriau'r pandemig sydd yn dal i wynebu ysgolion a lleoliadau addysgol.

2.6 Rhoddir ystyriaeth hefyd i safbwyntiau a blaenoriaethau partneriaid haen ganol eraill fel Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

3.0 **Ystyriaethau**

3.1 Mae ein hamcanion strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol:

1. Gwella Ysgolion
2. Cwricwlwm ac Asesu
3. Datblygu dysgu ac addysgu o safon uchel
4. Arweinyddiaeth
5. Profiad addysg cadarnhaol i bawb
6. Mae Cymraeg yn perthyn i bawb
7. Busnes

3.2 Y pedwar diben ddylai fod y man cychwyn a'r uchelgais i ysgolion wrth iddynt baratoi i ddylunio'r cwricwlwm newydd. Bwriad ein blaenoriaethau yw cefnogi ysgolion wrth iddynt weithio tuag at y pedwar diben hynny.

3.3 Manylir ar y gweithgareddau a gynhelir yn ystod 2023-2024 yn y Cynllun Busnes. Mae pob blaenoriaeth yn amlinellu sut y byddwn ni'n cyfrannu at gyflawni amcanion a ffactorau cyfrannol Llywodraeth Cymru. Cefnogir y blaenoriaethau hyn gan gynlluniau manwl y gwasanaeth, sy'n amlinellu sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf. Mae'r cynlluniau yn nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i holl ysgolion y rhanbarth. Adroddir am gynnydd yng nghyd-destun gweithredu, deilliant/effaith a'r proffil gwariant bob chwarter.

3.4 Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlynedd strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Trwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu. Adroddir am gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol bob chwarter, i'r Cyd-bwyllgor.

3.5 Yn ogystal, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Amlinellir y cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i holl ysgolion y rhanbarth a sut y maent yn cyfrannu i flaenoriaethau awdurdod lleol, yn unol â'u Cynlluniau Corfforaethol a'u rhaglenni craffu. Bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel bo'n briodol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE. Adroddir am gynnydd yn erbyn blaenoriaethau rhanbarthol bob chwarter i'r Awdurdodau Lleol, ynghyd â throsolwg awdurdod lleol penodol.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Busnes Rhanbarthol ar gyfer 2023-2026.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Thîm GwE, Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2023-2026

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae'r Cynllun Busnes yn nodi cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, a gwerth am arian, ymhlith eraill. Mae'r Cynllun yn amlinellu sut bydd GwE yn gwneud defnydd o'i gyllideb yn ystod 2023/24, ac rwyf yn cadarnhau'r sylw ym mharagraff 5 o'r adroddiad blaen sy'n datgan bydd GwE yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Cynllun Busnes o fewn ei gyllideb gyfredol.

# Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE



*Ebrill 2023 - Mawrth 2026*

*[Yn cynnwys Cynllun Blynyddol 2023-2024]*

GwE



Cyngor Gwynedd Council · Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council · Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

# C Y N N W Y S


**01** EIN GWELEDIGAETH, EIN GWERTHOEDD A'N HYMDDYGIAD

**02** CYD-DESTUN RHANBARTHOL

**03** CYFLWYNIAD O'R CYD-DESTUN CENEDLAETHOL

**04** CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL GwE

- Amcanion Strategol
- Meysydd â blaenoriaeth ar gyfer gwelliant
- Cynllun Busnes GwE 2023-2024

**05** LLYWODRAETHU: MONITRO AC ARFARNU

**06** COFRESTRU RISG

**07** CYLLIDEB A CHYLLID GwE

**08** DOGFENNAU ATEGOL YCHWANEGOL


# 1. Ein Gweledigaeth, ein Gwerthoedd a'n Hymddygiad

## Cydweithio, Dysgu, Llwyddo

### EIN GWELEDIGAETH

- Craidd ein gwaith yw uchelgais gwirioneddol i weld yr ysgolion a'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn cyflawni eu dyheadau a gweld pob dysgwr yn llwyddo.
- Yn Gymry balch ac â gwybodaeth ryngwladol, byddwn yn cefnogi ein ysgolion i ddod yn sefydliadau dysgu llwyddiannus a hyderus. Cydweithiwn i sicrhau'r hinsawdd a'r addysg y mae pob dysgwr yn ei haeddu er mwyn bod yn unigolion galluog a gwydn sy'n gwireddu eu llawn botensial.

### EIN GWERTHOEDD




### EIN YMDDYGIAD

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn gyson, yn wrthrychol ac yn deg wrth ein gwaith, gan werthfawrogi ymdrech, cyfraniad a chyflawniad pawb. | Byddwn yn broffesiynol, yn onest ac yn agored yn ein gwaith gyda phawb. Mae hyn yn greiddiol i gydweithio llwyddiannus. | Byddwn yn arddangos gofal, empathi a chonsyrn am les pawb. | Byddwn yn barod i fentro gyda'n hysgolion, gan groesawu her, chwilfrydedd, dycnwch a'r parodrwydd i ddysgu o lwyddiannau a methiannau. Drwy fod yn wybodus a rhannu arfer dda anelwn at rymuso a chymell ysgolion i ymchwilio a datblygu. | Byddwn yn ddibynadwy, yn hyblyg a sensitif yn ein cefnogaeth. Byddwn yn barod i gydweithio ac i annog cydweithio mewn partneriaeth gydag eraill gan gydnabod bod lle i bawb ohonom wella, datblygu a dysgu. | Byddwn yn arddel ac yn dathlu iaith a diwylliant Cymru ym mhob rhan o'n gwaith. |

## 2. Cyd-destun Rhanbarthol

GwE yw gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarth Gogledd Cymru, sydd yn gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol Gogledd Cymru ac ar eu rhan - Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn.

Yn 2022, roedd 82,410 o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol. Mae hyn yn 21.6% o holl ddisgyblion Cymru. Mae 399 ysgol a gynhelir yn y rhanbarth, sy'n 27.1% o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru (Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion, 2022).


Roedd canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn 20.4%, sy'n gymaradwy â'r ganran yn 2021 ac yn is na'r ffigwr cenedlaethol o 23.3%. Mae'r lefel hon yn dal i fod yr isaf o'r pedwar consortiwm rhanbarthol (Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion, 2022).

Yn y rhanbarth, mae 42.3% o'r rheiny sy'n dair oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 29.7% (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

O 30 Mehefin 2022, mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 2.0% o'r boblogaeth yn y rhanbarth, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 5.1%. (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

O 31 Mawrth 2022, mae 1,425 o blant yn y rhanbarth yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, sy'n 20.1% o blant mewn gofal yng Nghymru. (Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth)

## Trosolwg o Niferoedd Ysgolion yn y Rhanbarth



# Awdurdodau Lleol

## TROSOLWG O YSGOLION / SEFYDLIADAU: YNYS MÔN


Nifer o ysgolion / sefydliadau >>> **46**

Nifer o staff **1,023**

Staff Addysgu: 520

Staff Cefnogol: 503

Math o ysgol / sefydliad



| | |
|---|---|
| Babanod a Plant Iau [5-11 oed] | 12 |
| Meithrin, Babanod a Phlant Iau | 28 |
| Uwchradd [11-18 oed] | 5 |
| Arbennig [gyda darpariaeth Ôl-16] | 1 |

Prydau Ysgol am Ddim 2022

**16.9%**

## TROSOLWG O YSGOLION / SEFYDLIADAU: GWYNEDD


Nifer o ysgolion / sefydliadau >>> **96**

Nifer o staff **1,863**

Staff addysgu: 975

Staff cefnogi: 888

Math o ysgol / sefydliad



| | |
|---|---|
| Plant Iau [7/8-11 oed] | 1 |
| Babanod a Meithrin | 1 |
| Meithrin, Babanod a Phlant Iau | 77 |
| Uwchradd [11-16 oed] | 6 |
| Uwchradd [11-18 oed] | 6 |
| Ysgol Ganol [3-16 oed] | 1 |
| Ysgol Ganol [3-19 oed] | 1 |
| Arbennig [gyda darpariaeth Ôl-16] | 2 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 1 |

Prydau Ysgol am Ddim 2022

**14.3%**

## TROSOLWG O YSGOLION / SEFYDLIADAU: CONWY


Nifer o ysgolion / sefydliadau >>> **61**

Nifer o staff **1,577**

Staff addysgu: 873

Staff cefnogi: 704

Math o ysgol / sefydliad



| | |
|---|---|
| Plant Iau [7/8-11 oed] | 5 |
| Babanod a Phlant Iau [5-11 oed] | 3 |
| Babanod a Meithrin | 5 |
| Meithrin, Babanod a Phlant Iau | 38 |
| Uwchradd [11-18 oed] | 7 |
| Arbennig [gyda darpariaeth Ôl-16] | 1 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 2 |

Prydau Ysgol am Ddim 2022

**20.8%**

## TROSOLWG O YSGOLION / SEFYDLIADAU: SIR DDINBYCH


Nifer o ysgolion / sefydliadau >>> **55**

Nifer o staff **1,695**

Staff addysgu: 855

Staff cefnogi: 840

Math o ysgol / sefydliad



| | |
|---|---|
| Plant Iau [7/8-11 oed] | 2 |
| Babanod a Phlant Iau [5-11 oed] | 2 |
| Babanod a Meithrin | 2 |
| Meithrin, Babanod a Phlant Iau | 38 |
| Uwchradd [11-16 oed] | 1 |
| Uwchradd [11-18 oed] | 5 |
| Ysgol Ganol [3-16 oed] | 1 |
| Ysgol Ganol [3-19 oed] | 1 |
| Arbennig [gyda darpariaeth Ôl-16] | 2 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 1 |

Prydau Ysgol am Ddim 2022

**21.5%**

## TROSOLWG O YSGOLION / SEFYDLIADAU: SIR Y FFLINT


Nifer o ysgolion / sefydliadau >>> **78**

Nifer o staff **2,442**

Staff addysgu: 1,240

Staff cefnogi: 1,202

Math o ysgol / sefydliad



| | |
|---|---|
| Babanod a Phlant Iau [5-11 oed] | 1 |
| Meithrin, Babanod a Phlant Iau | 63 |
| Uwchradd [11-16 oed] | 5 |
| Uwchradd [11-18 oed] | 6 |
| Arbennig [heb ddarpariaeth Ôl-16] | 1 |
| Arbennig [gyda darpariaeth Ôl-16] | 1 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 1 |

Prydau Ysgol am Ddim 2022

**23.1%**

## TROSOLWG O YSGOLION / SEFYDLIADAU: WRECSAM


Nifer o ysgolion / sefydliadau >>> **69**

Nifer o staff **2,113**

Staff addysgu: 1,016

Staff cefnogi: 1,097

Math o ysgol / sefydliad



| | |
|---|---|
| Meithrin | 1 |
| Meithrin, Babanod a Phlant Iau | 57 |
| Uwchradd [11-16 oed] | 7 |
| Uwchradd [11-18 oed] | 2 |
| Arbennig [gyda darpariaeth Ôl-16] | 1 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 1 |

Prydau Ysgol am Ddim 2022

**23.1%**

# 3. Cyflwyniad a'r Cyd-destun Cenedlaetholt

Mae'r Cynllun Busnes yn un dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2023 a 2026, ac hefyd yn cynnwys Cynllun Busnes Manwl dros 12 mis ar gyfer 2023-2024. Mae'n amlinellu amcanion strategol GwE ar gyfer 2023-2026, a'r blaenoriaethau gwella a'r rhaglenni gwaith i'w cyflawni dros y 12 mis canlynol.

Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau ein prosesau hunan arfarnu mewnol, adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Mae ein blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae GwE yn parhau i edrych tuag allan a chroesawu her oddi mewn i Gymru, a thu hwnt, tra sicrheir bod yr hyn a ddatblygir yn addas i'r cyd-destun. Mae hyn yn cynnwys gwrando'n barhaus ar lais pob rhanddeiliad, yn enwedig llais athrawon ac arweinwyr ysgolion ym mhob sector, a gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ddysgu a'u cefnogi i gyrraedd eu potensial.

Mae gan GwE gynllun clir sy'n amlinellu sut y bydd, drwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, yn cryfhau arweinyddiaeth, yn gwella'r dysgu a'r addysgu, yn codi'r dyhead i gael effaith ar safonau, gan sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cynnal lles dysgwyr ac ymarferwyr.

Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE. Rhydd y cynllun hefyd ystyriaeth i sut mae ysgolion a lleoliadau addysgol yn parhau i wynebu heriau'r pandemig.

**CYD-DESTUN A BLAENORIAETHAU CENEDLAETHOL**

Yng Ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth efo ysgolion er mwyn sicrhau bod gennym systemau a phrosesau cadarn a phwrpasol ar waith i arddel disgwyliadau cenedlaethol. Bydd ein dull gweithredu yn sicrhau ffydd a chefnogaeth pob rhanddeiliad allweddol a bod pob partner yn cymryd atebolrwydd llawn am gyflawni ei rôl a chyfrannu gyda thryloywder, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Ers 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ar gylch newid sylweddol i wireddu Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r Pedwar Diben wrth wraidd y weledigaeth gyffredin i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Fel y cyfryw, mae'r rhaglen ddiwygio uchelgeisiol hon yn bellgyrhaeddol ac yn cwmpasu pob agwedd ar y gyfundrefn addysg. Mae Llywodraethu Cymru yn cydnabod, er mwyn llwyddo i wireddu, mae'n hollbwysig bod pob agwedd ar y system ysgolion yn gyson â'r cwricwlwm newydd a'r egwyddorion sy'n sail iddo, ac yn eu cefnogi. O ran y daith ddiwygio, rydym wedi gweithredu'n integredig ym mhob agwedd ar ein gwaith o'r cychwyn cyntaf. Fe'i hystyrir o safbwynt anghenion dysgwyr a gwaelodlin ysgolion a chlystyrau unigol i fod yn cyflawni newid yn unol â disgwyliadau cytûn.

Yn genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y nodweddion cyfrannu allweddol canlynol a fydd gan ysgolion sy'n llwyddo i wireddu'r cwricwlwm:

1. Galluogi pob dysgwr, ac yn benodol y rheini o gefndiroedd difreintiedig, i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu huchelgeisiau i gyflawni eu llawn botensial, gan ddilyn amrywiaeth o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn.

2. Datblygu cwricwlwm ar y cyd, yn unol â fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, sy'n hyrwyddo amrywiaeth eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau (gan gynnwys profiadau cymdeithasol a rhyngweithiol) gyda dealltwriaeth glir o pam y mae'r rhain yn bwysig.
3. Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr.
4. Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth gynllunio cwricwlwm drwy fuddsoddi yn sgiliau ymholiad ac addysgeg pob aelod o staff.
5. Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol i bob ymarferydd mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliad sy'n dysgu.
6. Ymgorffori prosesau myfyrio, hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion, gyda phrosesau arweinyddiaeth ysgolion da yn rhagamod i hynny.
7. Bod wrth wraidd eu cymunedau – gan feithrin cydberthnasau gwell rhwng ysgolion a theuluoedd, cymunedau a chyflogwyr, i gefnogi a hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol a chyflogaeth ardderchog a'r camau nesaf mewn addysg a hyfforddiant.
8. Gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.

Mae'r ffactorau hyn wedi'u nodi a'u plethu yn ein hamcanion strategol a'n blaenoriaethau.

Bydd ein Cynllun Busnes hefyd yn cyfrannu at gyflawni chwe amcan a rannwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, sef:

| AMCAN | DISGRIFYDD |
|---|---|
| **Dysgu am Oes** fel bod pawb yng Nghymru yn dysgu, ac yn dal i ddysgu, gan ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau, a chael profiadau sydd yn berthnasol i'w bywyd heddiw ac i'r dyfodol. | Pob dysgu yn cael ei lywio gan bedwar diben y cwricwlwm, trwy gydweithio â diwydiannau a chyflogwyr ac ar draws darparwyr. |
| **Chwalu rhwystrau** fel bod dysgwyr o bod oed yn cyflawni cyfleoedd a deilliannau addysg rhagorol yn y dosbarth, ar-lein ac mewn gwaith. | Trwy adnabod yn gynnar, cyflwyno cymorth a chamau gweithredu wedi'u targedu, sicrhau bod pob dysgwr yn magu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau i fod yn ddinesydd gweithredol, gan gynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. |
| **Profiad addysg cadarnhaol i bawb,** gyda chefnogaeth ar gyfer llesiant a gwytnwch dysgwyr a staff, sy'n hanfodol ar gyfer gwella deilliannau addysg a chyfleoedd bywyd. | Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio. |
| **Addysgu ac arweinyddiaeth o safon uchel,** lle mae pawb yn elwa ar y dysgu proffesiynol gorau fel y gallant gefnogi pob dysgwr i lwyddo, yn enwedig y rheiny sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol. | Dysgu proffesiynol a chymorth gydol gyrfa wedi'i warantu i bob aelod staff, o hyfforddi cychwynnol i arweinyddiaeth, gyda phwyslais ar wireddu pedwar diben y cwricwlwm, a chapasiti a gallu i gefnogi llwyddiant pob dysgwr. |

| | |
|---|---|
| **Dysgu yn y gymuned,** gyda sefydliadau cadarn yn frwdfrydig, yn rhan o'u cymunedau ac yn cael eu grymuso gan eu cymunedau. | Grymuso dysgwyr a chymunedau i gael perthynas gadarn gyda darparwyr addysg, fel y gallwn fynd i'r afael â difreintedd a darparu addysg o'r radd flaenaf yn lleol ac yn genedlaethol. |
| **Mae Cymraeg yn perthyn i bawb,** gan roi mynediad cyfartal at yr iaith i bob dysgwr, a chyfle i bawb gyflawni ei botensial. | Annog defnyddio'r Gymraeg ar draws y system addysg fel rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru a'n dyheadau ar gyfer Cymraeg 2050, ac ymestyn darpariaeth ôl-16 i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfleoedd i ddysgu'r iaith fel dinasyddion gweithredol a brwdfrydig. |

**CANLLAWIAU GWELLA YSGOLION**

Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau a'r wybodaeth newydd ar wella ysgolion a'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion (UCD), Awdurdodau Lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol ac Estyn, ac yn amlinellu'r disgwyliadau ar bob un wrth gyfrannu at welliant cynaliadwy mewn ysgolion. Bwriad y fframwaith yw gyrru'r ymddygiadau a'r arferion sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm i Gymru a'r trefniadau asesu newydd.

O fewn y Canllawiau Gwella Ysgolion, cydnabu Llywodraeth Cymru y blaenoriaethau cenedlaethol newydd y mae'n rhaid i ysgolion roi sylw iddynt wrth osod eu blaenoriaethau gwella, sef:

- Gwella cynnydd disgyblion drwy sicrhau bod eu dysgu'n cael ei gefnogi gan amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiad;
- Lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.

Gan ddechrau gyda hunanwerthusiadau a chynlluniau datblygu ysgolion, bydd consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cytuno gyda phob ysgol ar y cymorth ychwanegol sydd ei angen arni i wella a meithrin ei gallu ei hun. Bydd y cymorth y cytunwyd arno a roddir i ysgolion gan y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol yn cael ei ymgorffori yn eu cynlluniau datblygu, gan gynnwys crynodebau a gyhoeddwyd, gan ysgogi ysgolion i ofyn am y cymorth sydd ei angen arnynt a gwella tryloywder.

Mae GwE a'r Awdurdodau Lleol yn cydweithio'n agos ac wedi sefydlu Gweithgor Gorchwyl a Gorffen Canllawiau Gwella Ysgolion Rhanbarthol i ddatblygu dull gweithredu rhanbarthol i adnabod, creu, cyflwyno a monitro Cynlluniau Cymorth Ysgolion. Mae'r grŵp yn edrych ar lwybrau posibl i gryfhau'r cydweithio ar draws yr Awdurdodau Lleol i ddatblygu cynhwysedd a sicrhau mwy o gysondeb yn y gefnogaeth a sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull gweithredu holistaidd a thryloyw o ran adrodd ar wybodaeth a rhannu gwybodaeth.

Mae'r cylch hunan arfarnu yn ganolog i alluogi ysgolion i fod yn datblygu a gwella'u harferion yn barhaus: rhoi'r profiadau a'r deilliannau dysgu gorau posibl i ddysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir, er mwyn sicrhau safonau uchel ac uchelgais i bawb. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyd-lunio'r Adnodd Cenedlaethol: Gwerthuso a Gwella i gefnogi ysgolion wrth gynnal hunan-arfarnu cadarn yn seiliedig ar dystiolaeth.

Gan weithio o fewn y fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, gall yr holl randdeiliaid weithio mewn ffyrdd newydd. Fel gwasanaeth, bydd GwE yn:

- ·parhau i gydweithio ag ysgolion a lleoliadau i ddatblygu a mireinio prosesau hunan arfarnu ysgolion yn rhan o'u proses gwella strategol. Bydd hunan arfarnu yn onest, yn gadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth yn effeithiol i ystyried cynnydd pob dysgwr;

- parhau i weithio mewn partneriaeth gref gydag Awdurdodau Lleol gan weithredu dulliau bwriadus i ddatblygu cynlluniau cymorth 360 holistaidd a phriodol i bob ysgol a lleoliad;
- parhau i ymwneud ag amrywiaeth o brosesau hunan arfarnu yn rhan o gylch gwelliant parhaus y gwasanaeth. Bydd y prosesau hunan arfarnu hyn yn fodd i'r gwasanaeth ddod i ddeall a chofnodi effaith y gwaith, gan dynnu ar amrywiaeth o ffynonellau a dulliau er mwyn bwydo i'r cynllunio a'r blaenoriaethau;
- parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd a gwireddu 8 ffactor cyfrannol y Cwricwlwm i Gymru newydd. Bydd hyn yn golygu cefnogi ysgolion gyda'u prosesau hunan arfarnu, gan hyrwyddo dull gweithredu cytbwys sy'n tynnu ar set gydlynol a chynhwysfawr o wybodaeth ansoddol a meintiol i werthuso cynnydd dysgwyr ym mhob ysgol a lleoliad;
- parhau i weithio ar y cyd â phartneriaid, er enghraifft Estyn, i weithredu'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd a gwireddu 8 ffactor cyfrannol y Cwricwlwm i Gymru newydd.

Wrth i'r diwygio barhau i ddatblygu, bydd GwE yn parhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid i sicrhau bod datblygiadau cenedlaethol yn bwydo i waith rhanbarthol ac yn cael eu gwerthuso'n llawn gan gofnodi'r effaith.

**CYMORTH A HER I YSGOLION SY'N DESTUN PRYDER**

Yn rhan o'r dull gweithredu rhanbarthol, mae GwE a'r Awdurdodau Lleol wedi cryfhau ymhellach eu gweithdrefnau cymorth a her. Wrth ymateb i'r peilot cenedlaethol i gefnogi ysgolion sydd yn achosi pryder drwy'r model amlasiantaethol, adolygwyd y gweithdrefnau a'r strwythurau ar gyfer cefnogi, monitro a herio ysgolion. Y bwriad oedd sicrhau y gallai pob ysgol gael cymorth safonol yn amserol er mwyn symud ar hyd y llwybr 'dymunol' ar y cyflymdra gofynnol. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanbarthol yn cynnwys swyddogion o bob awdurdod, ynghyd ag ymgynghorwyr GwE, i yrru'r gwaith.

Mae strategaeth glir ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder ac mae gan bob ysgol sydd wedi'i hadnabod gynllun cymorth holistaidd yn nodi'n glir natur a dwyster y cymorth a roddir a'r gwelliannau sydd eu hangen.

Ar gyfer yr ysgolion hynny'n sy'n perfformio'n gyson gryf neu'n gryf yn gyffredinol, rhoddir sylw i welliannau drwy gydweithio â chymheiriaid, drwy Raglen Dysgu Proffesiynol generig yr Awdurdodau Lleol a GwE a'r cynllun cymorth unigryw i'r ysgol. Er hynny, pan amlygir pryder gan weithdrefnau'r Awdurdod Lleol/GwE, targedir cynhaliaeth ddwysach drwy'r dull amlasiantaethol.

O fewn y strwythur diwygiedig, mae grŵp amlasiantaethol o uwch swyddogion, swyddogion arweiniol o'r gwasanaethau perthnasol a staff GwE yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth a thystiolaeth fel bod pryderon yn cael eu hadnabod yn fuan. Mabwysiadwyd trothwyon a sbardunau i sicrhau cysondeb wrth adnabod pryderon mewn perthynas â safonau, dysgu ac addysgu, asesu, arweinyddiaeth, cynhwysiant neu faterion rheolaethol. Mae'r grŵp amlasiantaethol yn gyfrifol am sicrhau bod y cynllun holistaidd yn cael ei ddatblygu, ei gyflwyno a'i fonitro.

Mae'r strwythurau a'r prosesau a esblygwyd yn sicrhau bod dull mwy cynhwysfawr a holistaidd i gefnogi ysgolion sy'n achosi pryder. Bydd GwE a gwasanaethau'r ALl yn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y dull gweithredu diwygiedig ar y cyd.

**SEFYDLIAD SY'N DYSGU**

Mae GwE wedi annog ysgolion i gydweithio drwy rannu arferion a chyd-lunio meysydd sydd angen eu gwella. Rydym wedi buddsoddi mewn amrywiol fodelau clwstwr, cynghreiriau a rhwydweithiau ac wedi annog ysgolion i ganfod ystod o bartneriaid priodol i gyflawni gwelliannau a newidiadau. Mae'r rhanbarth hefyd wedi

edrych tuag allan am arferion da o ran adnabod modelau effeithiol ar gyfer adolygu cymheiriaid, yn ogystal ag annog ein hysgolion i ddatblygu ac esblygu eu harferion eu hunain. Cred GwE y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd â'r dimensiynau a nodir yng nghyhoeddiad yr OECD '*What Makes a School a Learning Organisation*'.

Wrth wraidd gwaith GwE, mae'r ymrwymiad i'r gwaith Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, fel y nodir gan yr OECD:

*'Today's schools must equip students with the knowledge and skills they'll need to succeed in an uncertain, constantly changing tomorrow. But many schools look much the same today as they did a generation ago, and too many teachers are not developing the pedagogies and practices required to meet the diverse needs of 21st-century learners.*

*In response, a growing body of scholars, educators and policy makers is making the case that schools should be reconceptualised as "learning organisations" that can react more quickly to changing external environments, embrace innovations in internal organisation, and ultimately improve student outcomes.'*

Mae'r egwyddorion ynghlwm yn rhan o bob Dysgu Proffesiynol ac ar draws GwE. Gwnaethpwyd y gwaith ar ddwy lefel:




- datblygu GwE i fod yn sefydliad sy'n dysgu i gynnwys datblygiad cynaliadwy
- cefnogi ysgolion i ddysgu mwy i ddatblygu'n barhaus i fod yn sefydliadau sy'n dysgu

Mae pedair thema sy'n rhedeg drwy gydol y gwaith hwn, ac sy'n greiddiol i ddatblygu sefydliad sy'n dysgu, sef Ymddiriedaeth, Amser, Technoleg a Meddwl Gyda'n Gilydd. Bu'r rhain yn sylfaenol ar gyfer datblygu ffordd GwE o fynd ati i ddatblygu partneriaethau cryf gan fod ymddiriedaeth yn sylfaen i'r berthynas sydd ei hangen, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn i sefydliadau sy'n dysgu ffynnu.

Yn ddiweddar, mae ysgolion wedi gwella o safbwynt rhannu eu harferion gorau er budd pob dysgwr. Yn ein system hunan wella yng Nghymru, mae angen i weithwyr proffesiynol a sefydliadau fod yn ymwybodol o'u cryfderau a'r meysydd i'w gwella, a gyda'r wybodaeth hon gofyn am gymorth i wella'u hunain a rhoi cymorth i eraill wella.

Dyhead a disgwyliad Llywodraeth Cymru yw bod pob rhan o'r gyfundrefn addysg yn ymrwymo i fod yn sefydliad sy'n dysgu, fel bod cryfderau yn cael eu lledaenu ar draws y gyfundrefn, a meysydd i'w gwella yn cael sylw drwy waith cefnogi ac ymgysylltu â chymheiriaid. Wrth gyflawni hyn, byddwn yn sicrhau y gall ein gweithwyr addysg ffynnu mewn amgylchedd cefnogol a chydweithredol i godi safonau a gofalu y gall pob dysgwr ifanc gyflawni ei botensial.

Cred GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn gryf y dylai adolygu gan gymheiriaid fod yn yrrwr allweddol wrth i ysgolion wireddu'r daith ddiwygio genedlaethol a datblygu i fod yn system hunan wella, a hynny mewn ffordd effeithiol. Ein gweledigaeth yw cael ysgolion rhagorol sy'n cydweithio'n naturiol ac yn cyd-adnabod cyfeiriad ar gyfer gwelliant.

Felly, wrth symud ymlaen, ac yn unol â chyfeiriad genedlaethol y daith, mae'n rhaid gwreiddio a gweithredu, yn llawn, proses adolygu cymheiriaid effeithiol er mwyn cyflawni Cynllun Busnes GwE 2023-26. Anelwn felly at gryfhau a datblygu ar yr arferion presennol er mwyn gwreiddio'n llawn proses adolygu gan gymheiriaid sy'n drylwyr a chadarn, i fod yn rhan ganolog o wella ysgol wrth symud tuag at system hunan wella, tra hefyd yn cynnal yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder.

**BLAENORIAETHAU STRATEGOL AWDURDODAU LLEOL AR GYFER 2023 YMLAEN**

Bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol sydd o fewn cylch gorchwyl gwaith GwE, fel y bo'n briodol. Rhydd ystyriaeth hefyd i safbwyntiau a blaenoriaethau partneriaid haen ganol eraill fel Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), Addysg Gychwynnol Athrawon (AGG) a Chyngor y Gweithlu Addysg.

| AWDURDOD LLEOL | BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL O 2023 YMLAEN * |
|---|---|
| **Ynys Môn** | **Yr Iaith Gymraeg –** cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith<br><br>**Addysg –** sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol |
| **Gwynedd** | **Gwynedd Yfory -** Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc<br><br>**Gwynedd Gymraeg -** Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned |
| **Conwy** | **Addysg a sgiliau -** mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus.<br><br>**Y Gymraeg yn ffynnu -** Mae pobl Conwy'n byw mewn sir lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a lle gall pobl gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg. |
| **Sir Ddinbych** | **Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu -** Rydym am gefnogi darpariaeth dysgu a hyfforddi o ansawdd sy'n galluogi pobl o bob oed i gyflawni eu llawn botensial, yn bersonol ac yn broffesiynol<br><br>**Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu -** Rydyn ni am fod yn sir lle mae'r Gymraeg yn iaith byw a ffyniannus. Bydd y sir hefyd yn gwneud y mwyaf o'r cyfoeth o dreftadaeth ddiwylliannol ac asedau naturiol er mwyn cefnogi ffyniant economaidd, datblygu sgiliau a chydlyniant cymunedol. |

| | |
|---|---|
| **Sir y Fflint** | **Addysg a Sgiliau - Galluogi a Chefnogi Cymunedau Dysgu**<br>• Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgol<br>• Cyfleoedd Dysgu Digidol<br>• Amgylcheddau Dysgu<br>• Rhwydweithiau Cymunedol sy'n Dysgu<br>• Darpariaeth Addysgol Arbenigol<br>• Cynllun Strategol Addysg Gymraeg (CSGA)<br>• Lles |
| **Wrecsam** | **Gwella Addysg a Dysgu (gan ganolbwyntio ar addysg uwchradd)** |

**** Blaenoriaethau corfforaethol awdurdodau lleol fel y'u darparwyd adeg cwblhau Cynllun Busnes terfynol GwE (2023-2026)***

# 4. Cynllun Busnes GwE

Mae ein cynllun busnes yn corffori sut y bydd GwE yn ymateb i effaith y cyfnod ar ôl Covid yng nghyd-destun addysg ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol. Trwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwrando arnynt, rydym wedi adnabod themâu penodol i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob disgybl yng ngogledd Cymru yn elwa ar ddarpariaeth o'r safon uchaf bosibl.

Cytunwyd ar y Cynllun Busnes hwn yn ffurfiol gan Brif Swyddogion Addysg pob Awdurdod Lleol, y Cyd-Bwyllgor a'r Prif Weithredwr Arweiniol ar xxxxx.

**EIN HAMCANION STRATEGOL**

| | BETH YDYM NI'N CEISIO'I GYFLAWNI? |
|---|---|
| **1.** | **Gwella Ysgolion -** gwreiddio trefniadau gwella ysgol effeithiol wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau cysylltiedig. |
| **2.** | **Cwricwlwm ac Asesu -** cefnogi pedwar diben y cwricwlwm, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd ar ei lwybr dysgu ei hun gan fagu ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau, gyda thegwch a rhagoriaeth yn ganolog i hyn oll. |
| **3.** | **Datblygu dysgu ac addysgu o safon uchel -** gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion trwy gefnogi a datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sgiliau addysgeg i hybu llwyddiant pob dysgwr, a hynny trwy ddysgu proffesiynol uchelgeisiol. |
| **4.** | **Arweinyddiaeth -** datblygu arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i gefnogi llwyddiant pob dysgwr ar ei lwybr dysgu ei hun, a hynny trwy hunanwerthuso manwl gywir a chynllunio a chyflawni gwelliant cadarn.<br><br>Parhau i ddatblygu system sy'n hunan wella, ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y cynhwysedd a'r gallu i fod yn dysgu a gwella arferion yn gyson, gan weithio tuag at fod yn sefydliadau sy'n dysgu. |
| **5.** | **Profiad addysg cadarnhaol i bawb -** wedi ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant, gyda chefnogaeth ar gyfer llesiant a gwytnwch dysgwyr a staff, sy'n hanfodol ar gyfer gwella deilliannau addysg a chyfleoedd bywyd.<br><br>Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio.<br><br>Grymuso dysgwyr a chymunedau i gael perthynas gadarn gyda darparwyr addysg, fel y gallwn fynd i'r afael â difreintedd a darparu addysg o'r radd flaenaf yn lleol ac yn genedlaethol. |
| **6.** | **Mae Cymraeg yn perthyn i bawb -** rhoi mynediad cyfartal at yr iaith i bob dysgwr, a chyfle i bawb gyflawni ei botensial.<br>Annog defnyddio'r Gymraeg ar draws y system addysg fel rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru a'n dyheadau ar gyfer Cymraeg 2050, ac ymestyn darpariaeth ôl-16 i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfleoedd i ddysgu'r iaith fel dinasyddion gweithredol a brwdfrydig. |

| | |
|---|---|
| 7. | **Busnes -** sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a strwythurau busnes a gwella ysgol priodol ac effeithiol, sy'n sicrhau effaith gadarnhaol a gwerth am arian. |

**BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL**

Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r uchelgais i ysgolion wrth iddynt wireddu'r cwricwlwm newydd a chefnogi eu dysgwyr i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- cyfrannwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd; ac
- unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bwriad ein blaenoriaethau isod yw cefnogi ysgolion wrth iddynt weithio tuag at y pedwar diben hyn.

**EIN BLAENORIAETHAU LEFEL UCHEL**

Dyma ein blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer gwelliant:

| **AMCAN 1: GWELLA YSGOLION**<br>Gwreiddio trefniadau gwella ysgol effeithiol wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau cysylltiedig. | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |
| 1.1 | Sicrhau bod pob ysgol yn cael ei chefnogi i werthuso yn fanwl gywir a chyflawni cynlluniau gwella cadarn yn effeithiol. |
| 1.2 | Cefnogi arweinwyr i weithio ar y cyd i hyrwyddo safonau uchel ac uchelgais i bawb [i gynnwys ansawdd yr addysgu a'r cwricwlwm]. |
| 1.3 | Cefnogi'r arweinyddiaeth mewn ysgolion i ddod yn gyfarwydd â'r canllawiau gwella ysgol newydd ac i fod yn barod ar gyfer eu gweithredu. |
| 1.4 | Cryfhau dulliau amlasiantaethol a'r 'tîm o amgylch yr ysgol' gydag ysgolion sy'n destun pryder. |
| 1.5 | Cryfhau gwaith partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol. |

| **AMCAN 2: CWRICWLWM AC ASESU**<br>Cefnogi pedwar diben y cwricwlwm, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd ar ei lwybr dysgu ei hun gan fagu ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau, gyda thegwch a rhagoriaeth yn ganolog i hyn oll. | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |
| 2.1 | Gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru. |
| 2.2 | Asesu, cynnydd ac atebolrwydd. |

## AMCAN 3: DATBLYGU DYSGU AC ADDYSGU O SAFON UCHEL

Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion trwy gefnogi a datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sgiliau addysgeg i hybu llwyddiant pob dysgwr, a hynny trwy ddysgu proffesiynol uchelgeisiol

| Cyf. | Blaenoriaeth |
|---|---|
| 3.1 | Gwella'r Addysgu. |

## AMCAN 4: ARWEINYDDIAETH

Datblygu arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i gefnogi llwyddiant pob dysgwr ar ei lwybr dysgu ei hun, a hynny trwy hunanwerthuso manwl gywir a chynllunio a chyflawni gwelliant cadarn.

Parhau i ddatblygu system sy'n hunan wella, ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y cynhwysedd a'r gallu i fod yn dysgu a gwella arferion yn gyson, gan weithio tuag at fod yn sefydliadau sy'n dysgu.

| Cyf. | Blaenoriaeth |
|---|---|
| 4.1 | Gweithredu Rhaglenni Arweinyddiaeth Rhanbarthol a Chenedlaethol. |

## AMCAN 5: PROFIAD ADDYSG CADARNHAOL I BAWB

Wedi ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant, gyda chefnogaeth ar gyfer llesiant a gwytnwch dysgwyr a staff, sy'n hanfodol ar gyfer gwella deilliannau addysg a chyfleoedd bywyd.

Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio.

Grymuso dysgwyr a chymunedau i gael perthynas gadarn gyda darparwyr addysg, fel y gallwn fynd i'r afael â difreintedd a darparu addysg o'r radd flaenaf yn lleol ac yn genedlaethol.

| Cyf. | Blaenoriaeth |
|---|---|
| 5.1 | Cefnogi lles a gwytnwch staff. |
| 5.2 | Cefnogi ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio. |
| 5.3 | Cefnogi ysgolion i ddarparu tegwch i bawb trwy fynd i'r afael â difreintedd a chael perthynas gadarn efo rhieni/gofalwyr yn eu cymunedau. |

| AMCAN 6: MAE CYMRAEG YN PERTHYN I BAWB<br>Rhoi mynediad cyfartal at yr iaith i bob dysgwr, a chyfle i bawb gyflawni ei botensial.<br><br>Annog defnyddio'r Gymraeg ar draws y system addysg fel rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru a'n dyheadau ar gyfer Cymraeg 2050, ac ymestyn darpariaeth ôl-16 i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfleoedd i ddysgu'r iaith fel dinasyddion gweithredol a brwdfrydig. | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |
| 6.1 | Helpu ysgolion i gynllunio'n fwriadus er mwyn cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru. |
| 6.2 | Hyrwyddo dysgu Cymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol y gweithlu. |
| 6.3 | Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg drwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus' |

| AMCAN 7: BUSNES<br>Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a strwythurau busnes a gwella ysgol priodol ac effeithiol, sy'n sicrhau effaith gadarnhaol a gwerth am arian. | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |
| 7.1 | Adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol er mwyn gofalu bod gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol strwythur addas i gyflawni blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. |

# Cynllun Busnes GwE 2023-2024

Manylir ar y gweithgareddau a gynhelir yn ystod 2023-2024 yn y Cynllun Busnes. Bydd ein Cynllun Busnes hefyd yn cyfrannu at gyflawni chwe amcan a rannwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, sef: Cefnogir y blaenoriaethau hyn gan gynlluniau manwl y gwasanaeth, sy'n amlinellu sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf. Hefyd, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y cytunwyd arno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd.

| AMCAN 1: SCHOOL IMPROVEMENT | | |
|---|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** | **Nodau a gweithgareddau** |
| 1.1<br>Tud. 120 | Sicrhau bod pob ysgol yn cael ei chefnogi i werthuso yn fanwl gywir a chyflawni cynlluniau gwella cadarn yn effeithiol. | • Gwella'r arweinyddiaeth ar bob lefel drwy:<br>◦ Gefnogi pob ysgol i finiogi a chryfhau ymhellach eu prosesau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant.<br>◦ Cefnogi arweinwyr i ddatblygu ymhellach diwylliant o gyd-gyfrifoldeb yn eu hysgol.<br>◦ Sicrhau bod gan bob YCG ac Arweinydd Craidd drosolwg clir o ansawdd arweinyddiaeth ar draws eu hysgolion cyswllt ac yn benodol felly am hunan arfarnu, cynllunio gwelliant a phrosesau atebolrwydd.<br>◦ Sicrhau bod pob YCG ac Arweinydd Craidd wedi nodi'r cymorth priodol i ddatblygu'r arweinyddiaeth o fewn y Cynllun Cymorth ar gyfer eu hysgolion cyswllt, ac wedi hwyluso dysgu proffesiynol perthnasol [wedi'i gyflwyno drwy gynnig cyffredinol GwE neu wedi'i gomisiynu fel cymorth unigryw neu gymorth wedi'i dargedu]. |
| 1.2 | Cefnogi arweinwyr i weithio ar y cyd i hyrwyddo safonau uchel ac uchelgais i bawb [ i gynnwys ansawdd yr addysgu a'r cwricwlwm]. | • Gofalu bod pob YCG ac Arweinydd Craidd yn cefnogi pob ysgol i ddatblygu arfarniad clir a chywir o ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth gwricwlaidd a chynnydd a sut maent yn dylanwadu'n dda ar safonau a chynnydd ar draws ysgolion y rhanbarth.<br>• Cefnogi arweinwyr a staff ysgolion i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer dysgu ac addysgu, y cwricwlwm ac asesu fel y nodir yn Amcanion 2, 3, 4 a 5 y Cynllun Busnes ac ymwneud ag amrywiol rwydweithiau GwE.<br>• Sicrhau bod pob YCG ac Arweinydd Craidd wedi nodi a rhoi sylw i gymorth priodol i wella'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cymorth ar gyfer eu hysgolion cyswllt, ac wedi hwyluso dysgu proffesiynol perthnasol [wedi'i gyflwyno drwy gynnig cyffredinol GwE neu wedi'i gomisiynu fel cymorth unigryw neu gymorth wedi'i dargedu]. |

| | | |
|---|---|---|
| 1.3 | Cefnogi'r arweinwyr mewn ysgolion i ddod yn gyfarwydd â'r canllawiau gwella ysgol newydd ac i fod yn barod i'w gweithredu. | • Cefnogi arweinwyr i ddefnyddio'r canllawiau a'r arweiniad a nodir yn y Canllawiau Gwella Ysgolion yn effeithiol, a'r Adnodd Cenedlaethol: gwerthuso a gwelliant.<br>• Sicrhau bod pwyslais priodol ar ddatblygu'r cwricwlwm, asesu a chynnydd yn y cydweithio rhwng clystyrau a chynghreiriau, fel bod arweinwyr ysgolion yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r wyth ffactor cyfrannu yn y Canllawiau Gwella Ysgolion.<br>• Gwreiddio cydweithio ysgol i ysgol ymhellach. |
| 1.4 | Cryfhau dulliau amlasiantaethol a'r 'tîm o amgylch yr ysgol' gydag ysgolion sy'n destun pryder. | • Mewn partneriaeth efo'r Awdurdodau Lleol, cryfhau ymhellach a datblygu'r prosesau ar gyfer cefnogi a herio ysgolion sy'n destun pryder.<br>• Gofalu bod gan bob ysgol sydd mewn categori statudol, neu a adnabuwyd yn lleol fel ysgol sy'n destun pryder, fynediad at gynllun cymorth cynhwysfawr y cytunwyd arno i'w helpu ar ei llwybr gwella.<br>• Sicrhau y cyflwynir y pecyn cymorth yn effeithiol ac yn amserol, a'i fod yn cael ei fonitro yn rymus er mwyn sicrhau effaith ar safonau a darpariaeth.<br>• Parhau â'r panel amlasiantaethol ar gyfer y tair ysgol uwchradd a fydd yn rhan o'r rhaglen. |
| 1.5 | Cryfhau gwaith partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol. | • Mae'r Bwrdd Rheoli, sef y grŵp strategol rhanbarthol trosfwaol, yn parhau i ddefnyddio dull cydlynol i adnabod a gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol fel y'u nodir yn y cynlluniau busnes perthnasol.<br>• Esblygu a chryfhau ymhellach rôl a ffocws Grŵp Gorchwyl y Bwrdd Rheoli.<br>• Yr Awdurdodau Lleol a GwE i gomisiynu adolygiad o'r broses a'r arferion cyfredol allai arwain at ailstrwythuro sefydliadol. |

## AMCAN 2: CWRICWLWM AC ASESU

| Cyf. | Blaenoriaeth | Nodau a gweithgareddau |
|---|---|---|
| 2.1 | Cyflawni'r Cwricwlwm i Gymru | Parhau i gefnogi:<br>• y gwaith i ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion ac UCD i sicrhau bod ymarferwyr yn dyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fframwaith Cwricwlwm i Gymru.<br>• Cefnogi ymarferwyr i ddatblygu egwyddorion ac arferion dylunio'r cwricwlwm ar draws pob ysgol a lleoliad i fodloni'r gofynion statudol.<br>• cydweithio a galluogi cyfleoedd i ysgolion rannu arferion sy'n dod i'r amlwg<br>• pob ysgol uwchradd i fodloni anghenion y Cwricwlwm i Gymru i Flynyddoedd 7 a 8 ym mis Medi 2023, ac yn cefnogi'r dysgu a'r addysgu mewn TGAU a Safon Uwch yn y gyfundrefn bresennol. |
| 2.2<br> | Asesu, cynnydd ac atebolrwydd | Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion ac UCD ar draws y continwwm 3-16 i:<br>• fynd ati i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a chyfleoedd cyson i drafod yn broffesiynol o fewn ysgolion, a rhwng ysgolion, ar draws ehangder y cwricwlwm<br>• galluogi ymarferwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o drefniadau asesu fel rhan annatod o ddylunio'r cwricwlwm ac er mwyn cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd drwy adnabod, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr dros amser.<br>• cael gwell dealltwriaeth o bwrpas asesu, y rhesymeg a sut y defnyddir asesu i lywio'r dysgu a'r addysgu, yn ogystal â gweithgareddau hunanwerthuso a gwella ehangach, ac atebolrwydd i amrywiol randdeiliaid, fel y nodir yn y Fframwaith Gwella Ysgolion (gan gynnwys adrodd i rieni/gofalwyr).<br>• Cefnogi ysgolion, UCD, clystyrau a chynghreiriau ar draws y continwwm 3-16, a thu hwnt, i wella pontio. |

| AMCAN 3: DATBLYGU DYSGU AC ADDYSGU O SAFON UCHEL | | |
|---|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** | **Nodau a gweithgareddau** |
| 3.1 | Gwella Addysgu | • Cefnogi arweinwyr Dysgu ac Addysgu rhanbarthol i ddatblygu addysgeg o safon uchel ar bob lefel.<br>• Hyrwyddo a hwyluso cydweithio ar draws sectorau i sicrhau cysondeb mewn arferion addysgu effeithiol i gefnogi cyfnodau pontio dysgwyr.<br>• Cefnogi ysgolion i ymwneud yn effeithiol ag ymholiadau ac ymchwil weithredu ac â'r rhaglen addysgeg genedlaethol.<br>• Sicrhau bod egwyddorion a strategaethau asesu ffurfiannol yn cael eu gweithredu'n effeithiol a chyson ar draws ac o fewn ysgolion er mwyn gweithredu egwyddorion allweddol y canllawiau asesu.<br>• Cefnogi ysgolion i gyfoethogi a gwella ymhellach sut y cyflwynir llythrennedd, rhifedd a MATh.<br>• Parhau i gefnogi partneriaid allweddol gyda AGA drwy ddatblygu ar gydweithio CIEREI gyda Llywodraeth Cymru ac Ysgol Gwyddorau Addysg, Prifysgol Bangor.<br>• Darparu cymorth unigryw o safon uchel i wella'r dysgu a'r addysgu mewn ysgolion sy'n achosi pryder. |



| AMCAN 4: ARWEINYDDIAETH | | |
|---|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** | **Nodau a gweithgareddau** |
| 4.1 | Gweithredu Rhaglenni Arweinyddiaeth Rhanbarthol a Chenedlaethol. | • Hwyluso'r gwaith o gyflwyno holl elfennau'r llwybr datblygu arweinyddiaeth sy'n cynnig ystod o raglenni cenedlaethol i ddarpar arweinwyr, arweinwyr canol ac arweinwyr profiadol.<br>• Cefnogi ALL gyda phrosesau ardystio'r Rhaglen i Ddatblygu Darpar Benaethiaid (CPCP) i sicrhau eu bod yn gyson ac yn gadarn. Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r rhaglenni cenedlaethol i ddatblygu arweinwyr i sicrhau bod proses recriwtio gadarn i garfanau'r dyfodol.<br>• Adolygu cynnwys y rhaglen CALU yn genedlaethol i gyd-fynd â Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.<br>• Darparu Rhaglen Hyfforddi a Mentora Cenedlaethol – 'Hyfforddi'r Hyfforddwr'<br>• Gweithio gyda Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr o'r chwe ALl i sicrhau y deallir ac y bodlonir gofynion y Canllawiau Gwella Ysgolion newydd drwy ddarparu cyfleoedd o safon uchel am ddysgu proffesiynol a chefnogaeth i gyrff llywodraethu ar destunau fel hunan arfarnu, cynllunio ar gyfer gwelliant, ac arweiniad ar gyrff llywodraethu effeithiol. |

| AMCAN 5: PROFIAD ADDYSG CADARNHAOL I BAWB | | |
|---|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** | **Nodau a gweithgareddau** |
| 5.1 | Cefnogi lles a gwytnwch staff. | • Gofalu bod pob YCG ac Arweinydd Craidd yn cadw at arferion gwaith sydd yn cynnal ac yn hyrwyddo lles cadarnhaol arweinwyr a staff ysgolion.<br>• Darparu cymorth priodol i'r unigolion a'r grwpiau o uwch arweinwyr, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant.<br>• Hyrwyddo a datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliant hyfforddi a mentora mewn ysgolion ar draws y rhanbarth, fel bod gwelliant o safbwynt gwytnwch a llesiant ymarferwyr. |
| 5.2 | Cefnogi ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio. | • Cefnogi ysgolion i ddatblygu dull gweithredu 'gwybodus am drawma' sydd yn arwain at strategaeth ysgol gyfan ar arferion gwybodus am drawma.<br>• Cefnogi ysgolion i ddefnyddio'r Adnodd Cenedlaethol, 'Rhaglen Dysgu ac Addysgu i Gefnogi Dysgwyr Bregus a Difreintiedig' (SVL) er mwyn gwella sgiliau ymarferwyr dosbarth i ddarparu strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol i gefnogi dysgwyr bregus. |
| 5.3 | Cefnogi ysgolion i ddarparu tegwch i bawb trwy fynd i'r afael â difreintedd a chael perthynas gadarn efo rhieni/gofalwyr yn eu cymunedau. | • Parhau i roi cymorth i arweinwyr ysgolion gydag ymgysylltiad grwpiau penodol o ddysgwyr bregus a difreintiedig, gan gynnwys y dysgwyr hynny ble cafodd cau'r ysgolion effaith anghyfartal arnynt. Cymorth hefyd i adnabod a chefnogi'r dysgwyr hyn.<br>• Datblygu ymhellach a gweithredu'r strategaeth GDD genedlaethol ar draws y rhanbarth.<br>• Cefnogi ysgolion i wreiddio dull ysgol gyfan o ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned.<br>• Annog ysgolion i ddatblygu partneriaethau cymunedol a gwaith amlasiantaethol er mwyn cryfhau ymgysylltiad teuluoedd, gwella safonau a chael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu i'r dysgwyr hynny o gefndiroedd tlotach. |

| AMCAN 6: MAE CYMRAEG YN PERTHYN I BAWB | | |
|---|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** | **Nodau a gweithgareddau** |
| 6.1 | Helpu ysgolion i gynllunio'n fwriadus er mwyn cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru. | • Datblygu cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer y Gymraeg er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu Cwricwlwm i Gymru (3 i 16) a chryfhau cydweithredu/pontio o'r sector cynradd i'r uwchradd i sicrhau cynnydd ar draws continwwm addysg 3 i 16.<br>• Cefnogi arweinwyr i gynllunio'n fwriadus ar gyfer cynyddu a chyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg<br>• Cefnogi a gwella ansawdd y dysgu, yr addysgu a'r cynllunio ar gyfer y Gymraeg o fewn y cwricwlwm mewn ysgolion ac UCD i wella safonau a chynnydd dysgwyr.<br>• Darparu cymorth i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg - gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu (gan gynnwys Ein Llais Ni).<br>• Cydweithio â Phrifysgol Bangor i ddarparu cymorth ar gyfer y Gymraeg ar gyfer myfyrwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon ac wrth ddatblygu llythrennedd yn y Gymraeg drwy raglenni ymyrraeth. |
| 6.2 | Hyrwyddo dysgu Cymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol y gweithlu. | Ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol:<br>• Datblygu sgiliau iaith y gweithlu addysg er mwyn ymestyn y gyfran sydd yn gallu addysgu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Datblygu, hyrwyddo a chydlynu Rhaglen Dysgu Proffesiynol i sicrhau bod y gweithlu addysg yn cael y cyfle i wella'u sgiliau Cymraeg yn gyson, gan gynnwys Cynlluniau Sabothol, darpariaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r ddarpariaeth leol.<br>• Cefnogi ysgolion i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd a manteision addysg cyfrwng Cymraeg.<br>• Hyrwyddo proffil y Gymraeg ymysg arweinwyr i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a tharged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr. |
| 6.3 | Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg drwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'. | • ·Ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol, datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg drwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'.<br>• ·Gofalu bod arferion effeithiol a llwyddiannus ar gyfer datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn cael eu rhannu ar draws y rhanbarth.<br>• Cefnogi ysgolion i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i'r disgyblion. |

| AMCAN 7: BUSNES | | |
|---|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** | **Nod a gweithgareddau** |
| 7.1 | Adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol er mwyn gofalu bod gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol strwythur addas i gyflawni blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. | Adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol er mwyn gofalu bod gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol strwythur addas i:<br>• sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n effeithiol ar ôl COVID i fynd i'r afael ag effaith y pandemig ar gynnydd a llesiant dysgwyr;<br>• sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n effeithiol i weithredu'r cwricwlwm newydd a phob agwedd ar y daith ddiwygio;<br>• rhoi sylw i ddisgwyliadau cenedlaethol o ran gwella ysgolion, fel yr amlinellir yn y 'Canllawiau Gwella Ysgolion (Mehefin 2022)' a gyhoeddwyd yn ddiweddar;<br>• adeiladu ar sylfeini cryf dull cydweithredol o weithio a sefydlwyd yn rhanbarthol wrth i ni symud tuag at system hunan wella. |

# 5. Llywodraethu: Monitro ac Arfarnu


**FFRAMWAITH CYNLLUNIO BUSNES GwE**

Mae fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn GwE. Mae'r Fframwaith Cynllunio Busnes sydd ar waith yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlynedd strategol wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rhydd strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol.

Drwy ein cynlluniau busnes manwl adroddir ar gynnydd yn chwarterol, sy'n rhoi adroddiad cynnydd ar:

- Effaith yn erbyn camau gweithredu a deilliannau (gan gynnwys meini prawf meintiol ac ansoddol, a data ystadegol)
- Materion neu risgiau newydd gafodd eu hadnabod ar gyfer y cyfnod adrodd
- Data rhanbarthol
- Data Awdurdod Lleol
- Proffil gwariant


Trwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu. Adroddir am y cynnydd yn erbyn y cynllun busnes rhanbarthol bob chwarter, i'r Cyd-bwyllgor. Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynllun busnes yr Awdurdod Lleol pob chwarter, trwy gyfarfodydd rhwng GwE a phob Awdurdod Lleol.




**STRATEGAETH ARFARNU AC EFFAITH**

Mae GwE hefyd wedi datblygu Strategaeth Arfarnu ac Effaith fel y gall arfarnu a chofnodi'n glir effaith ei waith yn unol â'i swyddogaeth gwella ysgolion graidd, ac fel y gall fodloni'n llawn y disgwyliadau a amlinellir yn y Canllawiau Gwella Ysgolion.

Pwrpas y Strategaeth yw nodi'n glir sut y bydd GwE yn rhan o brosesau arfarnu parhaus yn unol â'i ymrwymiad i ddatblygu diwylliant o welliant parhaus fel sefydliad sy'n dysgu. Bydd y prosesau hunan arfarnu hyn yn tynnu ar amrywiaeth o ffynonellau ansoddol a meintiol sy'n cefnogi ysgolion i weithio tuag at y blaenoriaethau cenedlaethol.




*YSD - Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu*
*OHI - Mynegai Iechyd Sefydliadol*
*NR:EI Adnodd Cenedlaethol: Arfarnu ac Effaith.*

Ar draws Gogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol wedi datblygu partneriaethau cadarn ac effeithiol i wella ysgolion. Gyda chydlynedd y dull gweithredu hwn, gall GwE a'r Awdurdod Lleol gofnodi effaith y ddarpariaeth a'r cymorth a roddir i wella ysgolion. Rhoddir ystyriaeth hefyd i sut y cofnodir effaith ar lefel ysgol unigol a system ar draws y rhanbarth, a hynny yn y tymor byr, canolig a hir.

Yn unol â'r argymhelliad yn Dyfodol Llwyddiannus, bydd GwE yn defnydd methodoleg samplu yn rhan o'r strategaeth hon. Cynllunnir ac ystyrir yn ofalus i sicrhau bod y dulliau samplu yn briodol a phwrpasol i gynnwys lleoliadau, dysgwyr ac ymarferwyr i ffurfio sampl gynrychioladol o'r rhanbarth.

Nod arall y strategaeth yw sicrhau y rhennir gwybodaeth yn amserol drwy gydol y flwyddyn ag ystod eang o randdeiliaid, gan roi hyder ac eglurder ynghylch ansawdd ac effaith yr ystod eang o waith a wneir. Rhydd y strategaeth hon dryloywder i'r rhanddeiliaid a'r cyhoedd a dengys werth am arian.

Bydd y strategaeth yn rhoi modd hefyd i GwE a'r Awdurdodau Lleol adnabod a deall yr arferion effeithiol yn ei darpariaeth ei hun. Wrth weithredu'r polisi cenedlaethol, mae'r strategaeth yn rhoi modd i GwE gofnodi effaith arferion ar lefel leol a chenedlaethol. Fel hyn, bydd canfyddiadau hunan arfarnu yn bwydo i flaenoriaethau cynllunio busnes rhanbarthol a lleol ac yn bwydo i bolisïau cenedlaethol yn y dyfodol, ble bo hynny'n briodol.

# 6. Cofrestr Risg

Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i’r Cyd-Bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i’r Cyd-Bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

Adnabuwyd amryw o risgiau all fod yn rhwystrau i weithredu blaenoriaethau'r Cynllun Busnes yn llwyddiannus. Dyma nhw:

- Toriadau yng Nghyllideb Graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir.
- Mae ansicrwydd nglyn â threfniadau cyllid grant gan LlC yn rhwystro cynllunio strategol tymor hir. Mae oedi sylweddol wrth gadarnhau lefelau cyllid yn effeithio ar weithredu'r Cynllun Busnes Strategol.
- Anawsterau recriwtio a chynllunio olyniaeth uwch arweinwyr ar draws y rhanbarth, yn enwedig rhai cyfrwng Cymraeg.
- Cyflymder datrys materion sylfaenol mewn ysgolion uwchradd a roddir mewn categori statudol Estyn.
- Mae effaith pandemig Covid-19 wedi golygu ei bod yn anos i ysgolion weithio ar fwrw ymlaen efo'u paratoadau gwreiddiol at y Cwricwlwm i Gymru.
- Ansicrwydd ynglŷn ag atebolrwydd a mesurau perfformiad sy'n llesteirio cyflymder y Daith Ddiwygio, yn enwedig yn y sector uwchradd.
- Mae ansicrwydd ynglŷn â sut y bydd cymwysterau 2027 yn edrych yn ffactor cyfyngol mewn ysgolion uwchradd.
- Cydlynedd ac ystod y Daith Ddiwygio a'i heffaith ar arweinyddiaeth systemig rhwng LlC, yr haen ganol ac ysgolion gyda lefel gynyddol o gyllid yn mynd yn uniongyrchol o LC i ysgolion.
- Trefniadau gweithredu GwE a'r strwythur staffio presennol.
- Nid yw trefniadau gweithredu GwE a’r strwythur staffio presennol yn cyfarch y cyfeiriad rhanbarthol na Llywodraeth Cymru wrth symud ymlaen.
- Anawsterau recriwtio a chynllunio olyniaeth o fewn y gwasanaeth gan nad yw cyflogau'n gystadleuol gyda sefydliad tebyg neu gyda chyflogau Prifathrawon ac uwch arweinwyr.
- Gweithredu'r Canllawiau Gwella Ysgolion newydd.
- Yr hinsawdd bresennol o ran Undebau.


## 7. Cyllideb a Chyllid GwE

Fel pawb arall, rydym yn byw mewn hinsawdd ariannol anodd iawn a rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth Prif Weithredwyr y Rhanbarth, ac am gyngor a chefnogaeth Aelodau Etholedig y Cyd-Bwyllgor wrth wneud y penderfyniadau gorau i gefnogi ein dysgwyr a'n hysgolion.

Ar gyfer 2023-2024, mae ein cyllideb graidd yn £3,924,269.

Dyma ffigyrau dangosol yr awdurdodau lleol ar gyfer 2023-2024:

| | CYLLIDEB - 2023-2024 | |
|---|---|---|
| | £ | % |
| Ynys Môn | 395,923 | 10.09% |
| Gwynedd | 687,858 | 17.53% |
| Conwy | 595,368 | 15.17% |
| Sir Ddinbych | 608,601 | 15.51% |
| Sir y Fflint | 894,323 | 22.79% |
| Wrecsam | 742,196 | 18.91% |
| CYFANSWM | 3,924,269 | 100% |



Eleni, bydd ein Grant Gwella Addysg yn £27,451,618 (dyraniad dangosol - yn cynnwys cyllid cyfatebol). Mae hyn yn doriad o £9.6 miliwn ar gyllideb 2015. Ar yr un pryd, bu cynnydd o 25% mewn costau drwy gyflwyno'r isafswm cyflog, cyflog byw a chyfraniadau pensiwn. Wrth i ni reoli'r heriau ariannol hyn, rydym wedi parhau i gynyddu ein cyfraddau dirprwyo i ysgolion. Mae GwE yn cadw 3.91% o'r GGA i ddarparu cymorth i ysgolion.

| | | | Grant a chyfateb | Grant a chyfateb |
|---|---|---|---|---|
| | | Grant a Chyfateb | Toriad [£] | Toriad [%] |
| **11 Grant Unigol** | 2014/2015 | £37,021,296 | | |
| **GGA** | 2015/2016 | £33,549,764 | -£3,471,532 | -9.38% |
| **GGA** | 2016/2017 | £31,902,703 | -£1,647,061 | -4.91% |
| **GGA** | 2017/2018 | £31,672,444 | -£230,259 | -0.72% |
| **GGA** | 2018/2019 | £29,124,247 | -£2,548,197 | -8.05% |
| **GGA** | 2019/2020 | £29,064,551 | -£59,696 | -0.20% |
| **GGA** | 2020/2021 | £28,776,349 | -£288,202 | -0.99% |
| **GGA** | 2021/2022 | £29,397,227 | £620,878 | 2.16% |
| **GGA** | 2022/2023 | £29,259,041 | -£138,186 | -0.47% |
| **GGA** | 2023/2024 | £27,451,618 | -£1,807,423 | -6.18% |
| | | **Cronnus** | **-£9,569,678** | **-25.8%** |

## 8. Dogfennau Ategol Ychwanegol

- Cynlluniau Busnes Manwl 2023-2024
- Cofrestr Risg GwE
- Adroddiad Blynyddol GwE
- Cynlluniau Strategol Addysg Awdurdodau Lleol
- Strategaeth Arfarnu ac Effaith

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 MAI 2023**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Cofrestr Risg GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion strategol a blaenoriaethau y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

3.2 Mae'r holl risgiau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru. Mae'r diwygiadau i'r gofrestr wedi eu hamlygu mewn coch.

3.3 Awgrymir ychwanegu risg 9,10,11 a 12 i'r gofrestr. Nid oes risgiau wedi cael eu dileu.

Dilynwyd y matrics risg canlynol wrth bennu statws y risg.

| Matrics Risg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| **Tebygolrwydd** | Bron yn sicr | Isel (4) | Canolig (8) | Uchel (12) | Uchel (16) | A |
| | Tebygol | Isel (3) | Canolig (6) | Canolig (9) | Uchel (12) | B |
| | Posib | Isel (2) | Isel (4) | Canolig (6) | Canolig (8) | C |
| | Annhebygol | Isel (1) | Isel (2) | Isel (3) | Isel (4) | D |
| | | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** | **Hynod uchel** | |
| | | **Effaith** | | | | |

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo cynnwys y gofrestr.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw risgiau y dymuna'r Cyd-bwyllgor eu cyflwyno i sylw'r Cabinet perthnasol ac ati.

5.0 **Goblygiadau Ariannol**

5.1 Mae rheoli risg a rheolaeth ariannol effeithiol yn helpu i fonitro costau ac yn galluogi gwerth am arian.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Mae Uwch Dîm Arwain GwE a Bwrdd Rheoli GwE wedi trafod cynnwys y gofrestr ac wedi diwygio'r risgiau fel y bo'n briodol.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Cofrestr Risg GwE.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae sustem adolygu risgiau yn rhan sylfaenol o lywodraethu effeithiol. Mae'n bwysig fod y Cyd Bwyllgor yn rhoi sylw manwl i'r asesiad a'r ymateb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae cofrestr risg GwE ar ffurf safonol ac yn cynnwys gwybodaeth addas. Rwyf yn fodlon fod cynnwys y gofrestr yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa a byddaf yn cefnogi Rheolwr Gyfarwyddwr GwE wrth reoli'r risgiau mae GwE yn eu wynebu.

| RHIF RISG | CRYNODEB | AMCAN STRATEGOL GwE | RISG A NODWYD | TEBYGOLRWYDD RISG | EFFAITH RISG | TEBYGOLRWYDD X EFFAITH | GWEITHGAREDDAU PRESENNOL / LLINIARU | RISG WEDDILLIOL / RISG GYFFREDINOL | TEBYGOLRWYDD X EFFAITH | PERCHENNOG RISG | CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyllidol | I GYD | Mae toriadau yng Nghyllideb Graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir. | C | C/U | 2A | Mae cynllun Ariannol Tymor Canolig a Fframwaith a Pholisi Gwerth am Arian ar waith. Datblygwyd cynlluniau ar y cyd â Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys manylion y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaoedd. Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau. Cyhoeddwyd setliad grant drafft Llywodraeth Cymru eleni gyda amlinelliad cyllidebol 3 blynedd. Awgryma'r amlinelliad bod toriadau yn y gyllideb grant ar y gorwel. | C | 2B | RhG / RhP | Yn dilyn adolygiad gwariant cynhwysfawr Llywodraeth San Steffan ac adnabod blaenoriaethau newydd Llywodraeth Cymru, byddwn yn gweithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r pwysau cyllidebol erbyn 2023/24 a thu hwnt (gan gofio effaith posibl Covid-19). Gweithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac ymgynghori â phrif swyddogion o awdurdodau cyfansoddol ar effaith unrhyw doriadau cyllidol posibl. Cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu i sicrhau bod GwE yn cynllunio'n hyblyg ar gyfer ystod eang o ddeilliannau. |
| 2 | Cyllidol | I GYD | Ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllid grant gan LlC yn llesteirio cynllunio strategol tymor hir. Mae oedi sylweddol o ran cadarnhau lefelau cyllido yn effeithio ar weithredu'r Cynllun Busnes Strategol. | C/U | U | 2A | Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau, ond hyn yn rhoi pwysau ar y gyllideb. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar waith. Datblygwyd y cynllun ar y cyd â'r Swyddog Adran 151. Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn cynnwys manylion ynghylch y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaoedd. Gweithredir modelu ariannol i lywio penderfyniadau. Derbyniwyd dyraniadau grantiau dangosol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2023. Fodd bynnag, disgwylir y llythyr cynnig sy'n rhoi'r dyraniadau terfynol a'r telerau a'r amodau erbyn diwedd mis Mai 2023. | C | 2C | RhG / RhP / Bwrdd Rheoli | Gweithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Polisi a'r Fframwaith Gwerth am Arian yn gyson. Cysylltu â swyddogion LlC, aelodau addysg Cabinet awdurdodau etholaethol a phenaethiaid addysg, i gael mwy o dryloywder a sicrwydd o ran arian grant. |
| 3 | Datblygu arweinyddiaeth | 1, 4 & 6 | Anawsterau recriwtio a chynllunio olyniaeth uwch arweinwyr ar draws y rhanbarth yn enwedig rhai cyfrwng Cymraeg. | C | C | 2C | Mae'r Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol yn cefnogi datblygiad sgiliau arwain ymarferwyr trwy gydol pob carreg filltir o'r llwybr dysgu proffesiynol.<br>Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth wedi gweithio gyda rhanbarthau eraill i ddarparu rhaglenni datblygu effeithiol ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel. Mae'r Grŵp wedi llwyddo i oresgyn heriau o ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig ac wedi parhau i sicrhau tegwch o ran mynediad i bob rhaglen datblygu arweinyddiaeth -h.y. Dull cyfunol/rhithiol a diweddaru cynnwys yn rhithiol i fodloni anghenion arweinwyr ble mae'r anghenion hynny'n newid yn gyson.<br>Drwy gydweithio â'r Awdurdodau, sicrheir mynediad i ystod o hyfforddiant i wella Sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg er mwyn cynnyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg . Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor, Y Coleg Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau i ddarparu rhaglen gyfoethog ar gyfer datblygu medrau iaith a hyder staff<br>Cydweithio gyda CABAN/Prifysgol Bangor yn sicrhau lleoliadau cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr AGA.<br>Adnabod y gweithlu sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg – cynllunio ar gyfer datblygu ymhellach (cymorthyddion, athrawon, arweinwyr) frwy gyd-weithio gyda'r ALl. | C/I | 2D | RhG / CC | Parhau i gynnig amrediad eang o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn perthynas â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth a datblygu sgiliau iaith y gweithlu er mwyn datblygu arweinwyr y presennol a'r dyfodol. |
| 4 | Gwella ysgolion | 1 | Cyflymder datrys materion mewn ysgolion uwchradd a roddir mewn categori Statudol Estyn. | U | U | 2A | Mae 4 ysgol uwchradd mewn categori statudol ar hyn o bryd. Mae rhaglenni ymyrraeth a chymorth dwys ar waith yn yr ysgolion hyn sy'n canolbwyntio ar wella dysgu ac addysgu; datblygu systemau tracio ac asesu; gwella arweinyddiaeth ar bob lefel a datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio gwelliant grymus. Bydd GwE yn gweithio'n agos gyda'r ALl, Estyn a Llywodraeth Cymru i yrru'r gwelliannau angenrheidiol. | C/U | 2B/C | RhG/CC/Uwch Arweinwydd Uwchradd | O hydref 2023 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru unwaith eto'n cyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae angen i'r prosesau gwerthuso mewn ysgolion sy'n nodi cynnydd yn erbyn argymhellion allweddol gasglu amrywiaeth eang o dystiolaeth yn unol â disgwyliadau'r GGY newydd. Mae angen i Grŵp Gorchwyl y Bwrdd Rheoli barhau i adolygu'n gyson effeithiolrwydd strwythur rhanbarthol a phrosesau ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder. |
| 5 | Paratoadau ar gyfer Y Daith Diwygio a Chwricwlwm i Gymru | I GYD | Mae effaith pandemig Covid-19 wedi ei gwneud hi'n anoddach i ysgolion fwrw ymlaen â'u paratoadau Cwricwlwm i Gymru gwreiddiol. | U | U | 2A | Mae GwE wedi parhau i gefnogi ysgolion yn eu paratoadau ar gyfer Y Daith Diwygio a Chwricwlwm i Gymru ac wedi bod yn hyblyg yn ei ddarpariaeth er mwyn cwrdd ag anghenion amrywiol ysgolion yn ystod y pandemig. Mae GwE wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol, Estyn a Llywodraeth Cymru i nodi'r disgwyliadau ar ysgolion a lleoliadau o ran diwygio wrth i'r broses o roi Cwricwlwm Cymru ar waith ddechrau. Mae GwE yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos â'r consortia rhanbarthol eraill wrth i ni symud tuag at weithredu Cwricwlwm i Gymru. Mae GwE hefyd wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol eraill i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol sy'n integreiddio pob agwedd o'r daith d diwygio ehangach gan gynnwys Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Y Gymraeg a'r Bil Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r cynnig traws-ranbarthol hwn wedi'i anelu at gefnogi pob ymarferwr ysgol trwy ystod o weithdai ac mae'n cynnwys mwy a mwy o astudiaethau achos o ysgolion sy'n rhannu eu harferion newydd a ffocws ar ddatblygu dilyniant o fewn MDPh ac ar eu trawss. Hefyd mae staff GwE wedi datblygu canllawiau a modelau enghreifftiol ar gyfer dylunio cwricwlwm ysgol gyfan, cynllunio'r cwricwlwm ac asesu i gynorthwyo arweinwyr ac athrawon. Mae ysgolion uwchradd wedi myfyrio ar eu paratoadau ac mewn digwyddiad rhannu ym mis Mawrth 2023, cafodd ymarferwyr gyfle i rannu eu harferion a'r gwersi y maent wedi'u dysgu o roi Cwricwlwm Cymru ar waith ym Mlwyddyn 7. Ers mis Medi 2021, mae rhwydwaith rhanbarthol Cwricwlwm Cymru wedi cael ei sefydlu i alluogi ymarferwyr ledled y rhanbarth fel rhan o raglen barhaus GwE i gefnogi ysgolion. Mae dros 100 o ymarferwyr ysgol ledled y rhanbarth wedi ymrwymo i ymwneud â'r gwaith hwn a byddant yn rhannu eu harferion newydd o ran y cwricwlwm lleol mewn digwyddiad rhannu Marchnad rhanbarthol ym Mehefin 2023. | C | 2B | Uwch Arweinydd - CiG | Parhau i gefnogi pob ysgol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn unol â disgwyliadau'r system yn y Daith hyd at 2022. Parhau i gefnogi pob lleoliad i werthuso a mireinio eu cwricwlwm yn unol ag arweiniad gwella ysgolion a myfyrio ar ddealltwriaeth a rennir ynghylch cynnydd pob dysgwr.<br>Parhau i hwyluso rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru ar lefelau rhanbarthol a lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe ALl yng Ngogledd Cymru i ddatblygu arfer MDaPh effeithiol a fydd yn helpu ysgolion ar y Daith Diwygio.<br>Holl ddeunyddiau a recordiadau cyfarfodydd rhanbarthol ar gael wefan GwE ynghyd ag adnoddau ac enghreifftiau o waith dylunio a chynllunio. Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn parhau i gynnig cymorth penodol ar lefel ysgol a chlwstwr / cynghrair fel sydd wedi ei adnabod yn y cynlluniau cymorth.<br>Parhau i ymgysylltu â phob ysgol trwy'r cynnig DP rhanbarthol a hwyluso cydweithredu ar draws y continwwm 3-16 yn unol â chynllun gweithredu'r ysgol a'r clwstwr.<br>Parhau â chyfarfodydd tîm llawn YCG rheolaidd i gefnogi gwneud synnwyr o'r Cwricwlwm i Gymru. Datblygu negeseuon cyson ar draws yr holl rwydweithiau drwy gasglu negeseuon allweddol, adnoddau cymorth, enghreifftiau o sut all ysgolion ymgysylltu a chamsyniadau.<br>Parhau i gydweithio â Phrifysgol Bangor ac ysgolion Ymholi Proffesiynol Arweiniol i ddatblygu rôl ymholi proffesiynol o fewn dysgu ac addysgu. |
| 6 | Safonau | I GYD | Ansicrwydd ynglŷn ag atebolrwydd a mesurau perfformiad sy'n llesteirio cyflymder y Daith Ddiwygio, yn enwedig yn y sector uwchradd. | U | C/U | 2A | Trafodaethau rheolaidd hefo Llywodraeth Cymru ac Estyn wedi eu cynnal dros y cyfnod i ddylanwadu ar fwriadau cenedlaethol parthed datblygu fframwaith atebolrwydd newydd. | C | 2B/C | CC / Uwch Arweinydd Uwchradd | Continue to work closely with Welsh Government, other consortia, local authorities and Estyn to ensure that schools fully understand the direction of travel outlined in the new SIG and that regional accountability processes and structures support schools to effectively address the requirements of the reform journey. |
| 7 | Safonau | I GYD | Mae ansicrwydd ynglŷn â sut y bydd cymwysterau 2027 yn edrych yn ffactor cyfyngol mewn ysgolion uwchradd. | U | C/U | 2A | Trafodaethau rheolaidd hefo Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC wedi eu cynnal dros y cyfnod i ddylanwadu ar gyfeiriad. | C | 2B/C | CC / Uwch Arweinydd Uwchradd | Continue to contribute to consultation sessions and to the work of relevant networks and forums to influence direction. |
| 8 | Safonau | I GYD | Cysondeb ac ystod y Daith Ddiwygio a'i effaith ar arweinyddiaeth systemig rhwng LlC, yr haen ganol ac ysgolion gyda lefel gynyddol o gyllid yn mynd yn uniongyrchol o LC i ysgolion. | U | C/U | 2A | Trafodaethau rheolaidd hefo Llywodraeth Cymru a'r haen ganol yn cael eu cynnal i ddylanwadu ar gyfeiriad. | C | 2B | RhG / CC | Parhau i weithio'n agos hefo Llywodraeth Cymru, y rhanbarthau eraill, yr awdurdodau lleol ac Estyn i ddylanwadu ar gyfeiriad. |
| 9 | Trefniadau gweithredu a strwythur staffio GwE | I GYD | Nid yw trefniadau gweithredu GwE a'r strwythur staffio presennol yn cyfarch y cyfeiriad rhanbarthol na Llywodraeth Cymru wrth symud ymlaen. | U | C/U | 2A | Mae'r BRh, CB a'r Prif Weithredwyr wedi cytuno i adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyfeiriad Llywodraeth Cymru a rhanbarthol ar gyfer y dyfodol. Mae gwaith yn parhau i esblygu a chryfhau'r gwaith partneriaeth presennol ag Awdurdodau Lleol i wneud pethau'n eglur, lleihau dyblygu a biwrocratiaeth, a gwella effeithiolrwydd cyflawni ymhellach. | C/I | 2C | RhG / BRh / CB | Cynnal adolygiad o'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol yn ystod haf / hydref 2023 i sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol wedi'i strwythuro'n addas. Cysoni adolygiadau Llywodraeth Cymru a GwE a sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn agos ac yn ategu ei gilydd. |
| 10 | Recriwtio a chynllunio olyniaeth | I GYD | Anawsterau recriwtio a chynllunio olyniaeth o fewn y gwasanaeth gan nad yw cyflogau'n gystadleuol gyda sefydliad tebyg neu gyda chyflogau Prifathrawon ac uwch arweinwyr. | U | C/U | 2A | Mae angen sicrhau bod cyflogau yn y strwythurau sefydliadol yn gystadleuol â sefydliadau tebyg i ganiatáu cynllunio olyniaeth llwyddiannus yn y dyfodol a denu staff o safon uchel. | C | 2B/2C | RhG / BRh / CB | Cynnwys hyn fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol (fel y nodwyd dan Risg Rhif 9). |
| 11 | Gwella Ysgolion | I GYD | Gweithredu'r Canllawiau Gwella Ysgolion newydd. | C/U | C | 2B | Bydd gweithio o fewn y GGY newydd yn galluogi pob rhanddeiliad i weithio mewn ffyrdd mwy newydd. Mae cynllun busnes 2023-26 GwE yn amlinellu sut y bydd, gan gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, yn cryfhau arweinyddiaeth, yn gwella addysgu a dysgu, ac yn cynyddu'r dyhead i effeithio ar safonau. Fel gwasanaeth, byddwn yn gwneud y canlynol: sicrhau bod pob ysgol yn cael cefnogaeth i werthuso'n fanwl gywir a chyflawni cynlluniau gwella cadarn yn effeithiol; cefnogi arweinwyr sy'n cydweithio i hybu safonau a dyheadau uchel i bawb; cefnogi arweinwyr ysgolion i ymgyfarwyddo â'r arweiniad gwella ysgolion newydd a chymryd camau hyderus; cryfhau dulliau amlasiantaethol a 'thîm o gwmpas yr ysgol' gydag ysgolion sy'n achosi pryder a chryfhau gwaith partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol. | C/I | 2C | RhG / BRh / CB | Parhau i ymgysylltu â phob rhanddeiliad i sicrhau bod datblygiadau cenedlaethol yn dylanwadu ar waith rhanbarthol, y cânt eu gwerthuso'n llawn ac y delir eu heffaith. Bydd GwE a'r Awdurdodau Lleol, drwy gyfrwng y Bwrdd Rheoli a'u Grŵp Gorchwyl, yn parhau i fonitro effeithiolrwydd dulliau rhanbarthol o nodi, creu, cyflawni a monitro Cynlluniau Cefnogi Ysgolion. Bydd y Grŵp Gorchwyl yn archwilio ffyrdd posibl o gydweithio'n gryfach ar draws Awdurdodau Lleol i gynyddu eu gallu a sicrhau cefnogaeth fwy cyson gan sicrhau hefyd ein bod yn mabwysiadu dull cyfannol a thryloyw o ran llunio adroddiadau a rhannu gwybodaeth. |
| 12 | Hinsawdd Undebol | I GYD | Yr hinsawdd bresennol o ran Undebau. | U | U | 2A | Parhau i gyfathrebu a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Undebau ynghylch y ffordd orau o gefnogi ysgolion i roi Canllawiau Gwella Ysgolion anstatudol ar waith yn yr hinsawdd sydd ohoni o ran yr Undebau. | C | 2B | RhG / CC | Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac Undebau i sicrhau perthynas waith effeithiol a llwyddiannus. |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 MAI 2023**

**Adroddiad gan: Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE**

**Pwnc: Adolygu trefniadau gweithredu GwE a'r strwythur staffio presennol**

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

**1.1** I gyflwyno cylch gorchwyl drafft i aelodau'r Cyd-bwyllgor mewn perthynas â Adolygu trefniadau gweithredu GwE a'r strwythur staffio presennol.

**2.0 Cefndir**

**2.1** Ar 23 Tachwedd 2022, caniataodd aelodau'r Cyd-bwyllgor i'r gwasanaeth symud ymlaen i adolygu ei drefniadau gweithredu a'i strwythur staffio presennol.

**2.2** Wrth i GwE barhau i gefnogi ysgolion yn y cyfnod wedi'r pandemig, mae'n amserol adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol i sicrhau ein bod yn parhau i esblygu a datblygu er mwyn cefnogi ysgolion yn effeithiol ar ôl Covid.

**3.0 Materion i gael sylw**

**3.1** Ynghlwm mae'r cylch gorchwyl drafft sy'n amlinellu:

- y cefndir a'r cyd-destun
- sail resymegol
- nodau ac amcanion
- materion i gael sylw
- ffynonellau gwybodaeth i lywio'r adolygiad
- amseriad; a'r

- tîm arfaethedig i gynnal yr adolygiad.

**4.0 Argymhellion**

**4.1** Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo'r cylch gorchwyl.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

**5.1** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd unrhyw fodel gweithredu yn cael ei ariannu trwy adnoddau sydd gennym eisoes ac i'r dyfodol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

**6.1** Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

**7.1** Bydd GwE yn dilyn gweithdrefnau'r Awdurdod Lletyol yng nghyd-destun unrhyw ailstrwythuro.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

**8.1** Ymgynghorir yn llawn â staff GwE yn ystod y broses adolygu.

**9.0 Atodiadau**

**9.1** Atodiad 1 – Cylch gorchwyl drafft

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Nodir y bwriad i fynd ati i adolygu'r strwythur staffio a chadarnhaf fod cymeradwyo strwythur staffio GwE yn un o swyddogaethau'r Cydbwyllgor ei hun.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn croesawu'r bwriad i adolygu trefniadau gweithredu a strwythur staffio GwE yn nghyd-destun sefyllfa sy'n newid yn barhaus. Bydd swyddogion y gwasanaethau Cyllid yn cynorthwyo GwE gyda'r gwaith hwn fel bo'r angen, ac yn sicrhau bod GwE yn parhau i weithredu'n unol â'r adnoddau sydd ar gael iddo.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo

DRAFT

**Adolygu trefniadau gweithredu GwE a'r strwythur staffio presennol**

**<u>Cylch Gorchwyl drafft</u>**

**Cefndir a chyd-destun**

Mae staff yr Awdurdodau Lleol a GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w cymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID. Yn ystod y cyfnod hwn, mae GwE, mewn partneriaeth glos efo Awdurdodau Lleol gogledd Cymru, wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg. Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod COVID er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, yn draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraff allanol. Wrth i ni barhau i gefnogi ysgolion yn y cyfnod wedi'r pandemig, mae'n amserol adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol i sicrhau ein bod yn parhau i esblygu a datblygu er mwyn cefnogi ysgolion yn effeithiol ar ôl Covid.

Wrth i ni fynd i'r afael â'r diwygio cenedlaethol a pharhau i gefnogi ysgolion efo gweithredu'r cwricwlwm newydd, daw'n glir ein bod ni mewn lle gwahanol i'r hyn a ddychmygwyd pan gyhoeddwyd canllawiau Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o'r gwaith paratoi at y cwricwlwm wedi'i neilltuo i reoli effaith y pandemig dros y blynyddoedd diwethaf. Ar y llaw arall, gyda phwyslais cryfach fyth ar les a buddsoddiad

sylweddol mewn dysgu ac addysgu, mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm wedi bod wrth wraidd sut y bu ysgolion yn gweithio. Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi ysgolion ac UauCD i gynnal y momentwm hwn i sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf. Rydym wedi cydnabod y bydd angen i'n Dysgu Proffesiynol esblygu i gynnig llai o ddarpariaeth a gyflwynir yn ganolog a rhagor o ddysgu proffesiynol ar sail ysgol i ysgol (a chlwstwr i glwstwr). Rhagwelir mai'r meysydd a ganlyn fydd ein Cynnig Dysgu Proffesiynol rhanbarthol dros y blynyddoedd nesaf: Gwella Sgiliau Dysgwyr; Gwella'r Profiad Dysgwr; Addysgeg; Tegwch a Lles; '*Y Gymraeg*; Asesu a Chynnydd Dysgwr; a Datblygu Arweinyddiaeth. Bydd dysgu proffesiynol yn allweddol wrth gefnogi ysgolion i weithredu eu blaenoriaethau Cynllun Datblygu Ysgol a'u symud yn eu blaen. Cytunir ar gynllun cymorth gyda phob ysgol a lleoliad yn unol â gofynion y Canllawiau Gwella Ysgolion (Mehefin 2022).

Mae'r canllawiau gwella ysgolion newydd (Mehefin 2022) yn cynnig pwynt cyfeirio i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol ac Estyn, sy'n amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl ganddynt, yng nghyd-destun eu dyletswyddau cyfreithiol ehangach. Diben cyffredinol gwella ysgolion yw helpu ysgolion i roi'r profiadau a'r deilliannau dysgu gorau posibl i ddysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir, er mwyn sicrhau safonau uchel ac uchelgais i bawb. O dan y Cwricwlwm i Gymru, rhan sylfaenol o hyn fydd sicrhau bod ysgolion yn cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd, gan gyfrannu at y pedwar diben. Mae'r canllawiau yn cefnogi'r amcan hwnnw drwy nodi fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd a fydd yn sicrhau gwelliant cynaliadwy mewn ysgolion ac yn ysgogi ymddygiadau ac arferion sy'n ofynnol gan y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Er mwyn bod yn llwyddiannus, mae'n hollbwysig bod pob agwedd ar y system ysgolion yn gyson â'r cwricwlwm newydd a'r egwyddorion sy'n sail iddo, ac yn eu cefnogi. Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r canllawiau, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgir yn 2022/23 a 2023/24, a'u cyhoeddi ar ffurf canllawiau statudol i ddod i rym ym mis Medi 2024. Mae'n amserol felly bod GwE yn adolygu ei drefniadau gweithredu a'i strwythur staffio i sicrhau y gall fynd i'r afael yn effeithiol â gofynion y canllawiau.

DRAFT

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y dylid cynnal 'Adolygiad o rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru a chyflawni trefniadau gwella ysgolion'. Mae gan yr holl bartneriaid addysg ar bob lefel ran i'w chwarae wth gefnogi ysgolion efo cyflawni cenhadaeth ein cenedl.
O fewn y cyd-destun hwn, cynigir cynnal adolygiad o gyfeiriad, rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru i'r dyfodol - yr 'haen ganol' - a sut y dylent esblygu a datblygu trefniadau gwella ysgolion. Dylai'r adolygiad ddangos sut y gallwn roi'r gefnogaeth orau i'n pwrpas a'n hamcanion cyffredin yng nghyd-destun system sy’n hunan wella.

Mae'r haen ganol yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Consortia a Phartneriaethau Rhanbarthol, Awdurdodau Esgobaethol, Estyn, Cymwysterau Cymru, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Cyngor y Gweithlu Addysg, addysg bellach, addysg uwch a byrddau arholi.

**SAIL RESYMEGOL**

Mae angen adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol er mwyn gofalu bod gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol strwythur addas i:

- sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n effeithiol ar ôl COVID i fynd i'r afael ag effaith y pandemig ar gynnydd a lles dysgwyr;
- sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n effeithiol i weithredu'r cwricwlwm newydd a phob agwedd ar y daith ddiwygio;
- rhoi sylw i ddisgwyliadau cenedlaethol o ran gwella ysgolion, fel yr amlinellir yn y 'Canllawiau Gwella Ysgolion (Mehefin 2022)'; ac
- adeiladu ar sylfeini cryf dull cydweithredol o weithio a sefydlwyd yn rhanbarthol wrth i ni symud tuag at system hunan wella
- gosod allan sut y dylai gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol a system hunan wella edrych i'r dyfodol
- esblygu a datblygu trefniadau gwella ysgolion, fel y’i cynigiwyd yn adolygiad Llywodraeth Cymru.

**NODAU AC AMCANION**

1. Adolygu'r strwythur presennol er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol ac atebolrwydd yn cael eu bodloni.

2. Adolygu'r strwythur presennol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni cyfeiriad Llywodraeth Cymru a'r cyfeiriad Rhanbarthol wrth symud ymlaen.

3. Rhoi gwedd gliriach ar rolau a chyfrifoldebau GwE a phartneriaid; adnabod meysydd ble mae cyd-ymdrech ac unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a darparu disgrifiadau diamwys o gyfrifoldeb ac atebolrwydd pob sefydliad a phartner.

4. Sefydlu'r rolau, y cyfrifoldebau a'r atebolrwydd yn glir mewn perthynas â meysydd fel ADY, y Gymraeg, Llywodraethwyr, lles staff a dysgwyr.

5. Esblygu a chryfhau ymhellach y gwaith partneriaeth presennol gydag Awdurdodau Lleol er mwyn darparu eglurder, lleihau dyblygu a biwrocratiaeth a gwella effeithiolrwydd y ddarpariaeth ymhellach.

6. Sicrhau bod gan y gwasanaeth strwythur addas i ganolbwyntio ar gefnogaeth a meithrin capasiti ar gyfer system hunan wella.

7. Parhau i hyrwyddo a hwyluso cydweithio o fewn a rhwng clystyrau/cynghreiriau a rhwydweithio ehangach.

8. Sicrhau bod ysgol sydd yn dirywio ac arni angen cymorth yn cael ei hadnabod yn gynnar ac yn effeithiol, er mwyn ei hatal rhag dod yn ysgol sy'n destun pryder. Sicrhau bod prosesau a systemau ar gyfer cefnogi a herio ysgolion sy'n destun pryder yn cyd-fynd â'r gofynion yn y canllawiau gwella ysgolion.

9. Sicrhau cyfathrebu effeithiol a rhannu gwybodaeth ac arferion llwyddiannus ar draws y rhanbarth, er mwyn sicrhau her a chymorth priodol.

10. Sicrhau bod y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol yn y sefyllfa orau i gyfrannu yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

11. Sicrhau bod adolygiadau Llywodraeth Cymru a GwE yn cyd-fynd yn agos ac yn ategu ei gilydd.

12. Sicrhau bod cyflogau'r strwythurau sefydliadol yn cymharu'n ffafriol â sefydliadau cyffelyb, er mwyn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer olyniaeth i'r dyfodol a denu staff o'r radd flaenaf.



DRAFT

**MATERION I GAEL SYLW**
Bydd angen ystyried hefyd faterion eraill sydd yn yr adolygiad. Gallai'r rhain gynnwys:

- Adolygu'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau er mwyn cyd-ddarparu swyddogaethau yn effeithiol
- Creu cynllun olyniaeth ar gyfer y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod gan GwE strwythurau busnes a gwella ysgol priodol ac effeithiol, sy'n sicrhau effaith gadarnhaol a gwerth am arian.
- Nid yw strwythur cyflogau GwE wedi'i adolygu ers ei sefydlu yn 2013. Yn sgil hyn, ac yn dilyn y setliad ar gyflogau staff ysgol yn ddiweddar, mae angen adolygu strwythurau cyflogau rhanbarthol er mwyn gofalu eu bod yn gystadleuol a chyfoes.
- Ystyried sut y mae'r strwythur rhanbarthol presennol yn addas i'r pwrpas o ran cefnogi'r rhaglen ddiwygio yn effeithiol - yn enwedig yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru, newidiadau i ganllawiau gwella ysgolion a'r rhaglen trawsnewid ADY - er mwyn sicrhau y darperir yr hyn sydd ei angen yn effeithiol.
- Adolygu gweithio ar y cyd ag asiantaethau a phartneriaethau eraill.
- Llunio model gweithio hyblyg ac ystwyth, er mwyn ymateb ar frys i'r gostyngiad posibl mewn grantiau a'r gyllideb graidd.
- Ystyried sut gellir defnyddio adnoddau ac arbenigedd o fewn y gwasanaeth i greu incwm.

**FFYNONELLAU GWYBODAETH I LYWIO'R ADOLYGIAD**
- Rolau a chyfrifoldebau presennol sydd wedi'u cyhoeddi
- Deddfwriaeth, polisïau a dogfennau canllaw sy'n bod yn barod, a gwybodaeth a arolygiadau Estyn
- Trefniadau Awdurdod Lleol gyda Consortia Rhanbarthol a Phartneriaethau
- Trefniadau llywodraethu ac awdurdod lletyol a chefnogaeth o fewn sefydliadau tebyg eraill
- Strwythurau sefydliadol, cynllunio ar gyfer olyniaeth a chyflogau cymharol ar draws sefydliadau tebyg
- Consortia Rhanbarthol a Phartneriaethau
- Trefniadau Llywodraeth Cymru efo pob sefydliad
- Yr ymchwil diweddaraf am wasanaethau gwella ysgolion
- Profiadau ac argraffiadau ysgolion / ymarferwyr

DRAFT

- Barn / tystiolaeth gan bartneriaid allweddol o fewn cyfundrefn addysg Cymru
- Arferion llwyddiannus lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol

**AMSERIAD**
I gychwyn yn ystod tymor yr haf 2023 gyda chanfyddiadau cychwynnol ym mis Gorffennaf ac adroddiad terfynol yn nhymor yr hydref 2024

**CYNNAL YR ADOLYGIAD**

Y tîm i gynnwys:

- Arweinydd / Awdur
- Rheolwr Prosiect
- Cynrychiolwyr Awdurdod Lleol
- Arbenigwr Cyllid annibynnol
- Swyddog cyswllt GwE
- Cynrychiolwyr ysgolion i herio canfyddiadau cynnar

DRAFT

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 MAI 2023**

**Adroddiad gan: Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE**

**Pwnc: Ymgynghoriadau**

1.0 **Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Rhannu gwybodaeth ag aelodau'r Cyd-bwyllgor ynghylch ymgynghoriadau perthnasol dros ben sydd ar y gweill, sef:

- Llywodraeth Cymru – Adolygu rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru a chyflawni trefniadau i wella ysgolion
- Estyn - Arolygiadau gwasanaethau addysg llywodraeth leol 2024
- Llywodraeth Cymru – Bil Addysg y Gymraeg: papur gwyn

**2.0 Cefndir**

**2.1** Adolygiad Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y dylid cynnal 'Adolygiad o rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru a chyflawni trefniadau i wella ysgolion'. Mae gan yr holl bartneriaid addysg ar bob lefel ran i'w chwarae wrth gefnogi ysgolion efo cyflawni cenhadaeth ein cenedl. O fewn y cyd-destun hwn, cynigir cynnal adolygiad o gyfeiriad, rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru i'r dyfodol - yr 'haen ganol' - a sut y dylent esblygu a datblygu trefniadau gwella ysgolion. Dylai'r adolygiad ddangos sut y gall partneriaid addysg yng Nghymru roi'r gefnogaeth orau i'r pwrpas a'r amcanion cyffredin yng nghyd-destun system sy'n hunan wella.

**2.2** Mae'r haen ganol yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Consortia a Phartneriaethau Rhanbarthol, Awdurdodau Esgobaethol, Estyn, Cymwysterau Cymru, yr Academi Genedlaethol ar gyfer

Arweinyddiaeth Addysgol, Cyngor y Gweithlu Addysg, addysg bellach ac uwch a byrddau arholi.

**2.3** Estyn: Mae Estyn wrthi'n ymgynghori ar gynigion allweddol yng nghyd-destun arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol 2024, ble bydd dwy ddogfen ganllaw ar gyfer 2024: 'Sut rydym yn arolygu' a 'Beth rydym yn ei arolygu'.

**2.4** Bil Addysg y Gymraeg: Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer y meysydd canlynol:

- Rhoi'r ffocws ar ddeilliannau ieithyddol fel bod pob disgybl yn gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus
- Cryfhau'r system ar gyfer cynllunio twf yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r nifer sy'n eu mynychu
- Cynyddu dros amser y gofynion o ran cyfran o bob wythnos a gaiff ei neilltuo i ddarpariaeth yn ôl categori ieithyddol
- Cynyddu ein gweithlu Cymraeg yn y sector addysg

**3.0 Materion i gael sylw**

3.1 Adolygiad Llywodraeth Cymru: Gweler ynghlwm gopi o'r Cylch Gorchwyl drafft sydd yn amlinellu cyd-destun, rhesymeg, nodau ac amcanion yr adolygiad (Atodiad 1). Yn ogystal ag adnabod sut byddai gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol yn edrych yn y dyfodol, bydd angen ystyried hefyd faterion eraill sydd yn yr adolygiad (gweler y cylch gorchwyl).

3.2 Cynigir y gallai'r adolygiad gychwyn yn ystod tymor yr haf gyda chanfyddiadau cychwynnol yn yr hydref ac adroddiad terfynol yn nhymor y gwanwyn 2024. Cyhoeddir dogfen yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau i bob sefydliad, gyda diffiniadau clir ar gyfer sefydliadau a elwid yn flaenorol yn 'haen ganol' a meysydd ar gyfer gweithredu posib.

3.3. Yn eu cyfarfod ar 22 Tachwedd, 2022 rhoddodd aelodau'r Cyd-bwyllgor ganiatâd i GwE fynd ati i adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol ac atebolrwydd yn cael eu bodloni a'i fod yn bodloni cyfeiriad Llywodraeth Cymru a'r cyfeiriad Rhanbarthol wrth symud ymlaen. Yn sgil hyn, bydd y tîm allanol fydd yn cynnal yr adolygiad yn sicrhau bod adolygiadau Llywodraeth Cymru a GwE yn cyd-fynd yn agos ac yn ategu ei gilydd.

3.4 Estyn: Gweler ynghlwm (Atodiad 2) gopi o gynigion allweddol Estyn, yn amlinellu'r camau fel a ganlyn:

- Ymgynghori ar y cynigion - tymor yr haf
- Hyfforddi arolygwyr cymheiriaid - tymor yr hydref
- Peilot - tymor y gwanwyn
- Mireinio'r canllawiau yn dilyn adborth - tymor yr haf 2024

3.5 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion a fydd yn sail i Fil Addysg y Gymraeg. Bydd y Bil yn cymryd camau i alluogi holl ddisgyblion Cymru i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol. Ymhlith y prif gynigion mae:

- Adlewyrchu’r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn y gyfraith
- Creu un continwwm sgiliau Cymraeg i ddisgrifio lefelau sgiliau fel bod dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr yn dod i ddealltwriaeth gyffredin o'r daith tuag at ddysgu Cymraeg
- Sefydlu system statudol o gategoreiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith
- Dros amser, cynyddu’r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydynt eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig
- Gofyniad i Weinidogion Cymru greu Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg, a'i adolygu bob tymor Seneddol
- Diwygio sut mae awdurdodau lleol yn cynllunio darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion er mwyn cyrraedd targedau a osodir gan Weinidogion Cymru
- Gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol, gan gynnwys darpariaeth trochi hwyr; a
- Rhoi cymorth arbenigol i ysgolion o ran dysgu Cymraeg

Gofynnir am ymatebion i’r ymgynghoriad erbyn 16 Mehefin 2023.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi’r ymgynghoriadau, ac i swyddogion GwE a’r Awdurdodau lleol baratoi ymateb ar ran y Cyd bwyllgor.

## 5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â'r rhanddeiliaid arferol.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Cylch Gorchwyl drafft Adolygiad Llywodraeth Cymru

Atodiad 2 - cynigion allweddol Estyn

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

**ADOLYGU ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU PARTNERIAID ADDYSG YNG NGHYMRU A CHYFLAWNI TREFNIADAU I WELLA YSGOLION**

## <u>Cylch Gorchwyl Drafft</u>

### Cyd-destun

Drwy weithio gyda'n gilydd, ein nod cenedlaethol yw sicrhau safonau ac uchelgeisiau uchel i bawb drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, a chefnogi pob dysgwr i fod yn ddinesydd iach, addysgedig a mentrus. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn a rannwn, rhaid i bob rhan o'r system addysg barhau i fod yn benderfynol o gydweithio i sicrhau'r effaith orau; gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes, dysgu o arferion effeithiol, a sicrhau bod y wybodaeth a'r adnoddau sydd ar gael yn cael eu targedu i sicrhau'r canlyniadau yr ydym i gyd am eu gweld.

Mae ein system addysg gyhoeddus a chyfartal yn destun balchder a hyder cenedlaethol. Rydym yn ymwrthod â chaniatáu i ysgolion ddewis disgyblion ac â diystyru lleoedd a phobl benodol. Ond rydym hefyd yn gwybod bod gormod o amrywiaeth rhwng ysgolion a rhwng ardaloedd daearyddol. Mae hon yn her inni i gyd ac yn un y byddwn yn mynd i'r afael â hi gyda'n gilydd. Mae hynny'n golygu bod angen i bob rhan o'r system gydweithio – gan ddiwallu'r angen i wella ysgolion drwy fynediad at gymorth o ansawdd sydd wedi'i deilwra, a thrwy drefniadau i ysgolion allu troi fwyfwy at ysgolion eraill am gymorth. System hunanwella wirioneddol, yn seiliedig ar ysbryd o gydweithio, nid cystadleuaeth, a chynnydd a lles dysgwyr yn ganolog i'r cyfan.

Mae gan bob partner addysg ar bob lefel rôl i'w chwarae wrth gefnogi ysgolion i gyflawni ein nod cenedlaethol.  O fewn y cyd-destun hwn, cynigir adolygiad o gyfeiriad, rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg Cymru i'r dyfodol - yr 'haen ganol' - a sut y dylem esblygu a datblygu trefniadau i wella ysgolion.  Dylai'r adolygiad hwn ddangos sut y gallwn gyfrannu yn y ffordd orau at gyflawni ein pwrpas a'n nodau cyffredin o fewn cyd-destun system hunanwella.

Mae'r haen ganol yn cynnwys yr Awdurdodau Lleol, Consortia Rhanbarthol a Phartneriaethau, Awdurdodau Esgobaethol, Estyn, Cymwysterau Cymru, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, addysg bellach ac uwch, a byrddau arholi.

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae ffyrdd o weithio ar draws yr haen ganol wedi datblygu wrth i ddisgwyliadau a gofynion esblygu, i sicrhau diwygiadau yn ein system addysg.  Mae'r modelau gweithredu wedi newid, ond mae pwrpas cyffredin yr haen ganol wedi parhau fel a ganlyn:

> "Defnyddio eu gwybodaeth am ysgolion ac ymchwil i hwyluso a chefnogi'r broses o rannu arfer gorau a chydweithio i wella deilliannau dysgwyr, o fewn system hunanwella i ysgolion."

### Sail resymegol

Mae ein huchelgais i sicrhau safonau ac uchelgeisiau uchel i bawb yn ei gwneud yn ofynnol inni wella safonau ein system addysg yn barhaus. Rydym eisoes wedi cychwyn ar y daith hon drwy gyflwyno'r cwricwlwm newydd, cyhoeddi canllawiau

newydd ar gyfer gwella ysgolion fel fframwaith ar gyfer y trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, a'r rhaglen i drawsnewid y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd yr adolygiad yn ystyried beth arall y mae angen inni ei wneud i gyflawni cynnydd pellach fel y gallwn wireddu ein huchelgeisiau.

Diben cyffredinol gwella ysgolion yw helpu ysgolion i roi'r profiadau a'r deilliannau dysgu gorau posibl i ddysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, er mwyn sicrhau safonau ac uchelgeisiau uchel i bawb. O dan y **Cwricwlwm i Gymru**, rhan sylfaenol o hyn fydd gwneud yn siŵr bod ysgolion yn cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd, gan gyfrannu at **bedwar diben y cwricwlwm**.

**Nodau**

1. Sicrhau eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau a'r partneriaid a elwir yn haen ganol ar hyn o bryd, gan nodi meysydd lle mae yna gydymdrechu ac unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth, a darparu disgrifiadau diamwys o gyfrifoldeb ac atebolrwydd pob sefydliad a phartner.

2. Sicrhau bod y trefniadau gwella ysgolion sydd ar waith yn system addysg Cymru wedi'u cynllunio i alluogi pob dysgwr i wireddu ei botensial yn y ffordd orau o fewn system sy'n cynnig rhagoriaeth a thegwch.

3. Cytuno ar ddisgwyliadau a’u pennu’n glir o ran trefniadau gwella ysgolion ar gyfer system addysg Cymru, sy'n adeiladu ar arferion effeithiol presennol, yn adlewyrchu tystiolaeth ryngwladol yn y maes hwn, ac yn ymateb i heriau heddiw ac yfory.

4. Sicrhau bod gwaith y sefydliadau a'r partneriaid sy'n ymwneud â gwella ysgolion yng Nghymru yn gydnaws ac yn ategu ei gilydd, fel y gellir sicrhau’r budd mwyaf i athrawon, arweinwyr ysgolion, staff cymorth, a dysgwyr yn y pen draw.

5. Ystyried sut mae'r rhaglen ddiwygio bresennol - yn enwedig mewn perthynas â chwricwlwm Cymru, newidiadau i ganllawiau gwella ysgolion a rhaglen trawsnewid y system ADY - yn cael ei chefnogi'n effeithiol drwy drefniadau wedi’u diwygio / hailfodelu i wella ysgolion, er mwyn sicrhau bod yr hyn sydd ei angen yn cael ei ddarparu'n effeithiol.

**Amcanion**

1. Sefydlu mewn termau clir rolau a chyfrifoldebau unigol pob un o'r sefydliadau partner (y cyfeirir atynt weithiau fel yr 'haen ganol') yn yr ystyr ehangaf, a lle mae ganddynt rolau a chyfrifoldebau o ran cefnogi'r gwaith o wella addysg yn ysgolion a lleoliadau Cymru.

2. Ystyried y ffordd orau y gall y sefydliadau canlynol o fewn system addysg Cymru, yn arbennig, gydweithio ar sail gynaliadwy i gefnogi dysgwyr, gweithwyr addysg proffesiynol ac arweinwyr wrth gyflawni ein nod cenedlaethol:
   - Awdurdodau Lleol

- Consortia Rhanbarthol a Phartneriaethau
- Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
- Sefydliadau addysg uwch.

3. Nodi sut y dylai gwasanaeth gwella ysgolion a system hunanwella effeithiol edrych i'r dyfodol. Dylid ystyried:

    a. Y weledigaeth a'r uchelgeisiau ar gyfer addysg yng Nghymru
    b. Arferion gorau rhyngwladol a datblygiadau polisi mewn systemau addysg eraill ochr yn ochr ag achosion enghreifftiol yng Nghymru
    c. Hybu arferion effeithiol sydd eisoes wedi'u nodi gan Estyn
    d. Rôl dysgu rhwng ysgolion, clystyrau, ffederasiynau a mathau eraill o gydweithio sy'n cynyddu capasiti ysgolion i ddatblygu a gwella
    e. Arweinyddiaeth systemau, a chyfleoedd i wella hynny ymhellach drwy gydweithio
    f. Meysydd penodol gwella arferion dysgu, addysgu ac arwain
    g. Cwmpas a graddfa catalyddion allanol i gefnogi gwelliant, gan gynnwys pwysigrwydd ymchwil a deallusrwydd / mewnwelediad cyfoes ac arweiniol, ac ymchwil a roddir ar waith. Ceir y wybodaeth hon drwy weithgarwch Estyn.
    h. Ffyrdd y gallai ymyriadau cynnar effeithiol osgoi'r angen i roi ysgolion mewn categorïau statudol, ac effeithiolrwydd y trefniadau presennol
    i. Dulliau o wreiddio a chynnal gwelliannau i ysgolion a systemau yn dilyn cynnydd cychwynnol
    j. Ymgysylltu ag arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion ar draws y system i nodi sut y gallai trefniadau gwella ysgolion esblygu orau i ddiwallu eu hanghenion a chefnogi llwybrau gwella.

**Materion i'w harchwilio**

Yn ogystal â nodi sut olwg fyddai ar wasanaeth effeithiol yn y dyfodol i wella ysgolion - gan adlewyrchu'r materion a nodwyd yn amcan 3 uchod - bydd angen ystyried materion eraill yn yr adolygiad hefyd. Gallai'r rhain gynnwys:

- Sut y gellir gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion llwyddiannus o dan gwricwlwm Cymru - fel y'i mynegir yn y canllawiau i wella ysgolion - drwy drefniadau a ffyrdd o weithio
- I ba raddau y mae cysondeb dealltwriaeth mewn ac iaith a ddefnyddir perthynas â 'gwella ysgol' a 'system hunanwella'
- Sut mae'r trefniadau presennol i wella ysgolion yn helpu ysgolion i hunanwerthuso'n effeithiol, ac a fyddai newidiadau yn helpu i gryfhau hyn a'r uchelgais cyffredin ar gyfer system hunanwella
- Nodi pa gymorth sydd ei angen ar ysgolion o ran gwasanaethau gwella, sut mae eu hanghenion yn cael eu nodi a'u taclo, a oes yna fylchau yn y ddarpariaeth bresennol a sut y gellir cau'r bylchau hynny
- Edrych ar y rôl unigryw mae pob sefydliad yn ei chwarae (os o gwbl) yn yr haen ganol - yn benodol yng nghyd-destun gwella ysgolion - gan gynnwys cyfrifoldebau cyfredol, disgwyliadau tybiedig ac unrhyw beth sy'n destun gwrthdaro rhwng sefydliadau yn sgil amwysedd neu ffactorau eraill

- Nodi pa rôl y gallai pob sefydliad ei chwarae i’r dyfodol, os o gwbl, o ran gweithredu trefniadau gwella ysgolion, gan gynnwys disgwyliad i gydweithio, a nodi unrhyw rwystrau i wneud hynny.
- I ba raddau y mae’r pandemig wedi effeithio ar drefniadau gwella ysgolion, ac i ba raddau y dylid ystyried hyn.

**Ffynonellau gwybodaeth i lywio'r adolygiad**

Mae yna wahanol ffyrdd y gellid cynnal yr adolygiad, a gofyniad allweddol o'r cychwyn cyntaf fydd chwilio am wybodaeth a dysgu ohoni er mwyn galluogi canfyddiadau ac argymhellion cadarn a gwrthrychol. Bydd y ffynonellau gwybodaeth a’r dystiolaeth yn cynnwys y canlynol o leiaf:


- Y rolau a’r cyfrifoldebau presennol sydd wedi’u cyhoeddi
- Dogfennau polisi a chanllawiau presennol, a gwybodaeth am arolygiadau Estyn
- Trefniadau’r Awdurdodau Lleol mewn Consortia Rhanbarthol a Phartneriaethau
- Consortia Rhanbarthol a Phartneriaethau
- Trefniadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phob sefydliad
- Yr ymchwil ddiweddaraf sy’n ymwneud â gwasanaethau gwella ysgolion
- Profiadau a mewnwelediadau ysgolion/ ymarferwyr
- Barn / tystiolaeth gan bartneriaid allweddol o fewn y system addysg yng Nghymru
- Arferion da lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**Amseru**

Gallai'r adolygiad ddechrau yn nhymor yr haf, gan gyhoeddi’r canfyddiadau cychwynnol yn yr hydref, a’r adroddiad terfynol yn nhymor Gwanwyn 2024. <u>Dalier sylw: bydd yr amserlen yn dibynnu ar y dull a ddefnyddir ar gyfer yr adolygiad.</u>

**Canlyniadau a’r hyn y gellir ei gyflawni**

- Cyhoeddi dogfen yn amlinellu’r rolau a’r cyfrifoldebau ar gyfer pob sefydliad, gyda diffiniadau clir ar gyfer sefydliadau a elwir gynt yn rhai 'haen ganol', ac yn nodi meysydd ar gyfer camau gweithredu posibl
- Gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion a system hunanwella yng Nghymru a'r cwmpas/ angen am newidiadau i gefnogi cyd-ddealltwriaeth yn y dyfodol
- Nodi cydymdrechion, bylchau a dyblygu gwaith, a llwybr clir i fynd i’r afael â nhw.





Estyn

# Arolygiadau gwasanaethau addysg llywodraeth leol 2024

# Local government education services inspections 2024

CYNIGION ALLWEDDOL

KEY PROPOSALS

Estyn

# 'Beth' a 'Sut'
# The 'What' and the 'How'



Dwy ddogfen arweiniad ar gyfer 2024:

**'Beth rydym yn ei arolygu'**

a

**'Sut rydym yn arolygu'**

Two guidance documents for 2024:

**'What we inspect'**

and

**'How we inspect'**

Estyn

# Sut rydym yn arolygu
# How we inspect

Arolygiadau GAALl:

- awdurdod lleol
- un agwedd ar wasanaethau addysg mewn awdurdod lleol (arolygiad â ffocws)
- darparwyr gwasanaethau addysg eraill (gwasanaeth addysg rhanbarthol, partneriaeth neu wedi'i gomisiynu)

LGES inspections:

- a local authority
- one aspect of education services in a local authority (a focused inspection)
- other education services providers (a regional, partnership or commissioned education service)

Estyn

# Sut rydym yn arolygu
# How we inspect



Cyfnod hysbysu:

- Ar gyfer awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau addysg eraill, aros yn 10 wythnos neu gwtogi i 8 wythnos?
- Ar gyfer arolygiadau â ffocws, o bosibl yn fyrrach ond dim llai na 4 wythnos

Notification period:

- For local authorities and other education services providers, to remain at 10 weeks or shorten to 8 weeks?
- For focused inspections, potentially shorter but no less than 4 weeks

# Sut rydym yn arolygu
# How we inspect

Tud. 156

Arolwg cyn-arolygiad:

- Un arolwg sy'n addasu'n ddynamig i rôl ymatebwr neu ffocws yr arolygiad

Pre-inspection survey:

- Single survey that dynamically adapts to respondent's role or the focus of the inspection

Estyn

# Sut rydym yn arolygu
# How we inspect

Proses adborth:

- Mae'r adroddiad drafft yn cymryd amser hir i'w ddarllen ar goedd ac mae'n cynnwys llawer o wybodaeth i'w dirnad. Unrhyw syniadau am sut gallem ni wella'r broses adborth?

Feedback process:

- The draft report takes a long time to read out and is a lot to take in. Any ideas about how we could improve the feedback process?

Estyn

# Sut rydym yn arolygu
# How we inspect

Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad:

- Lleihau o 45 i 30 diwrnod ar ôl arolygiad

Report publication date:

- Reduced from 45 to 30 days following inspection

# Sut rydym yn arolygu
# How we inspect

Gweithgarwch dilynol:

- cynhadledd gwelliant gychwynnol
- ymweliadau monitro gydag adroddiadau cynnydd (ddim yn ymdrin â'r holl argymhellion bob tro, o reidrwydd)

Follow-up:

- an initial improvement conference
- monitoring visits with progress reports (not necessarily covering all recommendations each time)

Estyn

# Sut rydym yn arolygu
# How we inspect



Dim newidiadau mawr i'r canlynol:

- Cwestiynau arolygu lleol
- Gweithgareddau rhagarweiniol
- Gweithgareddau yn ystod wythnos yr arolygiad
- Cyfansoddiad y tîm (ond defnyddio arolygydd cymheiriaid ychwanegol o bosibl?)

No major changes to:

- Local inspection questions
- Preliminary activities
- Inspection week activities
- Team composition (but possibly use an extra peer inspector?)

# Beth rydym yn ei arolygu
# What we inspect

Newid mawr:

MA1: 'Gwasanaethau addysg a'u heffaith'

MA2: Arwain a gwella

Major change:

IA1: Education services and their impact'

IA2: Leading and Improving

# Sut rydym yn arolygu
# How we inspect

**Rhaid** i adroddiadau ymdrin â'r canlynol:

- MA1: effaith gwasanaethau ar ddysgwyr
- MA2: deilliannau ar gyfer dysgwyr
- tegwch yn y system addysg
- y Gymraeg
- diogelu

Reports **must** cover:

- IA1: the impact of services on learners
- IA2: outcomes for learners
- equity in the education system
- Welsh language
- safeguarding

# Beth rydym yn ei arolygu
# What we inspect

Mân addasiadau drwyddi draw, yn aml i ystyried datblygiadau a blaenoriaethau cenedlaethol.

Minor tweaks throughout, often to take account of national developments and priorities.

# Beth yw'r camau nesaf?
# What are the next steps?

Ymgynghori ar y cynigion- Tymor yr Hâf

Hyfforddiant ar gyfer arolygwyr cymheiriaid – Tymor yr Hydref

Peilot – Tymor y Gwanwyn 2024

Mireinio'r arweiniad yn dilyn adborth – Tymor yr Hâf 2024

Consult on the proposals – Summer Term

Training peer inspectors – Autumn term

Pilot – Spring Term

Final tweaks to the guidance following feedback – Summer term 2024.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 MAI 2023**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE** |
| **Pwnc:** | **Diwrnod dathlu y daith ddiwygio** |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor am y bwriad i gynnal 'Marchnad Cwricwlwm i Gymru' i arweinwyr ysgolion y rhanbarth ar 22 Mehefin 2023 yn Venue Cymru, Llandudno er mwyn dathlu y daith ddiwygio hyd yma.

**2.0 Cefndir**

2.1 Bwriad y digwyddiad yw rhoi cyfle i rannu datblygiadau Cwricwlwm i Gymru (CiG) a dathlu llwyddiannau, gyda'r nod o ddarparu cyfle i rannu arferion sy'n dod i'r amlwg ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

2.2 Bydd cyfle i dreulio diwrnod yn gweld a gwrando ar ysgolion yn rhannu eu profiadau o'r daith ddiwygio hyd yma trwy weithdai a stondinau marchnad. Yn ogystal bydd cyfle i wrando ar arbenigwyr yn rhannu o'u profiadau ac yn disgrifio'r gefnlen rhyngwladol.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Bydd cyfle i wrando ar gyflwyniadau gan siaradwyr gwadd o'r radd flaenaf yn ystod y diwrnod a chael trafodaethau gyda chydweithwyr. Ymhlith y siaradwyr gwadd mae'r Athro Graham Donaldson, Cyfarwyddwr Addysg a'r Iaith Gymraeg – Llywodraeth Cymru, a DARPL (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol).

3.2 Bydd cynrychiolwyr yn gallu mynychu nifer o weithdai a stondinau, neu, gall cynrychiolwyr ddewis i fynychu sesiwn gan siaradwyr ar y prif lwyfan.

3.3 Bydd y gweithdai yn gyfle i wrando ar ymarferwyr yn rhannu eu profiadau, gyda chyflwyniadau yn rhoi trosolwg o:

- waith cydweithio aelodau'r Rhwydwaith Rhanbarthol CiG
- sut mae ysgolion penodol wedi ymateb i CiG
- waith cydweithio ysgolion mewn ymateb i CiG

3.4 Bydd yr ystod eang o weithdai yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Mathemateg a Rhifedd
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Dylunio Cwricwlwm
- Asesu
- Pontio
- Elfennau Mandadol a Statudol
- Y Gymraeg 2050

3.5 Bydd yna hefyd hyd at 24 stondin marchnad i rannu arferion sy'n dod i'r amlwg mewn dull llai ffurfiol er mwyn rannu syniadau, arferion a negeseuon. Bydd cyfle i drawstoriad eang o rhanddeiliaid gyfrannu at arlwy'r diwrnod.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid allweddol arferol.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5 o'r adroddiad yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad, a bydd y digwyddiad yn cael ei ariannu o fewn eu hadnoddau ariannol presennol. Felly, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.